



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 19 Medi 2006
Tuesday, 19 September 2006**

**Cynnwys
Contents**

- 3 Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer
- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 32 Cwestiwn Brys: Ffatri Burberry
Urgent Question: Burberry Factory
- 39 Cwestiwn Brys: Colli swyddi yn Duracell, Wrecsam
Urgent Question: Job losses at Duracell, Wrexham
- 47 Datganiad Busnes
Business Statement
- 50 Cymeradwyo Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 29.3(iii)
Approval of the Assembly Learning Grant (Further Education) Scheme 2006 under Standing Order No. 29.3(iii)
- 55 Cymeradwyo Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 29.3(iii)
Approval of the Assembly Learning Grant (Higher Education) Scheme 2006 under Standing Order No. 29.3(iii)
- 57 Cymeradwyo Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 29.3(iii)
Approval of the Education Maintenance Allowance Scheme 2006 under Standing Order No. 29.3(iii)
- 60 Cymeradwyo Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 29.3(iii)
Approval of the Teacher Training Incentive Scheme under Standing Order No. 29.3(iii)
- 64 Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Adnoddau Dŵr
Minority Party Debate (Plaid Cymru): Water Resources
- 91 Adolygiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau o Bolisi Gwyddoniaeth
The Enterprise, Innovation and Networks Committee's Science Policy Review

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Cyn galw ar y Prif Weinidog i ateb cwestiynau, cyfarchaf ymwelydd arbennig â'r oriel gyhoeddus, sef Mr David Jones o Wauncaegurwen, sy'n wylwr cyson ac yn etholwr i Gwenda Thomas. Mae wedi dewis dod yma i ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed. [*Cymeradwyaeth.*]

The Presiding Officer: Before calling on the First Minister to answer questions, I welcome a special visitor to the public gallery, namely Mr David Jones from Gwauncaegurwen, who is a regular observer and is one of Gwenda Thomas's constituents. He has chosen to come here to celebrate his hundredth birthday. [*Applause.*]

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Ffatri Burberry yn Nhreforci The Burberry Plant in Treorchy

Q1 Leanne Wood: Will the First Minister make a statement on job losses at the Burberry plant in Treorchy? OAQ1801(FM)

C1 Leanne Wood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y swyddi a gollir yn ffatri Burberry yn Nhreforci? OAQ1801(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): The announcement made by the Burberry management that the factory in Treorchy is to close is regrettable. It is a human and family tragedy to all those affected, as well as to the community at the top of the Rhondda Fawr. It is also a loss to Wales of an iconic world-brand name. The workforce, through its trade unions, is seeking to persuade the management to change its mind, and I believe that we should all give it our full support.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae'r cyhoeddiad a wnaethpwyd gan reolwyr Burberry fod y ffatri yn Nhreforci i gau yn destun gofid. Mae'n drasiedi ddynol a theuluol i bawb y mae'n effeithio arnynt, yn ogystal ag i'r gymuned ym mhen uchaf y Rhondda Fawr. Mae Cymru hefyd yn colli enw brand sy'n enwog drwy'r byd. Drwy ei undebau llafur, mae'r gweithlu'n ceisio darbwylllo'r rheolwyr i newid eu meddwl, a chredaf y dylem i gyd roi pob cefnogaeth iddo.

Leanne Wood: The closure of the factory with the loss of over 300 jobs will be a disastrous blow for those workers, their families, Treorchy and the whole of the Rhondda. I am sure that you would agree that it is a matter of cross-party concern. My Plaid Cymru colleague, Jill Evans, and I have met the company to seek a way forward, as have colleagues in your party, I understand. The company has made two points to me about how the Government could help to bring more jobs to the Rhondda Fawr. First, it says that including Treherbert and Treorchy in the Heads of the Valleys strategy would make a difference to the area. Will you, along with

Leanne Wood: Bydd cau'r ffatri a cholli dros 300 o swyddi'n ergyd drychinebus i'r gweithwyr hynny, i'w teuluoedd, i Dreorci ac i'r Rhondda gyfan. Yr wyf yn siŵr y cytunech ei fod yn fater sy'n peri pryder yn drawsbleidiol. Mae fy nghyd-aelod Plaid Cymru, Jill Evans, a mi wedi cwrdd â'r cwmni i chwilio am ffordd ymlaen, fel y gwnaeth cyd-aelodau o'ch plaid chithau, yn ôl a ddeallaf. Gwnaeth y cwmni ddau bwynt i mi ynghylch sut y gallai'r Llywodraeth helpu i ddod â mwy o swyddi i'r Rhondda Fawr. Yn gyntaf, dywed y byddai cynnwys Treherbert a Threorci yn strategaeth Blaenau'r Cymoedd yn gwneud gwahaniaeth

the Minister for Enterprise, Innovation and Networks, agree to look at including those areas in that strategy? Secondly, it says that transport links need improving. Will you make available the funds for the Gelli/Treorchy bypass and give a firm completion date for that work?

The First Minister: Andrew Davies will be covering the first point in his response to the urgent question later on.

We have no bids from Rhondda Cynon Taf County Borough Council for a transport supplementary grant. You will be aware of the Porth relief road, for which we approved a bid. That is under construction—it is impressive—at a cost of £86 million. I understand that it is the largest road project to be funded by a local authority transport supplementary grant in the UK. Therefore, there is no shortage of massive financial commitment currently from the Assembly Government. However, the road that you mentioned relies on bids from Rhondda Cynon Taf, and it has not made a bid for that particular road. I can only emphasise that we should be supporting the workforce's efforts, through its trade unions, to seek to get the management to change its mind.

Leighton Andrews: You and I spoke about this matter on the day that we heard about the announcement, and you will be aware that I and Chris Bryant, the Rhondda Member of Parliament, went straight to the factory and met workers as they were leaving work. We also met the trade union and then had a meeting with the management to discuss the issues. It is quite clear that Burberry has carried out a behind-the-scenes review of costs and is looking at this purely on a cost basis. Do you agree that everyone in the Chamber should now get behind the unions at Burberry? It is important that the workforce is running this campaign, and that we support it and its unions, the GMB and Amicus. Do you also agree that if Burberry wants to be seen as a British brand, it has to keep manufacturing jobs in Britain?

i'r ardal. A wnewch chi, ynghyd â'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, gytuno i ystyried cynnwys yr ardaloedd hynny yn y strategaeth honno? Yn ail, dywed fod angen gwella cysylltiadau trafnidiaeth. A wnewch ddarparu'r cyllid ar gyfer ffordd osgoi'r Gelli/Treorci a rhoi dyddiad cwblhau pendant ar gyfer y gwaith hwnnw?

Y Prif Weinidog: Bydd Andrew Davies yn ymdrin â'r pwynt cyntaf yn ei ymateb i'r cwestiwn brys yn ddiweddarach.

Nid oes gennym ddim ceisiadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am grant atodol trafnidiaeth. Gwyddoch am ffordd liniaru'r Porth, y cymeradwyasom gais ar ei chyfer. Mae honno'n cael ei hadeiladu—mae'n werth ei gweld—ar gost o £86 miliwn. Deallaf mai dyma'r prosiect ffordd mwyaf i'w gyllido gan grant atodol trafnidiaeth awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig. Felly, nid oes dim prinder ymrwymiad ariannol enfawr ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r ffordd y soniasoch amdani'n dibynnu ar geisiadau gan Rhondda Cynon Taf, ac nid yw wedi gwneud cais ar gyfer y ffordd arbennig honno. Ni allaf ond pwysleisio y dylem fod yn cefnogi ymdrechion y gweithlu, drwy ei undebau llafur, i geisio cael gan y rheolwyr newid eu meddwl.

Leighton Andrews: Buoch chi a mi'n siarad am y mater hwn y diwrnod y clywsom am y cyhoeddiad, a byddwch yn ymwybodol fy mod i a Chris Bryant, yr Aelod Seneddol dros y Rhondda, wedi mynd yn syth i'r ffatri a chyfarfod â gweithwyr wrth iddynt adael y gwaith. Cyfarfuom hefyd â'r undeb llafur ac wedyn cynhaliasom gyfarfod gyda'r rheolwyr i drafod y materion dan sylw. Mae'n gwbl amlwg bod Burberry wedi cynnal adolygiad y tu ôl i'r llenni o'r costau a'i fod yn edrych ar hyn ar sail y gost yn unig. A ydych yn cytuno y dylai pawb yn y Siambr bellach fynd ati i gefnogi'r undebau yn Burberry? Mae'n bwysig mai'r gweithlu sy'n rhedeg yr ymgyrch hon, a'n bod ninnau'n ei gefnogi ef a'i undebau, y GMB ac Amicus. A gytunwch hefyd os yw Burberry'n dymuno cael ei weld fel brand Prydeinig, fod yn rhaid iddo gadw swyddi gweithgynhyrchu ym Mhrydain?

The First Minister: I agree with the point that getting in there to try to dissuade the management from pursuing the course that it has announced during the current consultation period and supporting the campaign led by GMB, as the union that organises most of the workforce, as well as Amicus, is important if there is any chance of persuading the company to change its mind. If it does not, then Team Wales will bring its efforts into play in order to place workers in other work where there is a demand for employees. There is never a good time to lose your job, but the relatively least worst time is when the economy is buoyant and jobs are at record levels, as they are currently. It is important then to say, 'What else can we do to try to ensure that the upper Rhondda community is made as prosperous as possible, despite this grievous blow?'. Burberry considers itself to be a very British, but world, brand. That is one reason why it is keeping rain-coat, trench-coat and duffel-coat production in Yorkshire. However, it would seem that it does not see the polo-shirt market in the same way. Those are matters for the fashion trade; I have no expertise in that area.

Y Prif Weinidog: Cytunaf â'r pwynt ei bod yn bwysig camu i mewn i geisio darbwyllo'r rheolwyr rhag dilyn y llwybr y maent wedi ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod ymgynghori cyfredol, a chefnogi'r ymgyrch sy'n cael ei harwain gan y GMB, sef yr undeb sy'n trefnu'r rhan fwyaf o'r gweithlu, ynghyd ag Amicus, os am gael unrhyw siawns o berswadio'r cwmni i newid ei feddwl. Os na wna hynny, yna bydd Tîm Cymru'n gwneud ymdrechion i leoli gweithwyr mewn gwaith arall lle y mae galw am weithwyr. Nid oes fyth amser da i golli'ch gwaith, ond yr adeg leiaf andwyol yn gymharol yw pan fo'r economi ar i fyny a swyddi ar eu lefelau uchaf erioed, fel y maent ar hyn o bryd. Mae'n bwysig dweud wedyn, 'Beth arall y gallwn ei wneud i geisio sicrhau bod cymuned y Rhondda uchaf mor ffyniannus ag y bo modd, er gwaethaf yr ergyd ddirifol hon?'. Mae Burberry'n ystyried ei hun yn frand Prydeinig iawn, ond yn un byd-eang. Dyna un rheswm pam y mae'n cadw'r gwaith o gynhyrchu cotiau glaw, cotiau milwrol a chotiau dyffl yn swydd Efrog. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'n gweld y farchnad crysau polo yn yr un modd. Materion i'r diwydiant ffasiwn yw'r rhain; nid oes gennyf fi ddim arbenigedd yn y maes hwnnw.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Anti-social Behaviour

Q2 Laura Anne Jones: Will the First Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government is helping to tackle anti-social behaviour in Wales?
OAQ1797(FM)

C2 Laura Anne Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru?
OAQ1797(FM)

The First Minister: The Welsh Assembly Government is supporting community safety partnerships to ensure a joined-up, multi-agency approach to combating anti-social behaviour. I commend recent initiatives, such as the single non-emergency number rolled out in Cardiff, and the work done with Newport City Council on an attempt to prevent young people from getting involved in anti-social behaviour.

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol i sicrhau dull cydlynol, aml-asiantaeth o weithio yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cymeradwyaf gamau diweddar, fel yr un rhif ffôn ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai argyfwng a gyflwynwyd yng Nghaerdydd, a'r gwaith a wnaethpwyd gyda Chyngor Dinas Casnewydd ar ymgais i atal pobl ifanc rhag troi at ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Laura Anne Jones: The number of people

Laura Anne Jones: Mae nifer y bobl sydd

worried about anti-social behaviour has risen sharply, from 18 per cent in January to 23 per cent in July. A constituent of mine in Blaenau Gwent, who was, ironically, returning from a public meeting to deal with anti-social behaviour, found that a brick had been thrown through her window and that her car had been smashed to pieces with a baseball bat. The youths responsible were laughing about it further down the road. People feel powerless to do anything about this—when they contact the police, the youths have already gone. How is the Government working with the police and with the organisations that you mentioned to ensure that initiatives can be put into place now? This is an urgent matter that people are dealing with on a daily basis—people will deal with it tonight.

The First Minister: If I understood the description that you gave of what had happened, it sounded like more than anti-social behaviour—it sounded like outright criminal behaviour. Anti-social behaviour tends to be behaviour that is more than nuisance-level behaviour and is just short of criminal behaviour, although it is likely to lead to criminal behaviour unless it is nipped in the bud. I commend the four pilot projects that we are currently helping to fund. They are the Neath Port Talbot community safety partnership, the project in Newport that I mentioned, and projects in Torfaen and Cardiff.

Jeff Cuthbert: Domestic violence is, I would suggest, a terrible aspect of anti-social behaviour. It was debated recently at the Commonwealth Parliamentary Association's conference in Nigeria. It is a blight on all countries, and it happens here in Wales. Do you agree that community safety partnerships are an excellent example of what was highlighted in the Beecham review as collaboration between the health service, the police and local authorities to bring together expertise to help tackle issues such as domestic violence?

The First Minister: I do, and I believe that the women's safety unit, pioneered in Cardiff and later established in your constituency of

yn poeni ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi codi'n aruthrol, o 18 y cant yn Ionawr i 23 y cant ym mis Gorffennaf. Canfu etholwr i mi ym Mlaenau Gwent, a oedd, yn eironig, yn dychwelyd o gyfarfod cyhoeddus i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, fod bricsen wedi'i thaflu drwy ei ffenestr a bod ei char wedi'i falu'n deilchion gyda bat pêl-fas. Yr oedd y llanciau a oedd yn gyfrifol yn chwethin am y peth ymhellach i lawr y ffordd. Mae pobl yn teimlo'n ddi-rym i wneud dim am hyn—pan gysylltant â'r heddlu, mae'r llanciau wedi mynd yn barod. Sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r heddlu a chyda'r cyrff a enwyd gennych i sicrhau y gellir sefydlu mentrau'n awr? Mae hwn yn fater brys y mae pobl yn delio ag ef yn ddyddiol—bydd pobl yn delio â hyn heno.

Y Prif Weinidog: Os deallais y disgrifiad a roesoch o'r hyn a oedd wedi digwydd, yr oedd yn swnio fel mwy nag ymddygiad gwrthgymdeithasol—yr oedd yn swnio fel ymddygiad troseddol a dim llai. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn tueddu i fod yn ymddygiad sydd yn fwy nag ymddygiad ar lefel niwsans a bron â bod yn ymddygiad troseddol, er ei fod yn debygol o arwain at ymddygiad troseddol os na chaiff ei ladd yn yr egin. Cymeradwyaf y pedwar cynllun peilot yr ydym yn helpu i'w hariannu ar hyn o bryd, sef partneriaeth diogelwch cymunedol Castell-nedd Port Talbot, y prosiect yng Nghasnewydd y soniais amdano, a phrosiectau yn Nhor-faen a Chaerdydd.

Jeff Cuthbert: Mae trais domestig, hoffwn awgrymu, yn agwedd ofnadwy ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fe'i trafodwyd yn ddiweddar yng nghynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Nigeria. Mae'n felltith ym mhob gwlad, ac mae'n digwydd yma yng Nghymru. A ydych yn cytuno bod partneriaethau diogelwch cymunedol yn enghraifft ragorol o'r hyn y tynnwyd sylw ato yn adolygiad Beecham fel cydweithredu rhwng y gwasanaeth iechyd, yr heddlu ac awdurdodau lleol i ddwyn ynghyd arbenigedd i helpu i fynd i'r afael â materion fel trais yn y cartref?

Y Prif Weinidog: Ydwyf, a chredaf y gwelir yr uned diogelu menywod, yr arloeswyd â hi yng Nghaerdydd ac a sefydlwyd wedyn yn

Caerphilly, is regarded as pathbreaking within the UK in terms of trying to reduce levels of domestic violence. It appears, from all the data, that it is having a dramatic effect as a result of the way in which it can target its work on reducing this kind of violence. Domestic violence is terrible in itself but, in terms of its long-term implications on the psychology of children who grow up observing such violence, you do not know what incalculable damage is done.

Mick Bates: Earlier, you mentioned joined-up thinking and the work of community safety partnerships. I am sure that we all have examples of their success. However, in rural Wales facilities are often scarce, and access to those facilities, for young people in particular, to reduce the incidence of anti-social behaviour is crucial. It does not seem that your Government is thinking in a joined-up way. By reducing the amount of money available to rural councils, such as Powys County Council, you are, in turn, putting pressure on the transport services that young people need to get to the very facilities that you often spin about. When are you going to provide some joined-up thinking to ensure that young people in rural areas are able to access services, rather than reduce their ability to get from their small, often isolated, communities to the facilities that they deserve?

The First Minister: There is a bit of a sob story behind that question, Mick. It might be helpful if you could try to avoid simply pointing the finger of blame at the Assembly for every decision made by Powys County Council. If Powys council decides to prioritise one area rather than another, you should talk to the council rather than automatically assume that it is the Assembly's fault. Its priorities are the ones that it chooses. I understand your point that the more rural the area in which you live the further it will be from the doctor's surgery or the youth club or whatever; that is a natural consequence. There are some very good things about living in rural areas, but having to travel longer distances to facilities is one aspect of living in an area of sparse population. I do not think that anyone, not

eich etholaeth chi, Caerffili, fel rhywbeth sy'n torri tir newydd yn y Deyrnas Unedig o ran ceisio gostwng lefelau trais yn y cartref. Mae'n ymddangos, yn ôl yr holl ddata, ei bod yn cael effaith ddramatig yn sgîl y ffordd y mae'n gallu targedu ei gwaith ar leihau'r math hwn o drais. Mae trais yn y cartref yn ofnadwy ynddo'i hun, ond, o ran ei oblygiadau hirdymor i seicoleg plant sydd yn cael eu magu gan weld trais o'r fath, ni wyddys pa niwed anfesuradwy a wneir.

Mick Bates: Yn gynharach, bu ichi grybwyll meddwl yn gydlynol a gwaith partneriaethau diogelwch cymunedol. Yr wyf yn siŵr bod gan bawb ohonom enghreifftiau o'u llwyddiant. Fodd bynnag, yn y Gymru wledig mae cyfleusterau yn aml yn brin, ac mae mynediad at y cyfleusterau hynny, i bobl ifanc yn enwedig, i leihau mynychder ymddygiad gwrthgymdeithasol yn allweddol. Nid yw'n ymddangos bod eich Llywodraeth yn meddwl mewn dull cydlynol. Drwy leihau'r arian sydd ar gael i gynghorau gwledig, fel Cyngor Sir Powys, yr ydych, yn eich tro, yn rhoi pwysau ar y gwasanaethau cludiant y mae ar bobl ifanc eu hangen er mwyn cyrraedd yr union gyfleusterau y byddwch chi'n traethu amdanynt yn aml. Pa bryd yr ydych yn mynd i feddwl yn gydlynol i sicrhau y gall pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig gael mynediad at wasanaethau, yn hytrach na lleihau eu gallu i deithio o'u cymunedau bach, anghysbell yn aml, at y cyfleusterau y maent yn eu haeddu?

Y Prif Weinidog: Mae gennych dipyn o stori ddagreuol y tu ôl i'r cwestiwn hwnnw, Mick. Efallai y byddai'n fuddiol pe gallech geisio osgoi pwyntio bys cyhuddgar at y Cynulliad am bob penderfyniad a wneir gan Gyngor Sir Powys. Os penderfyna cyngor Powys roi blaenoriaeth i un maes yn hytrach nag un arall, dylech siarad â'r cyngor yn hytrach na thybio'n awtomatig mai bai'r Cynulliad ydyw. Ei flaenoriaethau ef yw'r rhai a ddewisa. Deallaf eich pwynt, mai po fwyaf gwledig yw'r ardal lle'r ydych yn byw, pellaf fydd hi oddi wrth y feddygfa neu'r clwb ieuenctid neu beth bynnag y bo; mae hynny'n ganlyniad naturiol. Mae rhai pethau da iawn ynghylch byw yng nghefn gwlad, ond mae gorfod teithio pellterau mwy at gyfleusterau'n un agwedd ar fyw mewn ardal denau ei phoblogaeth. Nid wyf yn meddwl y

even the Archangel Gabriel, could change that iron law of geography.

gallai neb, hyd yn oed yr Archangel Gabriel, newid y rheol ddaearyddol haearnidd honno.

2.10 p.m.

Gwasanaethau'r GIG NHS Services

C3 Elin Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau GIG yng Ngheredigion? OAQ1811(FM)

Q3 Elin Jones: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for improving NHS services in Ceredigion? OAQ1811(FM)

Y Prif Weinidog: Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau'r GIG yng Ngheredigion yn unol â'r manylion yn 'Cynllun Oes'. Rhaid mesur unrhyw newid yn erbyn yr uchelgais o gyflwyno iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf, yn gynaliadwy a diogel, i holl drigolion yr ardal erbyn 2015.

The First Minister: The priorities for improving NHS services in Ceredigion fall in line with the details of 'Designed for Life'. Any change must be measured against the ambition of delivering sustainable, safe, world-class health and social care for all of the area's residents by 2015.

Elin Jones: Byddwch yn gwybod am y drafodaeth am ddyfodol ysbytai aciwt y gorllewin. Casglodd y *Cambrian News* ddeiseb â 18,000 o enwau arni o blaid cadw gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais. A oes modd i chi egluro i mi pam eich bod chi, fel Llywodraeth, a'ch Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi gwrthod derbyn y ddeiseb honno oddi wrth olygydd y *Cambrian News*, er bod y Gweinidog wedi derbyn deiseb ar ddyfodol Ysbyty Llwynhelyg oddi wrth Aelod Cynulliad Llafur yr ardal? A yw hyn yn enghraifft arall o duedd wleidyddol yn nyfodol y gwasanaeth iechyd?

Elin Jones: You will be aware of the discussion about the future of acute hospitals in west Wales. The *Cambrian News* collected a petition of 18,000 names to retain services at Bronglais Hospital. Can you explain to me why you, as a Government, and your Minister for Health and Social Services, have refused to accept that petition from the editor of the *Cambrian News*, although the Minister accepted a petition on the future of Withybush Hospital from the area's Labour Assembly Member? Is this another example of political bias in the future of the health service?

Y Prif Weinidog: Dyna enghraifft arall o bwyntio'r bys heb feddwl yn ddwfn am y pwnc. Mae gan Brian Gibbons, fel y Gweinidog, swyddogaeth led-farnwrol, gan ei fod yn gorfod barnu ar apêl os oes anghytundeb ymhlith y gymuned iechyd leol ar unrhyw newid sylweddol yn y cyfleusterau iechyd, er enghraifft, cau ysbyty lleol. Felly, mae'n gorfod cymryd cam yn ôl. Dyna pam yr ydym yn gadael i'r gymuned iechyd leol wneud ei chynlluniau, ac wedyn yn gweithio arnynt i weld a oes modd cael cytundeb.

The First Minister: That is another example of pointing the finger of blame without thinking about the subject in detail. Brian Gibbons, as the Minister, has a quasi-judicial role, in that he has to decide upon an appeal should there be disagreement within the local health community on any substantial change in health facilities, for example, the closure of a local hospital. Therefore, he has to be one step removed. That is why we let the local community make its plans, and then work on them to see whether agreement can be reached.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): Reference has just been

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Cyfeiriwyd gynnaau at y bwrdd

made to the project board and to the petition from the people of Ceredigion. The First Minister will be aware of the project board's report and the fact that it has kicked the proposals for downgrading Bronglais and Withybush into the long grass. Does he support those recommendations and will he give an unequivocal commitment that there is no question of downgrading Withybush or Bronglais while he remains First Minister?

The First Minister: As I understand it, the Ceredigion Local Health Board and some of the other local health boards—the majority of the four involved, I think—have said that they believe that the first step that should be taken is that the four trusts should be amalgamated into one, so that an all-Dyfed solution can be brought forward. If there is to be a better network solution, which would not then involve downgrading, although it might involve swapping services between hospitals, you need one trust to provide an all-Dyfed solution. That is being worked through by the local health boards and the community health councils. If they can agree that, that is what goes ahead, and we would have to agree it as an administrative change. However, that is where we are now, and that is why the proposals have been withdrawn.

Nick Bourne: That is far from the reassurance that I was hoping for. You are right that there is talk of a Dyfed health trust. Many of us view that as going down the route of having a single district general hospital for those three counties. Those are three distinct counties. During the summer I visited Caithness District General Hospital in Wick, which is a similar institution; it has battled for its existence and has satisfied the local authorities and health boards that its rurality is a reason for its continued separate existence. Do you not accept that we need at least three, and possibly four, district general hospitals to serve the distinct needs of the separate communities of Carmarthenshire, Pembrokeshire and Ceredigion?

The First Minister: What Ceredigion Local Health Board has said is that it agrees with the creation of a single organisation to deliver services for Dyfed and that it should be developed before services are integrated. You

prosiect ac at y ddeiseb gan bobl Ceredigion. Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol o adroddiad y bwrdd prosiect a'r ffaith ei fod wedi bwrw'r cynigion ar gyfer israddio Bronglais a Llwynhelyg o'r neilltu. A ydyw'n cefnogi'r argymhellion hynny ac a wnaiff roi ymrwymiad diamwys na fydd israddio ar Lwynhelyg na Bronglais tra bydd ef yn Brif Weinidog?

Y Prif Weinidog: Yn ôl a ddeallaf, mae Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion a rhai o'r byrddau iechyd lleol eraill—y rhan fwyaf o'r pedwar dan sylw, yr wyf yn meddwl—wedi dweud eu bod yn credu mai'r cam cyntaf y dylid ei gymryd yw cyfuno'r pedair ymddiriedolaeth, fel y gellir cyflwyno un ateb i Ddyfed gyfan. Os mai'r ateb yw cael gwell rhwydwaith, na fyddai wedyn yn golygu israddio, er y gallai olygu cyfnewid gwasanaethau rhwng ysbytai, mae angen un ymddiriedolaeth i ddarparu ateb i Ddyfed gyfan. Mae hynny'n cael ei ystyried gan y byrddau iechyd lleol a'r cynghorau iechyd cymuned. Os gallant gyuno ar hynny, dyna a fydd yn digwydd, a byddai'n rhaid i ni gyuno arno fel newid gweinyddol. Fodd bynnag, dyna ble'r ydym yn awr, a dyna pam y mae'r cynigion wedi'u tynnu'n ôl.

Nick Bourne: Mae hynny'n llawer llai na'r sicrwydd yr oeddwn yn gobeithio ei gael. Yr ydych yn gywir bod sôn am ymddiriedolaeth iechyd i Ddyfed. Mae llawer ohonom yn tybio y byddai hynny'n arwain at gael un ysbyty cyffredinol dosbarth i'r tair sir hynny. Mae'r rheini'n dair sir ar wahân. Yn ystod yr haf ymwelais ag Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Caithness yn Wick, sydd yn sefydliad tebyg; mae wedi brwydro am ei einioes ac wedi argyhoeddi'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd fod ei natur wledig yn rheswm dros iddo barhau i fodoli ar wahân. Oni chytunwch fod arnom angen o leiaf dri, ac efallai bedwar, ysbyty cyffredinol dosbarth i wasanaethu anghenion gwahanol cymunedau gwahanol sir Gaerfyrddin, sir Benfro a Cheredigion?

Y Prif Weinidog: Yr hyn y mae Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion wedi'i ddweud yw ei fod yn cyd-fynd â chreu un sefydliad i ddarparu gwasanaethau i Ddyfed ac y dylid ei ddatblygu cyn integreiddio gwasanaethau. Yr

are making an assumption, which I do not think anyone else has ever made, that this is preparatory to closing down three of the four district general hospitals in Dyfed. I have never heard that suggestion made before. Yours is a pretty unique suggestion and I would think that you would want to rethink it having spoken to more people in the Dyfed health community. I think that they are saying that if you are not going to close any of the four district general hospitals in Dyfed, you need to operate them as a single network, and you can do that only if delivered by a single body—that is, one trust for Dyfed covering Carmarthenshire, Ceredigion, and Pembrokeshire. That is the opposite of the conclusion that you drew.

Nick Bourne: I repeatedly used the word ‘downgrading’. It is the downgrading of Bronglais and Withybush hospitals that is the issue, and that is why the communities in Ceredigion and Pembrokeshire are so concerned. So far, you have given no reassurance that that will not be the case. The project board’s document is clear that it feels that there is a case for carrying on as we are for at least 10 years, as no work has been done on integrating the services. Do you believe that there should be a downgrading of Withybush or Ceredigion, or not? That is the question that I keep asking you. It is not about their closure; it is about downgrading.

The First Minister: It is up to the local health board to see whether it can agree a solution that meets the demands for a safe, high quality service for the people of Dyfed. At this stage, the matter has not come before Ministers. It has not come before Brian Gibbons and certainly not before me. The reason is that Brian has to hold himself back from that, as he may be required—if there is no local agreement—to carry out his appellate function relating to any possible hospital closure. If he were involved in the process early on, how would he stand when asked to consider an appeal against a possible downgrading of Withybush hospital, or wherever? I am sure that you understand that, but maybe it is not quite convenient to the story that you are trying to tell the people of Dyfed.

ydych yn rhagdybio, rhywbeth nad wyf yn credu bod neb arall wedi’i wneud erioed, fod hyn yn baratoad ar gyfer cau tri o’r pedwar ysbyty cyffredinol dosbarth yn Nyfed. Nid wyf erioed wedi clywed neb yn awgrymu hynny o’r blaen. Mae’r awgrym hwnnw gennych yn eithaf unigryw a byddwn yn tybio yr hoffech ei ailystyried wedi siarad â rhagor o bobl yng nghymuned iechyd Dyfed. Yr wyf yn meddwl eu bod yn dweud os nad ydych am gau dim un o’r pedwar ysbyty cyffredinol dosbarth yn Nyfed, fod angen ichi eu gweithredu fel un rhwydwaith, ac ni ellir gwneud hynny onid ydyw’n cael ei ddarparu gan un corff—hynny yw, un ymddiriedolaeth i Ddyfed a honno’n gofalu am sir Gaerfyrddin, Ceredigion a sir Benfro. Mae hynny’n groes i’r casgliad y daethoch iddo.

Nick Bourne: Defnyddiais y gair ‘israddio’ lawer gwaith. Israddio ysbyty Bronglais ac ysbyty Llwynhelyg sydd dan sylw, a dyna pam mae cymunedau yng Ngheredigion a sir Benfro mor bryderus. Hyd yn hyn, nid ydych wedi rhoi dim sicrwydd na fydd hynny’n digwydd. Dengys dogfen y bwrdd prosiect yn glir ei fod yn teimlo bod dadl dros ddal ati fel yr ydym am o leiaf 10 mlynedd, gan nad oes gwaith wedi ei wneud ar integreiddio’r gwasanaethau. Yn eich barn chi, a ddylid israddio Llwynhelyg neu Geredigion, ai peidio? Dyna’r cwestiwn yr wyf yn dal i’w ofyn ichi. Nid yw hyn yn ymwneud â chau’r ysbytai; mae’n ymwneud â’u israddio.

Y Prif Weinidog: Dyletswydd y bwrdd iechyd lleol yw gweld a all gytuno ar ateb sy’n diwallu anghenion pobl Dyfed o ran darparu gwasanaeth diogel o safon uchel. Ar hyn o bryd, nid yw’r mater wedi cael ei roi gerbron Gweinidogion. Nid yw wedi cael ei roi gerbron Brian Gibbons ac yn bendant nid yw wedi cael ei roi ger fy mron i. Y rheswm yw bod Brian yn gorfod atal ei hun rhag gwneud hynny, oherwydd efallai y bydd gofyn iddo arfer ei swyddogaeth apeliadol yn ymwneud â’r posibilrwydd o gau ysbytai, os na cheir cytundeb lleol. Pe bai’n gysylltiedig â’r broses yn ystod y camau cynnar, beth fyddai ei sefyllfa pe gofynnid iddo ystyried apêl yn erbyn israddio ysbyty Llwynhelyg, o bosibl, neu ble bynnag y bo? Yr wyf yn sicr eich bod yn deall hynny, ond efallai nad yw mor gyfleus yng nghyswllt y stori yr ydych yn ceisio’i dweud wrth bobl Dyfed.

What I am saying is that, at this moment, the matter lies with the local health community. At this moment, its top priority is to encourage the formation of a single Dyfed trust. Why does it want to do that? Because it thinks that it would permit networking, which would avert the question of any hospital closures—although it might involve a swap between a service being expanded in Withybush and another being exchanged for it in Carmarthen. However, effectively, you would run them as a single hospital, albeit on four sites.

Christine Gwyther: First Minister, would you agree that the Pembrokeshire Local Health Board meeting last week came up with a very courageous decision to dump once and for all options 1 and 2, which included the possible downgrading of Bronglais, Withybush and, in fact, Glangwili hospitals, and instead chose to support Pembrokeshire Community Health Council's 'A Vision for the Future—The People's Vision' document? It was a very well attended meeting; Tamsin Dunwoody and I were both there. It is very important that we know how the people of west Wales feel, and that we support them in putting together a people's vision for the future of health services in west Wales.

The First Minister: I agree that there have been extraordinarily high attendances at the public meetings held over this whole issue of reconfiguration throughout Wales, I think, although maybe more so in Pembrokeshire than elsewhere. As you rightly said, it is Pembrokeshire Local Health Board that is currently making the decision, jointly with the other local health boards, in response to the proposals from the team led by Allison Williams. At this moment, I understand that the top priority for them all is to encourage the formation of a single trust for Dyfed so that an all-Dyfed solution can be considered. It would be unrealistic to assume that that will pickle the present pattern of services in aspic. That will not happen in any health service in any country in the world over a 10-year period. However, it would make it possible to take forward a hospital pattern

Yr hyn yr wyf yn ceisio'i ddweud yw bod y mater, ar hyn o bryd, yn nwylo'r gymuned iechyd leol. Ar hyn o bryd, ei phrif flaenoriaeth yw annog ffurfio un ymddiriedolaeth i Ddyfed. Pam mae arni eisiau gwneud hynny? Oherwydd ei bod yn meddwl y byddai'n caniatáu rhwydweithio. Byddai hynny'n osgoi'r posibilrwydd y byddai ysbytai'n cael eu cau—er y gallai olygu newid rhwng gwasanaeth yn cael ei ehangu yn Llwynhelyg ac un arall yn cael ei gyfnewid yn ei le yng Nghaerfyrddin. Fodd bynnag, byddech yn eu rhedeg fel un ysbyty yn y bôn, er y byddent ar bedwar safle.

Christine Gwyther: Brif Weinidog, a gytunwch fod cyfarfod Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro yr wythnos diwethaf wedi gwneud penderfyniad dewr iawn o gael gwared unwaith ac am byth ag opsiynau 1 a 2, a oedd yn cynnwys y posibilrwydd y câi ysbyty Bronglais, ysbyty Llwynhelyg ac, mewn gwirionedd, ysbyty Glangwili, eu hisraddio, a dewis yn hytrach gefnogi dogfen Cyngor Iechyd Cymuned Sir Benfro, 'A Vision for the Future—The People's Vision'? Yr oedd torf dda yn bresennol yn y cyfarfod; yr oedd Tamsin Dunwoody a minnau yno. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwybod sut y mae pobl gorllewin Cymru'n teimlo, a'n bod yn eu cefnogi wrth iddynt lunio gweledigaeth y bobl ar gyfer gwasanaethau iechyd yng gorllewin Cymru.

Y Prif Weinidog: Cytunaf fod y niferoedd sydd wedi bod yn mynychu'r cyfarfodydd cyhoeddus sydd wedi'u cynnal ynglŷn â'r holl gwestiwn yn ymwneud ag ailgyflunio wedi bod yn anhygoel o uchel ledled Cymru, fe gredaf, er bod hynny'n fwy gwir yn sir Benfro efallai nag yn unman arall efallai. Fel y dywedaso, yn gwbl gywir, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro sy'n gwneud y penderfyniad ar hyn o bryd, ar y cyd â byrddau iechyd lleol eraill, wrth ymateb i gynigion eraill gan y tîm a arweinir gan Allison Williams. Ar hyn o bryd, deallaf mai prif flaenoriaeth pob un ohonynt yw annog ffurfio un ymddiriedolaeth i Ddyfed fel y gellir ystyried ateb ar gyfer Dyfed i gyd. Ni fyddai'n realistig tybio y bydd hynny'n cadw patrwm presennol y gwasanaethau mewn asbig. Ni ddigwydd hynny mewn dim un gwasanaeth iechyd mewn dim un wlad yn y byd dros gyfnod o

that is safe, deliverable and in the best interests of all the people of Dyfed.

10 mlynedd. Er hynny, byddai'n ei gwneud yn bosibl bwrw ymlaen â phatrwm ysbytai sy'n ddiogel, y gellir ei ddarparu, ac sydd er budd pobl Dyfed i gyd.

Hysbysebion Advertising

Q4 Glyn Davies: What plans does the First Minister have to reduce the amount of Welsh Assembly Government advertising in Trinity-Mirror-owned newspapers? OAQ1790(FM)

C4 Glyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i roi llai o hysbysebion Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn papurau sy'n eiddo i Trinity Mirror? OAQ1790(FM)

The First Minister: We have no specific plans but, clearly, the technology trend is heading very much in the direction of online advertising, Glyn. The recent actions of Trinity Mirror Group plc in buying a large slew of companies in the field of online recruitment advertising demonstrate that. I believe that, technologically, we are also changing the way in which we do our recruitment advertising in line with everyone else, I believe.

Y Prif Weinidog: Nid oes gennym gynlluniau penodol ond, yn amlwg, mae tueddiadau technegol yn symud i gyfeiriad hysbysebu ar-lein, Glyn. Mae'r hyn y mae Trinity Mirror Group plc wedi'i wneud yn ddiweddar wrth brynu peth wmbredd o gwmnïau ym maes hysbysebu recriwtio ar-lein yn dangos hynny. Credaf ein bod hefyd, yn dechnolegol, yn newid y dull yr ydym yn mynd ati i hysbysebu recriwtio, yr un fath â phawb arall, yr wyf yn credu.

Glyn Davies: We all know that, sometimes, newspaper reports do not appear precisely as we would like them to appear, but many people were concerned about comments made by your Minister for Culture, Welsh Language and Sport during the summer about withdrawing advertising from Trinity Mirror. Many people saw that as some sort of a threat. Do you accept that it is quite wrong for the Assembly Government to threaten newspapers with commercial punishment in the run-up to an election, and do you also accept that the withdrawal of Government advertising will lead to job losses across Wales?

Glyn Davies: Mae pawb ohonom yn gwybod nad yw adroddiadau papur newydd bob amser yn ymddangos yn union fel y byddem yn dymuno iddynt ymddangos, ond yr oedd llawer o bobl yn bryderus ynghylch y sylwadau a wnaeth eich Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn ystod yr haf ynghylch rhoi'r gorau i hysbysebu ym mhapurau Trinity Mirror. Yr oedd hynny'n ymddangos fel rhyw fath o fygythiad i lawer o bobl. A ydych yn derbyn nad yw'n iawn i Lywodraeth y Cynulliad fygwth papurau newydd gyda chosb fasnachol yn y cyfnod cyn etholiad, ac a ydych yn derbyn hefyd y bydd diddymu hysbysebion gan y Llywodraeth yn arwain at golli swyddi ledled Cymru?

2.20 p.m.

The First Minister: Trinity Mirror has bought over 200 online recruitment advertising companies to cover itself for this technological shift. If a criticism was to be made of what Alun Pugh said, it is that it stated the—expletive deleted—obvious. As he said, job advertisements on websites could reach more people and save money.

Y Prif Weinidog: Mae Trinity Mirror wedi prynu mwy na 200 o gwmnïau hysbysebu recriwtio ar-lein er mwyn gwarchod ei hun pan ddaw'r symudiad technolegol hwn. Pe byddid am feirniadu'r hyn a ddywedodd Alun Pugh, yna, yr hyn y dylid ei feirniadu yw'r ffaith ei fod wedi dweud yr hyn sy'n—rheg wedi ei dileu—amlwg. Fel y dywedodd ef, gallai hysbysebion am swyddi ar wefannau

gyrraedd mwy o bobl ac arbed arian.

Alun Ffred Jones: Ar yr un trywydd— oherwydd yr oedd y gosodiad yn un bygythiol—sylwais, wrth fynd o gwmpas maes Eisteddfod Genedlaethol Cymru, fod bathodyn Llywodraeth y Cynulliad yn ymddangos ar ddeunydd bron pob mudiad sy'n bodoli yng Nghymru. A gredwch fod perygl, lle mae gwladwriaeth yn rhy ormesol mewn gwlad ac yn ariannu cymaint, y gall annibyniaeth barn gael ei mygu oherwydd bod pobl ofn mynegi barn rhag ofn iddynt golli'r arian? Mae'r pwynt hwn yn dilyn yr hyn a ddywedodd Glyn.

Alun Ffred Jones: On the same subject— because that statement was threatening—I noticed, when touring the field at the National Eisteddfod of Wales, that the Assembly's Government's brand appeared on the merchandise of nearly every organisation that exists in Wales. Do you not think that there is a danger, when the state becomes too oppressive in a country and funds so many organisations, that independence of opinion can be stifled because people are afraid of losing their funding if they express their opinion? This point follows on from what Glyn said.

Y Prif Weinidog: Deallaf y gosodiad, ond ni chredaf y gall unrhyw un ddehongli'r hyn a ddywedodd Alun Pugh fel bygythiad. Dywedodd y byddai trobwynt rhywbryd yn y dyfodol pan fyddwn yn gallu recriwtio drwy ein gwefan yn hytrach na thalu llawer o arian cyhoeddus i Trinity Mirror i hysbysebu swyddi yn y *Daily Post*, y *Western Mail* ac yn y blaen. Lanswyd prosiect ym mis Ionawr i hysbysebu a recriwtio ar y we yn hytrach na thrwy'r modd arferol.

The First Minister: I understand your statement, but I do not think that anyone can construe what Alun Pugh said as a threat. He said that there would be a tipping point sometime in the future when we will be able to recruit through our website rather than paying a lot of public money to Trinity Mirror to advertise in the *Daily Post*, the *Western Mail* and so on. A project was launched in January to advertise and recruit on the web rather than through the usual channels.

Gwasanaethau'r GIG NHS Services

Q5 Lisa Francis: Will the First Minister make a statement on the delivery of NHS services across mid and west Wales? OAQ1791(FM)

C5 Lisa Francis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau GIG yn y canolbarth a'r gorllewin? OAQ1791(FM)

The First Minister: This is a contentious issue, as we have already found this afternoon; we all accept that. It is not only in mid and west Wales that changes are being proposed in line with 'Designed for Life'. How many district general hospitals do we need? Should they all provide the same level of services? Should some of those services at the top end move to high-tech supra regional hospitals? Should other services shift from the district general hospital into a primary healthcare setting? No-one is immune to change, but people fear change because they do not control the process of change, other than through the political process here or at the local level through the local health board and the community health council. The

Y Prif Weinidog: Mae'r mater hwn yn un cynhennus, fel y gwelwyd yn barod y prynhawn yma; mae pawb yn derbyn hynny. Nid yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn unig y mae newidiadau'n cael eu cynnig yn unol â'r 'Cynllun Oes'. Faint o ysbytai cyffredinol dosbarth sydd eu hangen arnom? A ddylai pob un ohonynt ddarparu'r un lefel o wasanaethau? A ddylid symud rhai o'r gwasanaethau hynny sydd ar y brig i ysbytai uwchranbarthol sy'n ymdrin ag uwch dechnoleg? A ddylid symud gwasanaethau eraill o'r ysbyty cyffredinol dosbarth i safle gofal iechyd sylfaenol? Ni all neb osgoi newid yn gyfan gwbl, ond mae ar bobl ofn newid gan na allant reoli'r broses, ac eithrio drwy'r broses wleidyddol yn y fan hon neu ar

intention in mid and west Wales, as elsewhere, is to deliver sustainable, safe, world-class health and social care for everyone by 2015.

Lisa Francis: In light of the delay that we have heard about on the future of hospital services, the Member for Preseli Pembrokeshire has declared that she is pleased that Withybush Hospital is safe. I think that she must mean that this is the case for the present, at least. However, many health professionals have said that they are disappointed that the future of that hospital remains insecure, and that the 'Designed to Deliver' response failed to consider key issues. The reality is that the project board manager has failed to confirm whether services at Withybush Hospital and Bronglais Hospital in Ceredigion are safe. Do you agree with the project board manager, and how do you feel about the fact that the project board's response to the consultation has failed to address these key issues?

The First Minister: It is not for me to agree or disagree with the project manager. The health community covering mid and west Wales has to agree on a way forward. It has made a massive step forward by saying that the first thing to agree is that there should be a single all-Dyfed delivery body. When that has been done, an all-Dyfed solution can be put forward. You cannot have competing hospitals trying to deliver a network solution. If they are competing with each other, they will be trying to grab patients rather than make arrangements for patients to go to the best place for them, which is what they should be thinking about. However, that becomes more possible if you have a single trust instead of three trusts. If that is done first, then an all-Dyfed solution can come forward. I think that we should welcome that.

Tamsin Dunwoody: Do you agree that it is a shame that some of our colleagues in this Chamber simply do not understand the jargon

lefel leol drwy'r bwrdd iechyd lleol a'r cyngor iechyd cymuned. Y bwriad yn y canolbarth a'r gorllewin, fel ym mhobman arall, yw darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gynaliadwy, yn ddiogel, a chyda'r gorau yn y byd, i bawb erbyn 2015.

Lisa Francis: Yng ngoleuni'r oedi yr ydym wedi clywed amdano ynghylch dyfodol gwasanaethau ysbytai, mae'r Aelod dros Breseli Sir Benfro wedi datgan ei bod yn falch bod Ysbyty Llwynhelyg yn ddiogel. Credaf mai'r hyn a olygir ganddi, mae'n rhaid, yw mai dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd, o leiaf. Fodd bynnag, mae llawer o bobl broffesiynol ym maes iechyd wedi dweud eu bod yn siomedig nad yw dyfodol yr ysbyty hwnnw'n ddiogel o hyd, a bod yr ymateb yn 'Designed to Deliver' wedi methu ag ystyried materion allweddol. Y gwir yw bod rheolwr y bwrdd prosiect wedi methu â chadarnhau a yw gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Bronglais yng Ngheredigion yn ddiogel. A gytunwch â rheolwr y bwrdd prosiect, a sut yr ydych yn teimlo ynghylch y ffaith bod ymateb y bwrdd prosiect i'r ymgynghoriad wedi methu â mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn?

Y Prif Weinidog: Nid fy lle i yw cytuno nac anghytuno â rheolwr y prosiect. Mae'n rhaid i'r gymuned iechyd sy'n gofalu am y canolbarth a'r gorllewin gytuno ar ffordd ymlaen. Mae wedi cymryd cam anferth ymlaen drwy ddweud mai'r peth cyntaf y dylid cytuno arno yw y dylid cael un corff i ddarparu ar gyfer Dyfed i gyd. Wedi i hynny gael ei wneud, gellir bwrw ymlaen ag ateb ar gyfer Dyfed i gyd. Ni allwch gael ysbytai sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn ceisio darparu ateb o ran rhwydwaith. Os ydynt yn cystadlu â'i gilydd, byddant yn ceisio cael gafael ar gleifion yn hytrach na threfnu eu bod yn cael mynd i'r lle gorau ar eu cyfer, sef yr hyn y dylent fod yn meddwl amdano. Fodd bynnag, bydd hynny'n dod yn fwy o bosibilrwydd os oes gennych un ymddiriedolaeth yn hytrach na thair. Os gwneir hynny yn gyntaf, gellir bwrw ymlaen ag ateb ar gyfer pob rhan o Ddyfed. Credaf y dylem groesawu hynny.

Tamsin Dunwoody: A gytunwch ei bod yn bechod nad yw rhai o'n cyd-Aelodau yn y Siambr, yn syml iawn, yn deall y jargon a

that is frequently used within the health service? I would like to make two things clear. First, a single delivery unit and/or a single trust is a management structure; it is not a merging of hospitals. Secondly, it is entirely clear, as Christine Gwyther pointed out earlier, that the vote at the local health board meeting on Thursday—which, judging from what he said, Nick Bourne was clearly unaware of—made it clear that all future work would be based on option 3; the people’s—

Nick Bourne: Ask a question.

The Presiding Officer: Order. I need no assistance from the leader of the Welsh Conservatives to decide what represents a question. I was about to hear an interrogative creeping up on the Member concerned.

Tamsin Dunwoody: You were indeed. Do you agree that it is important to stress that there should be no further use of jargon, which we must tolerate at the very least, and that the LHB is now acting properly in bringing forward a properly constituted board to re-examine the issue in detail?

The First Minister: Yes, I agree. Option 3 is fine as a working assumption, provided that it does not clash with the option being brought forward in Ceredigion or in Carmarthenshire. They must all add up to a sensible all-Dyfed solution that makes sense for the population of Dyfed. The need to ensure that that can be considered by someone who is not competing with another body to provide services in Dyfed is the reason why so much agreement has been achieved quite quickly on the fact that you need a single delivery body. That does not mean hospitals will be closing down, but it might lead to the ability to network services so that Bronglais Hospital might do a bit more of this and a bit less of that, as is the case with Withybush Hospital and Glangwili and Llanelli hospitals. Then, a sensible pattern that is in the interest of Dyfed’s population can be achieved.

Helen Mary Jones: You have talked at length about an all-Dyfed solution, and, as a

ddefnyddir yn aml o fewn y gwasanaeth iechyd? Hoffwn wneud dau beth yn amlwg. Yn gyntaf, strwythur rheoli yw un uned ddarparu ac/neu un ymddiriedolaeth; nid yw’n golygu cyfuno ysbytai. Yn ail, mae’n berffaith amlwg, fel y nododd Christine Gwyther yn gynharach, fod y bleidlais yng nghyfarfod y bwrdd iechyd lleol ddydd Iau – ac mae’n amlwg nad oedd Nick Bourne yn ymwybodol o hyn, a barnu wrth yr hyn a ddywedodd—wedi ei gwneud yn amlwg y byddai’r holl waith a wneir yn y dyfodol yn seiliedig ar opsiwn 3; y bobl—

Nick Bourne: Gofynnwch gwestiwn.

Y Llywydd: Trefn. Nid oes angen cymorth arnaf gan arweinydd Ceidwadwyr Cymru i benderfynu beth sy’n gwestiwn. Yr oeddwn ar fin clywed yr hyn a oedd mynd i gael ei ofyn i’r Aelod dan sylw.

Tamsin Dunwoody: Oeddech yn wir. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig pwysleisio na ddylid defnyddio jargon rhagor, jargon y mae’n rhaid i ni ei oddef fan leiaf, a bod y BILL yn awr yn gweithredu’n briodol wrth gyflwyno bwrdd sydd wedi’i gyfansoddi’n briodol i ailedrych ar y mater yn fanwl?

Y Prif Weinidog: Ydwyf, yr wyf yn cytuno. Mae opsiwn 3 yn iawn fel tybiaeth gychwynnol, ar yr amod nad yw’n gwrthdaro â’r opsiwn sy’n cael ei gyflwyno yng Ngheredigion neu yn sir Gaerfyrddin. Rhaid iddynt gyda’i gilydd gynnig ateb synhwyrol i Ddyfed gyfan sy’n gwneud synnwyr i boblogaeth Dyfed. Yr angen i sicrhau y gall rhywun nad yw’n cystadlu â chorff arall i ddarparu gwasanaethau yn Nyfed ystyried hynny yw’r rheswm pam yr ydym wedi llwyddo i gael cymaint o gytundeb yn weddol gyflym ynghylch y ffaith bod angen un corff i ddarparu gwasanaethau. Nid yw hynny’n golygu y bydd ysbytai’n cau, ond fe allai olygu bod modd rhwydweithio gwasanaethau fel y gallai Ysbyty Bronglais wneud ychydig mwy o hyn ac ychydig llai o’r llall, fel sy’n wir am Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llanelli. Yna, bydd modd cael patrwm synhwyrol sydd er budd poblogaeth Dyfed.

Helen Mary Jones: Yr ydych wedi sôn llawer am ateb i Ddyfed gyfan, ac, fel AC

Cardiff-based AM, I am sure that you are aware that the old Dyfed is a big place. You have not managed to answer Nick Bourne's or Lisa Francis's questions, so I will not press you on general principles; I will ask a question on something specific. Will you commit your Government to no further centralising of hospital services in the old Dyfed region until there is a fit-for-purpose ambulance service, which can transfer people effectively from one hospital to another? That is a small question; I am not asking you about principles, but about something practical.

The First Minister: I did not quite catch the preamble, but I rather got the impression that it was a bit rude, in line with your normal approach to life. Perhaps you could read the Record of Proceedings tomorrow and see whether you would like to withdraw it.

On ambulance services, the integration of ambulance services in the delivery of emergency care is of enormous importance. You cannot have a sensible pattern of hospital services in any part of Wales if they are not integrated with a modern and effective ambulance service.

The Presiding Officer: Order. I do not want our comments to deteriorate during the course of the coming weeks. I have always found Helen Mary Jones to be the model of courtesy.

Val Lloyd: As we have already heard, many plans for service reconfiguration are under way in mid and west Wales—the review of acute services, the review of neurosurgery services and also, in Swansea, the review of community hospitals. It is often forgotten that Swansea is also part of the mid and west Wales region in health terms.

Whatever our individual views, do you agree that all the changes proposed in these reviews need to be considered as a whole and not in piecemeal terms so as to ensure optimum services for and the welfare of all patients across the mid and west Wales region?

sy'n gweithio yng Nghaerdydd, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r ffaith bod yr hen Ddyfed yn ardal fawr. Nid ydych wedi llwyddo i ateb cwestiynau Nick Bourne na Lisa Francis, felly ni phwysaf arnoch ynghylch egwyddorion cyffredinol: gofynnaf gwestiwn am rywbeth penodol ichi. A wnewch ymrwymo i sicrhau na wna eich Llywodraeth ganoli rhagor ar wasanaethau ysbytai yn hen ranbarth Dyfed nes bod gwasanaeth ambiwlans addas i'w ddiben ar gael, a all drosglwyddo pobl yn effeithiol o'r naill ysbyty i'r llall? Cwestiwn bach yw hwnnw; nid ynghylch egwyddorion yr wyf yn eich holi, ond ynghylch rhywbeth ymarferol.

Y Prif Weinidog: Ni chlywais y rhagymadrodd yn iawn, ond yr argraff a gefais braidd oedd ei fod fymryn yn ddigywilydd, yr un fath â'ch dull arferol o ymdrin â bywyd. Efallai y gallech ddarllen Cofnod y Trafodion yfory a gweld a hoffech dynnu'r sylw'n ôl.

O ran gwasanaethau ambiwlans, mae integreiddio gwasanaethau ambiwlans â darparu gofal brys o'r pwys mwyaf. Nid oes modd cael patrwm synhwyrol o wasanaethau ysbyty mewn dim un rhan o Gymru os nad ydynt wedi'u hintegreiddio â gwasanaeth ambiwlans cyfoes ac effeithiol.

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf am i'n sylwadau ddirywio yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn ôl fy mhrofiad i, mae Helen Mary Jones bob amser yn batrwm o gwrteisi.

Val Lloyd: Fel yr ydym wedi clywed eisoes, mae llawer o gynlluniau ar y gweill ar gyfer ailgyflunio'r gwasanaeth yn y canolbarth a'r gorllewin—adolygu gwasanaethau aciwt, adolygu gwasanaethau niwrolawfeddygol a hefyd, yn Abertawe, adolygu ysbytai cymuned. Anghofir yn aml fod Abertawe hefyd yn rhan o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin o safbwynt iechyd.

Beth bynnag fo'n barn fel unigolion, a gytunwch fod angen ystyried yr holl newidiadau a gynigir yn yr adolygiadau hyn yn eu crynswth yn hytrach nag yn dameidiog er budd holl gleifion rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin ac er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau gorau?

The First Minister: Indeed. As I understand it, the mid and west Wales region goes all the way to the Bridgend area. What is noticeable is that Swansea health community has achieved—and is probably hitherto unique in having achieved—an agreement on the broad structure of the two big district general hospitals, Singleton and Morriston, effectively becoming one, once the plans can be drawn up. Clearly, there is a major process to find a site and capital investment to be gone through, and a fully built-up business case to be formed, so we are talking about some years before this will happen. Nevertheless, at least they have agreed a strategy. If that strategy is successfully executed—at pretty considerable capital cost—Swansea’s single hospital, as distinct from Singleton and Morriston hospitals, will be the largest and most modern hospital available to any residents in any part of Wales. One of the advantages of reconfiguration is that it sometimes works in favour of patients provided that people can agree on a way forward.

Kirsty Williams: Given that so much of your Government’s strategy is based on delivering health services in the community, does it see a role for community hospitals such as those in Ystradgynlais, Knighton and Builth Wells?

2.30 p.m.

Do you think that it is incumbent upon Powys Local Health Board to work with the community to design health and social care facilities that enable people to be treated closer to home, where clinically possible, and that it should not be looking to close these facilities as cost-cutting measures?

The First Minister: I was not aware that it was, to be honest with you. However, the point that I made earlier, which you picked up on, is absolutely right. The technology of diagnostic testing, rehabilitation, physiotherapy services, x-rays and so forth is now moving out of the district general hospital setting to a primary healthcare setting or, if it is a bit complicated, such as the need for x-ray machines and so on, into community hospitals. That is the right way

Y Prif Weinidog: Yn sicr. Yn ôl a ddeallaf, mae rhanbarth y canolbarth a’r gorllewin yn ymestyn yr holl ffordd i ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Yr hyn sy’n amlwg yw bod cymuned iechyd Abertawe wedi llwyddo—ac mae’n debyg ei bod yn unigryw hyd yn hyn yn hynny o beth—i sicrhau cytundeb ynghylch uno strwythur cyffredinol y ddau ysbyty cyffredinol dosbarth mawr, Singleton a Threforys, ar ôl gallu paratoi’r cynlluniau. Mae’n amlwg y bydd canfod safle a sicrhau’r buddsoddiad cyfalaf yn broses fawr, ac y bydd angen llunio’r achos busnes cyflawn, ac felly yr ydym yn sôn am nifer o flynyddoedd cyn i hyn ddigwydd. Fodd bynnag, o leiaf fe gytnwyd ar strategaeth. Os llwyddir i roi’r strategaeth honno ar waith—a hynny am gost gyfalaf sylweddol—ysbyty unedig Abertawe, a hwnnw ar wahân i ysbyty Singleton ac ysbyty Treforys, fydd yr ysbyty mwyaf a mwyaf modern a fydd ar gael i unrhyw un mewn unrhyw ran o Gymru. Un o fanteisiom ailgyflunio yw ei fod weithiau’n gweithio er budd cleifion, ar yr amod bod pobl yn gallu cytuno ar ffordd ymlaen.

Kirsty Williams: A bwrw bod cymaint o strategaeth eich Llywodraeth wedi’i seilio ar ddarparu gwasanaethau iechyd yn y gymuned, a yw’n gweld rôl i ysbytai cymuned megis y rhai yn Ystradgynlais, Trefyclo a Llanfair-ym-Muallt?

A ydych yn credu bod dyletswydd ar Fwrdd Iechyd Lleol Powys weithio gyda’r gymuned i gynllunio cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn galluogi pobl i gael eu trin yn agosach at eu cartrefi, os yw hynny’n glinigol bosibl, ac na ddylai ystyried cau’r cyfleusterau hynny er mwyn arbed arian?

Y Prif Weinidog: Ni wyddwn ei fod yn gwneud hynny, a dweud y gwir wrthyh. Fodd bynnag, mae’r pwynt a wneuthum yn gynharach, yr ymdriniasoch ag ef, yn gwbl gywir. Bellach mae technoleg profion diagnostig, adsefydlu, gwasanaethau ffisiotherapi, archwiliadau pelydr x ac yn y blaen yn symud o’r ysbytai cyffredinol dosbarth i leoliadau gofal iechyd sylfaenol neu i ysbytai cymuned, os ydyw braidd yn gymhleth, pan fo angen peiriannau pelydr x

forward. It then means that that work is done in community hospitals and there is not so much demand for those services in district general hospitals. That is the change that we are trying to manage. I think that everyone, from whatever party, accepts that that is a technological change. It is also a change that we would all desire if we, or a member of our family, needed those diagnostic or rehabilitation services.

ac yn y blaen, er enghraifft. Dyna'r llwybr i'w ddilyn. O ganlyniad i hynny, gwneir y gwaith hwnnw mewn ysbytai cymuned ac nid oes cymaint o alw am y gwasanaethau hynny mewn ysbytai cyffredinol dosbarth. Dyna'r newid yr ydym yn ceisio'i sicrhau. Yr wyf yn credu bod pawb, o ba blaid bynnag y bo, yn derbyn mai newid technolegol yw hwnnw. Mae hefyd yn newid y byddem oll yn ei ddymuno pe byddai arnom ni, neu aelod o'n teulu, angen y gwasanaethau hynny ar gyfer diagnosis neu adsefydlu.

Gwasanaethau Swyddfeydd Post (Abertawe) Post Office Services (Swansea)

C6 David Lloyd: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnal ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau swyddfeydd post yn Abertawe? OAQ1806(FM)

Q6 David Lloyd: What discussions has the Welsh Assembly Government had regarding the provision of post office services in Swansea? OAQ1806(FM)

Y Prif Weinidog: Deallaf fod datganiad Sue Essex yr wythnos diwethaf, ynglŷn â gwneud rhyw fath o doriad ym maint y dreth leol y bydd swyddfeydd post yn gorfod ei thalu, yn cael effaith eithaf positif ar y swyddfeydd post lleiaf yn ardal Abertawe.

The First Minister: I understand that Sue Essex's statement last week, concerning some kind of cut in the amount of local tax that post offices will have to pay, will have a relatively positive impact on the smaller post offices in the Swansea area.

David Lloyd: Mae bwriad i gau unig swyddfa bost y Goron yn Kingsway, Abertawe, a throsglwyddo'r gwasanaeth i fyny'r staer i gangen leol WH Smith. A ydych chi'n cefnogi'r mynegiant hwn o bolisi Llafur?

David Lloyd: It is intended to close the only Crown post office in Kingsway, Swansea, and to transfer the service upstairs to the local branch of WH Smith. Do you support this expression of Labour policy?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr ai pwyntio'r bys bai yw hwn unwaith eto, Dai, ond nid oes ei angen, a dweud y gwir. Byddwch yn ymwybodol fod Edwina Hart, y swyddog Llafur sy'n gyfrifol am y materion hyn, wedi mynegi ei phrotest ynglŷn â symud swyddfa bost y Goron, gan golli'r gradd o fod yn swyddfa bost y Goron, a'i gwneud yn fasnachfrait neu'n rhan o siop WH Smith yn Abertawe.

The First Minister: I am not sure whether you are pointing the finger of blame once more, Dai, but it is not necessary, to tell the truth. You will be aware that Edwina Hart, the Labour official responsible for such matters, has already expressed her concern regarding relocating the Crown post office, with its loss of status as a Crown post office, and making it a franchise or a part of the WH Smith store in Swansea.

Peter Black: First Minister, whereas last week's announcement on rate relief for post offices is welcome, do you not consider that there is still major concern about removing the credit card account from the post office network and the threat to many post offices as a result? What further representations have you made to the Government on this since we

Peter Black: Brif Weinidog, er bod y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf ynghylch rhyddhad ardrethi i swyddfeydd post i'w groesawu, onid ydych yn credu bod pryder mawr o hyd ynghylch dileu'r cyfrif cerdyn credyd yn rhwydwaith y swyddfeydd post a'r bygythiad a geir i lawer o swyddfeydd post o ganlyniad? Pa sylwadau pellach yr ydych

last discussed it in the Assembly?

The First Minister: I congratulate you, Peter, on picking up on what I said about Sue Essex's announcement last week, which Dai did not want to do. The important thing is that there is a raft of issues here, with the Post Office exercising its commercial freedom to do certain things. It is trying to dispense with certain services that it finds not very profitable, and it is making decisions, such as that on which Edwina has written to various Ministers and to the Post Office, regarding the shift to a franchise-type operation in Swansea. I will consider the benefits issue, and either Edwina or I will write to you on that point.

Val Lloyd: On Dai's original question regarding the Kingsway post office, there is quite a lot of local concern that there was no prior consultation on this closure or move, and the new location has minimal access compared with the current site. It was announced as a done deal. As of now, the future of the staff is still under discussion and many are potentially faced with losing their employment, as there are limited Crown post offices in south-west Wales. However, the staff have been magnificent, and they have conducted a strong campaign to keep Swansea's main Crown post office in a location that is most convenient for its customers. Will you join with me in congratulating the staff of Kingsway post office on fighting so hard to retain this service, just as their customers wanted?

The First Minister: I agree that the staff campaign is very effective, and we should be supporting it. I believe that they have not been offered a transfer to WH Smith, rather to another Crown post office in Carmarthen, Morriston, Neath or Port Talbot, which may not be convenient for some. They may have been offered voluntary redundancy terms, though I do not think that that is the right way forward for the Post Office. It will not go down well with employees elsewhere outside Swansea or at the five other branches

wedi'u cyflwyno i'r Llywodraeth ynghylch hyn ers inni ei drafod ddiwethaf yn y Cynulliad?

Y Prif Weinidog: Fe'ch llongyfarchaf, Peter, am gyfeirio at yr hyn a ddywedais am gyhoeddiad Sue Essex yr wythnos diwethaf, rhywbeth na ddymunai Dai ei wneud. Y peth pwysig i'w nodi yw bod nifer fawr o faterion yn codi yn hyn o beth, a bod Swyddfa'r Post yn defnyddio ei rhyddid masnachol i wneud rhai pethau. Mae'n ceisio cael gwared â rhai gwasanaethau sydd heb fod yn broffidiol iawn iddi, ac mae'n gwneud penderfyniadau, fel yr un y mae Edwina wedi ysgrifennu yn ei gylch at amryw o Weinidogion ac at Swyddfa'r Post, ynglŷn â throï at weithredu ar batrwm masnachfaint yn Abertawe. Ystyriaf y cwestiwn sy'n ymwneud â budd-daliadau, ac ysgrifennaf fi neu Edwina atoch ar y pwynt hwnnw.

Val Lloyd: Ynghylch y cwestiwn gwreiddiol a ofynnodd Dai am swyddfa bost Kingsway, mae cryn bryder yn lleol na fu ymgynghori o flaen llaw ar y bwriad i gau neu symud, ac ychydig iawn o fynediad a geir yn y lleoliad newydd o'i gymharu â'r safle presennol. Cyhoeddwyd y newid ar ôl penderfynu arno. Ar hyn o bryd, mae dyfodol y staff yn dal i gael ei drafod ac mae llawer ohonynt yn wynebu'r posibilrwydd o golli eu gwaith, gan mai ychydig o swyddfeydd post y Goron a geir yn y de-orllewin. Fodd bynnag, mae'r staff wedi bod yn ardderchog, ac maent wedi cynnal ymgyrch gref i gadw prif swyddfa bost y Goron yn Abertawe yn y lleoliad sydd fwyaf cyfleus i'w chwsmeriaid. A wnewch ymuno â mi i longyfarch staff swyddfa bost Kingsway ar ymladd mor galed i gadw'r gwasanaeth hwn, fel y dymunai eu cwsmeriaid?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno bod ymgyrch y staff yn effeithiol iawn, a dylem ei chefnogi. Yr wyf yn credu na chynigiwyd eu trosglwyddo i siop WH Smith, ond yn hytrach i rai eraill o swyddfeydd post y Goron yng Nghaerfyrddin, Treforys, Castell-nedd neu Bort Talbot, a allai fod yn anghyfleus i rai ohonynt. Efallai fod telerau diswyddo gwirfoddol wedi'u cynnig iddynt, er nad wyf yn credu mai felly y dylai Swyddfa'r Post wneud. Ni fydd hynny'n dderbyniol gan weithwyr mewn mannau

in England that are affected by the same franchise move to transfer services from Crown post offices to WH Smith.

eraill y tu allan i Abertawe na chan y rhai yn y pum cangen arall yn Lloegr y mae'r un cynllun i drosglwyddo gwasanaethau dan fasnachfaint o swyddfeydd post y Goron i siopau WH Smith, yn effeithio arnynt.

Adfywio Economaidd (Islwyn) Economic Regeneration (Islwyn)

Q7 Irene James: Will the First Minister make a statement about economic regeneration in Islwyn? OAQ1782(FM)

C7 Irene James: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfywio economaidd yn Islwyn? OAQ1782(FM)

The First Minister: We are supporting substantial levels of economic regeneration, not only through the provision of the new Ebbw Vale railway, which goes through the heart of your constituency, but also through £40-million-worth of regional selective assistance offers and £2-million-worth of the smaller Assembly investment grants that have been made to companies in the Islwyn constituency. I think that one would accept that the jewel in the crown is probably the General Dynamics UK centre for software engineering, which now employs more than 750 highly paid software engineers.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn rhoi hwb sylweddol i adfywio economaidd, nid yn unig drwy ddarparu rheilffordd newydd Glyn Ebwy, sydd yn mynd drwy ganol eich etholaeth, ond hefyd drwy gynnig gwerth £40 miliwn o gymorth rhanbarthol dewisol a gwerth £2 filiwn o symiau llai drwy grantiau buddsoddi'r Cynulliad i gwmnïau yn etholaeth Islwyn. Yr wyf yn credu y derbynir mai'r hyn sydd yn goron ar y cyfan, yn ôl pob tebyg, yw canolfan General Dynamics UK ar gyfer peirianeg meddalwedd, sydd bellach yn cyflogi mwy na 750 o beirianwyr meddalwedd sydd â chyflogau uchel.

Irene James: You obviously agree that the reopening of the Ebbw valley rail line is a key infrastructure project in the regeneration of Islwyn and the regional area. Do you share the vision of Valleys towns at the forefront of investment and development, as centres for shopping, tourism, leisure, public services and commerce, and will you ensure that, through programmes such as convergence funding, we make the investment that realises the economic potential of infrastructure projects such as the Ebbw valley rail line?

Irene James: Mae'n amlwg eich bod yn cytuno bod ailagor rheilffordd Glyn Ebwy yn brosiect seilwaith allweddol ar gyfer adfywio Islwyn a'r rhanbarth o'i gwmpas. A ydych yn cyd-fynd â't weledigaeth o sicrhau lle blaenllaw i drefi'r Cymoedd o ran buddsoddi a datblygu, fel canolfannau ar gyfer siopa, twristiaeth, hamdden, gwasanaethau cyhoeddus a masnach, ac a wnewch sicrhau, drwy raglenni fel cyllid cydgyfeirio, y byddwn yn buddsoddi mewn modd sy'n gwireddu'r potensial economaidd sydd mewn prosiectau seilwaith fel rheilffordd glyn Ebwy?

The First Minister: I agree, and it is spread right across the entire Caerphilly borough. Sometimes, it will be a road, such as the Bargoed bypass in the Rhymney valley, sometimes a railway line, as in the Sirhowy valley, sometimes a new hospital, such as the Ystrad Fawr hospital—as soon as the new Caerphilly County Borough Council headquarters is built, enabling the council to vacate the Ystrad Fawr site—and sometimes it will be private sector investment, whether

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno, ac mae i'w weld ledled bwrdeistref Caerffili. Weithiau, bydd ar ffurf ffordd, fel ffordd osgoi Bargod yng nghwm Rhymni, weithiau ar ffurf rheilffordd, fel y gwelir yng nghwm Sirhywi, weithiau ar ffurf ysbyty newydd, fel ysbyty Ystrad Fawr—cyn gynted ag y codir pencadlys newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel y gall y cyngor adael safle Ystrad Fawr—ac weithiau bydd ar ffurf buddsoddi gan y sector preifat, boed hynny

in services such as General Dynamics UK, a new shopping centre such as in Blackwood, or in a wider range of small and medium-sized enterprises.

William Graham: It is of no comfort to anyone here that some 12,000 manufacturing jobs have been lost in Gwent in recent years, many of which were within the Islwyn travel-to-work area. Do you agree that there should now be a shift, as you have already outlined, towards service and tourism industries, and how will your Government implement this?

The First Minister: To be honest, the phrase that I use is that we 'scrap' for every job. We use regional selective assistance where we can throughout around three quarters of Wales, and that is one reason why the drop in manufacturing employment is far smaller in Wales than it is elsewhere in the UK. It does not always work. The number of people in jobs in Wales is 126,000 higher than when the Assembly came into existence, which is an 11 per cent increase. It is a 12 per cent increase if you look just at Objective 1 Wales, so that is a proud record.

mewn gwasanaethau megis General Dynamics UK, canolfan siopa newydd fel yr un yng Nghoed-duon, neu mewn amrywiaeth fwy o fusnesau bach a chanolig.

William Graham: Nid yw o gysur i neb sydd yma fod tua 12,000 o swyddi gweithgynhyrchu wedi'u colli yng Ngwent yn y blynyddoedd diwethaf, swyddi yr oedd llawer ohonynt o fewn ardal teithio i'r gwaith Islwyn. A ydych yn cytuno y dylid troi bellach, fel yr ydych wedi nodi eisoes, at ddiwydiannau gwasanaethu a thwristiaeth, a sut y bydd eich Llywodraeth yn rhoi hyn ar waith?

Y Prif Weinidog: A dweud y gwir, yr hyn a ddywedaf fi yw y byddwn yn ymladd am bob swydd. Defnyddiwn gymorth rhanbarthol dewisol os gallwn drwy tua thri chwarter Cymru, a dyna un rheswm dros y gostyngiad llai o lawer a gafwyd mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu yng Nghymru nag mewn mannau eraill yn y DU. Nid yw'n llwyddo bob tro. Mae'r nifer sydd mewn gwaith yng Nghymru 126,000 yn uwch nag a oedd pan ddaeth y Cynulliad i fod, sef cynnydd o 11 y cant. Mae'n gynnydd o 12 y cant os ystyriwch ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru'n unig, felly gellir ymfalchïo yn y record honno.

Seilwaith Trafnidiaeth Transport Infrastructure

Q8 Kirsty Williams: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to improve the transport infrastructure in Wales?
OAQ1784(FM)

The First Minister: I think that you will be familiar with the fact that Andrew Davies, Minister for transport, among his other responsibilities, has committed £8 billion over 15 years to improve transport infrastructure and services, supporting the development of the Welsh economy and helping to spread prosperity across Wales. I mentioned earlier the Porth relief road, which I visited some three weeks ago. At a cost of £86 million, I understand that it is the largest transport supplementary grant scheme funded road project anywhere in the UK.

C8 Kirsty Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella'r seilwaith trafndiaeth yng Nghymru?
OAQ1784(FM)

Y Prif Weinidog: Credaf y byddwch yn gyfarwydd â'r ffaith bod Andrew Davies, y Gweinidog dros drafndiaeth, ymysg ei gyfrifoldebau eraill, wedi rhoi £8 biliwn dros 15 mlynedd i wella seilwaith trafndiaeth a gwasanaethau, gan hybu datblygiad economi Cymru a helpu i ledaenu ffyniant drwy Gymru. Cyfeiriais yn gynharach at ffordd liniaru'r Porth, yr ymwelais â hi ryw dair wythnos yn ôl. Ei chost yw £86 miliwn, ac yr wyf yn deall mai hwnnw yw'r prosiect ffordd mwyaf a ariannwyd drwy gynllun y grant atodol trafndiaeth yn y DU gyfan.

Kirsty Williams: You will be aware that several towns in my constituency are on the A470, which is the main arterial route from north to south Wales. Some of those towns gain a benefit from it, but also the disadvantage of heavy traffic going through them. I am sure that you will be familiar with the pinch point of Rhayader in your travels from north to south, and the difficulties that can sometimes exist in that town. What is your Assembly Government doing to explore some of the new suggestions from the community about how we could take traffic out of the town centre without the need for a full-scale bypass, which might be environmentally damaging and perhaps will not receive the full support of the community? What are you doing to look at new options to bring relief to Rhayader?

The First Minister: You have raised an interesting point, because I always stop in Rhayader to visit one of the coffee shops on the corner. When I am sitting there having my coffee and sandwich, it always bewilders me how some of the long timber lorries get around the slight dog-leg at the Rhayader cross. The important thing is that there is a major commitment to improving north-south transport.

2.40 p.m.

There is investment in Talgarth and there will shortly be investment between Builth Wells and Erwood, and between Cwmbach and Newbridge. There are lots of proposals. The Rhayader bypass is in phase 3 of the 2004 supplement, but that means that work is unlikely to start before 2010 and we have not yet appointed consultants to identify potential options. When the consultants are appointed, perhaps your suggestion of a slightly different form of Rhayader bypass can be put to them.

John Griffiths: Rhodri, as you are aware, a tremendous amount of development has happened, is happening, and will be happening in Newport, some of which is in improving the transport infrastructure. I am sure that you will join me in welcoming that.

Kirsty Williams: Byddwch yn ymwybodol bod amryw o drefi yn fy etholaeth ar ffordd yr A470, sef y prif lwybr prifwythiennol o'r gogledd i'r de. Mae rhai o'r trefi hynny'n cael budd oddi wrthi, ond mae anfantais hefyd yn sgîl y traffig trwm sy'n mynd drwyddynt. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn gyfarwydd â'r gwasgbwynt yn Rhaeadr Gwy ar eich teithiau rhwng y gogledd a'r de, a'r anawsterau a geir weithiau yn y dref honno. Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i ymchwilio i rai o'r awgrymiadau newydd a gafwyd gan y gymuned ynghylch sut y gallem dynnu traffig o ganol y dref heb fod angen ffordd osgoi lawn, a allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd ac na fyddai, o bosibl, yn cael cefnogaeth lwyr y gymuned? Beth yr ydych yn ei wneud i ystyried dewisiadau newydd i roi cymorth i bobl Rhaeadr Gwy?

Y Prif Weinidog: Yr ydych wedi codi pwynt diddorol, oherwydd byddaf bob amser yn stopio yn Rhaeadr Gwy i fynd i un o'r siopau coffi ar y gornel. Pan fyddaf yn eistedd yno'n cael cwpanaid o goffi a brechdan, byddaf bob amser yn synnu at y modd y mae rhai o'r lorïau hir sydd yn cludo coed yn mynd heibio i'r tro cam bach wrth groeslon Rhaeadr Gwy. Y peth pwysig yw bod ymrwymiad sylweddol i wella trafniadaeth rhwng y gogledd a'r de.

Ceir buddsoddi yn Nhalgarth a bydd buddsoddi cyn bo hir rhwng Llanfair-ym-Muallt ac Erwd a rhwng Cwm-bach a Phontnewydd-ar-Wy. Mae llawer o gynlluniau. Mae ffordd osgoi Rhaeadr Gwy yn rhan 3 atodiad 2004, ond mae hynny'n golygu nad yw'r gwaith yn debygol o ddechrau cyn 2010 ac nid ydym eto wedi penodi ymgynghorwyr i bennu'r dewisiadau dichonol. Wedi penodi'r ymgynghorwyr, efallai y gellir cyflwyno iddynt eich awgrym ar gyfer ffordd osgoi ychydig yn wahanol i Raeadr Gwy.

John Griffiths: Rhodri, fel y gwyddoch, mae llawer iawn o ddatblygu wedi digwydd, yn digwydd, ac am ddigwydd yng Nghasnewydd, ac mae rhywfaint ohono'n ymwneud â gwella'r seilwaith trafniadaeth. Yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi i groesawu

This week, platform 4 at Newport rail station has been extended to improve the services to London, and work will start next autumn on new station buildings, which will link with a small bus station. All of this is taking forward the sort of transport improvements that we want to see in Wales. Just last week, Andrew Davies opened a new cycle and walkway bridge across the River Usk. Would you join me in welcoming all of that as an important contribution to transport infrastructure improvements in Wales? Will you also join me in looking forward to the establishment of the passenger rail link from Ebbw Vale to Newport as quickly as possible after its establishment to Blaenau Gwent?

The First Minister: Yes, I will. I think that that was always the intention. It was as much of a surprise to us as it was to people in Newport that it was initially easier to do what was not the obvious thing, namely to go from Ebbw Vale to Cardiff first rather than to go to Newport first and then get the extension to Cardiff. That is what we were told by Network Rail and, had we not accepted that, the work that is now under way would have been deferred for several years. We had to take what was on offer and proceed with it. We hope that we will get the extension into Newport once it becomes possible, following Network Rail's huge investment in renewing the rail signalling and track infrastructure between Port Talbot and Newport at a cost of £400 million. I think that that is the largest investment ever made in the rail infrastructure in Wales.

You are right that Newport is seeing a huge amount of development and that it will require a lot of transport infrastructure to support it. I think that you are talking about a total of at least £500 million being spent in the Newport area to upgrade and do the urban regeneration job post the closure of the heavy end of the Llanwern steel works.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): First Minister, when you returned from Brussels—I think that it must have been last week after

hynny. Yr wythnos hon, estynnwyd plafform 4 yng ngorsaf reilffordd Casnewydd i wella'r gwasanaethau i Lundain, a bydd gwaith yn dechrau yr hydref nesaf ar adeiladau newydd yn yr orsaf, a fydd yn cysylltu â gorsaf fysiau fach. Mae hyn i gyd yn fodd i hyrwyddo'r math o welliannau mewn trafndiaeth y dymunwn eu gweld yng Nghymru. Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, agorodd Andrew Davies bont gerdded a seiclo newydd ar draws afon Wysg. A wnewch ymuno â mi i groesawu hynny i gyd fel cyfraniad o bwys i'r gwelliannau i'r seilwaith trafndiaeth yng Nghymru? A wnewch hefyd ymuno â mi i edrych ymlaen at weld sefydlu'r rheilffordd i deithwyr rhwng Glynebwy a Chasnewydd cyn gynted ag y bo modd ar ôl ei gosod hyd at Flaenau Gwent?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Yr wyf yn credu mai hynny oedd y bwriad erioed. Yr oedd yn gymaint o syndod i ni ag a oedd i bobl Casnewydd ei bod yn haws ar y dechrau wneud y peth llai amlwg, sef mynd o Lynebwy i Gaerdydd yn gyntaf yn hytrach nag i Gasnewydd yn gyntaf ac wedyn ymestyn i Gaerdydd. Dyna a ddywedodd Network Rail wrthym, a phe na baem wedi derbyn hynny, byddai'r gwaith sydd yn mynd ymlaen yn awr wedi'i ohirio am rai blynnyddoedd. Bu'n rhaid inni dderbyn yr hyn a oedd yn cael ei gynnig a bwrw ati â hynny. Yr ydym yn gobeithio cael yr estyniad i Gasnewydd pan fydd hynny'n bosibl, ar ôl y buddsoddiad enfawr gan Network Rail i adnewyddu'r signalau rheilffyrdd a'r seilwaith cledrau rhwng Port Talbot a Chasnewydd ar gost o £400 miliwn. Credaf mai hwnnw yw'r buddsoddiad mwyaf erioed yn y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

Yr ydych yn gywir wrth ddweud bod Casnewydd yn gweld llawer iawn o ddatblygu ac y bydd hynny'n gofyn llawer o seilwaith trafndiaeth i'w gynnal. Yr wyf yn credu y bydd cyfanswm o £500 miliwn o leiaf yn cael ei wario yn ardal Casnewydd ar welliannau ac adfywio trefol ar ôl cau'r rhan o waith dur Llan-wern a oedd yn gwneud gwaith trwm.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Brif Weinidog, pan ddychwelasoich o Frwsel—yr wyf yn credu mai yr wythnos

you had met Danuta Hübner to talk about the future of the Objective 1 programme, that is, the convergence programme for 2007 to 2013—you typified your plan for Wales as being ‘more skills, less concrete’. Could you tell us whether your budget proposals for transport infrastructure, as a percentage of the whole programme, are the same as or less than those for the current programme?

The First Minister: My understanding of the overall switch that I was referring to was that it is about 5 per cent. It is not a massive switch and it does not mean that there will not be any roads or large infrastructure projects. There will not suddenly be 100 per cent expenditure on human infrastructure and skills.

On the issue about a particular priority that you referred to, I do not have the information to hand today, but I will write to you on that. The important thing that you need to remember, Mike, is just how much more flexible Objective 1 mark 2—now renamed the convergence fund—will be. We will be able to vire—to use the jargon—or shift expenditure ourselves without having to go back to Brussels, if we find that it needs adjusting. We can do that at the level of priorities whereas, previously, we could switch only within measures, which was very restrictive. We will now have far more flexibility to adjust the programme as we go along.

Michael German: I asked the question because these are your plans for the future for Wales—the ones that you have been consulting on. There are two areas that I want you to address, the first of which is agglomeration, or what you call people coming together in parts of Wales for economic activity. There is a lot of it happening in this document. If you do not provide the integrated public transport to go with it, and the funding for that public transport, any economic miracle that might occur in the last round of huge European funding might end up looking something like the Dublin problem, where you have a gridlock of people trying to get to their places

diwethaf y bu hynny, mae'n rhaid, wedi ichi gwrdd â Danuta Hübner i drafod dyfodol y rhaglen Amcan 1, hynny yw, y rhaglen gydgyfeirio ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013—disgrifiasoch eich cynllun i Gymru fel un a fyddai'n arwain at 'fwy o sgiliau, llai o goncrid'. A allwch ddweud wrthym a yw eich cynigion cyllideb ar gyfer seilwaith trafndiaeth yr un fath, fel canran o'r rhaglen gyfan, na'r rhai ar gyfer y rhaglen bresennol, neu'n llai na hynny?

Y Prif Weinidog: Yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall am y newid cyffredinol y cyfeiriais ato, bydd tua 5 y cant. Nid yw'n newid aruthrol ac nid yw'n golygu na fydd dim ffyrdd na phrosiectau seilwaith mawr. Ni fydd 100 y cant o wariant yn ddisymwth ar seilwaith dynol a sgiliau.

Ynghylch y mater sydd yn ymwneud â blaenoriaeth benodol y cyfeiriasoch ati, nid yw'r wybodaeth wrth law gennyf heddiw, ond ysgrifennaf atoch ynghylch hynny. Y peth pwysig y mae'n rhaid ichi ei gofio, Mike, yw y bydd Amcan 1 math 2—sydd bellach wedi'i ailenwi'n gronfa gydgyfeirio—yn llawer mwy hyblyg. Byddwn yn gallu trosglwyddo neu symud gwariant ein hunain heb orfod mynd yn ôl i Frwsel, os cawn fod angen addasu rhywfaint arno. Gallwn wneud hynny ar lefel y blaenoriaethau, a ninnau heb allu newid ond o fewn y mesurau o'r blaen, ac yr oedd hynny'n gyfyngol iawn. Bellach bydd gennym lawer iawn mwy o hyblygrwydd i addasu'r rhaglen wrth inni fynd ymlaen.

Michael German: Gofynnais y cwestiwn hwnnw am mai eich cynlluniau chi yw'r rhain ar gyfer dyfodol Cymru—y rhai yr ydych wedi bod yn ymgynghori yn eu cylch. Mae dau faes yr wyf yn dymuno ichi roi sylw iddynt, a'r cyntaf ohonynt yw'r hyn a geir pan fydd pobl yn cynnull ynghyc mewn rhannau o Gymru ar gyfer gweithgarwch economaidd. Gwelir llawer o hynny yn y ddogfen hon. Os na fyddwch yn darparu trafndiaeth gyhoeddus integredig i gyd-fynd â hynny, a'r cyllid ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus o'r fath, byddai unrhyw wyrth economaidd a allai ddigwydd yng nghylch olaf y cronfeydd Ewropeaidd enfawr yn gallu troi yn y diwedd yn rhywbeth tebyg i'r

of work because there is no effective integrated transport system, and yet you will reduce the funding. Can you tell us how you intend to address that?

The First Minister: You make an interesting point about Dublin and Ireland, where it was decided to let rip on the creation of jobs and to sort out the infrastructure problems later. I do not think that we would want to repeat that, although it has been successful in many ways. We would prefer to do it *pari passu*, and have the infrastructure investment alongside the job creation. I will look at the particular point of detail that you raised, as it is at a level that I would not normally try to cover in Plenary, and I will ensure that you get a comprehensive answer.

Michael German: To illustrate the problem, we are still waiting for an answer on whether the Ebbw Vale line will have new rolling stock. One issue for people going to work on the southern coast of Wales is whether they will be able to get public transport that is comfortable and on which they are not shaken around like milk bottles in a crate. Will they have good, effective rolling stock? Those are the sorts of issues that persuade people to make the important choice to come off the road and go onto public transport. Will you be able to give us an answer shortly as to whether we can expect high quality transportation, particularly on the new Ebbw Vale line?

The First Minister: I am sure that the track and the passenger carriages will be of a good standard. I am not in a position to say exactly what the operator will want to use.

broblem a geir yn Nulyn, lle y ceir tagfeydd o bobl yn ceisio cyrraedd eu gweithleoedd am nad oes system trafndiaeth gyhoeddus integredig ac effeithiol, ac eto byddwch yn lleihau'r cyllid. A allwch ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â hynny?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn codi pwynt diddorol ynglŷn â Dulyn ac Iwerddon, lle y penderfynwyd creu nifer fawr o swyddi ac ymdrin â'r problemau gyda'r seilwaith yn ddiweddarach. Nid wyf yn credu y byddem ni'n dymuno ailadrodd hynny, er ei fod wedi bod yn llwyddiant mewn nifer o ffyrdd. Byddai'n well gennym ei wneud *pari passu*, a buddsoddi yn y seilwaith a chreu swyddi ar yr un pryd. Fe edrychaf ar y pwynt manwl penodol a godwyd gennych, gan ei fod ar lefel na fyddwn fel arfer yn ceisio ei chynnwys mewn Cyfarfod Llawn, a sicrhaf y cewch ateb cynhwysfawr.

Michael German: Er mwyn rhoi enghraifft o'r broblem, yr ydym yn dal i ddisgwyl ateb ynghylch a fydd llinell Glynebwy'n cael cerbydau trên newydd. Un pryder i bobl sy'n mynd i'r gwaith ar arfordir deheuol Cymru yw a fyddant yn gallu cael trafndiaeth cyhoeddus sy'n gysurus heb gael eu hysgwyd o gwmpas fel poteli llaeth mewn crât. A fydd cerbydau trên da, effeithiol ar gael iddynt? Dyma'r mathau o faterion sy'n perswadio pobl i wneud y penderfyniad pwysig i ddod oddi ar y ffordd a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. A fyddwch yn gallu rhoi ateb inni cyn bo hir ynghylch a allwn ddisgwyl trafndiaeth o safon uchel, yn enwedig ar reilffordd newydd Glynebwy?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn siŵr y bydd y cledrau a'r cerbydau teithwyr o safon uchel. Nid wyf yn gallu dweud pa beth yn hollol y bydd y cwmni am ei ddefnyddio.

Y Celfyddydau yng Nghymru The Arts in Wales

C9 Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): A wnaiff y Prif Weinidog nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru? OAQ1803(FM)

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau wedi'u gosod yn ein llythyr cylch gwaith i

Q9 The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): Will the First Minister set out the Welsh Assembly Government's priorities for the arts in Wales? OAQ1803(FM)

The First Minister: Our priorities for the arts are set out in our remit letter to the arts

gyngor y celfyddydau. Mae adolygiad cyhoeddus ar y gweill, o dan gadeiryddiaeth Elan Closs Stephens, ynghylch rôl y cyngor celfyddydau a sut y bydd yn gallu gweithio ochr yn ochr â'r Llywodraeth i gyflawni ein hagenda strategol.

Ieuan Wyn Jones: Fel y gŵyr y Prif Weinidog, yn ystod y toriad, bu farw Kyffin Williams, un o arlunwyr mwyaf Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Yr wyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog, fel finnau, eisiau nodi cyfraniad aruthrol Kyffin Williams i'r celfyddydau yng Nghymru. Yr oedd yn un o feibion disgleiriaf Ynys Môn.

Fel y gŵyr y Prif Weinidog, mae cynllun ar droed ym Môn i agor oriel i arddangos gwaith Kyffin Williams yn barhaol, a gwaith arlunwyr eraill o Gymru. Mae teimlad cryf iawn mai ym Môn y dylai'r oriel hon fod. Gŵyr y Prif Weinidog hefyd fod angen arian sylweddol i wireddu'r freuddwyd honno, a bod cyfraniadau eisoes yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, mae angen arian sylweddol oddi wrth y Llywodraeth, cyngor y celfyddydau neu'r ddau. Nid wyf yn disgwyl i'r Prif Weinidog roi ffigur ar hynny heddiw, ond yr wyf eisiau iddo ddatgan yn gyhoeddus ei fod yn cefnogi'r cais i gael yr oriel ym Môn, a phan ddaw cais y bydd yn fodlon ei ystyried yn ddifrifol.

Y Prif Weinidog: Diolch yn fawr am eich awgrym a'r ffordd y bu ichi ofyn y cwestiwn. Mae'r cynnig i glustnodi oriel, neu ran o Oriol Môn, efallai drwy gael estyniad iddi, er mwyn arddangos gwaith blaenllaw y diweddar Syr Kyffin Williams, wedi cael ei drafod gan arweinydd cyngor Ynys Môn, sef y cynghorydd Gareth Winston Roberts, ac Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Yr ydym wedi bod yn trafod y mater a sut i ddatblygu'r prosiect, beth fydd y gost ac yn y blaen. Yr ydym yn parhau i drafod hyn, ac yr ydym yn gobeithio y bydd yn gallu dod yn realiti rhywbryd yn ystod y pum mlynedd nesaf. Nid wyf yn siŵr faint o amser y bydd hyn yn ei gymryd, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynnig arall i gael oriel ar gyfer arddangos gwaith Syr Kyffin Williams.

Ieuan Wyn Jones: Diolch i'r Prif Weinidog

council. A public review is underway, chaired by Elan Closs Stephens, on the role of the arts council and how it will work alongside the Government to achieve our strategic agenda.

Ieuan Wyn Jones: As the First Minister will know, during the recess, Kyffin Williams, one of Wales's greatest artists in the twentieth century, died. I am sure that the First Minister, like me, would want to note the massive contribution that Kyffin Williams made to the arts in Wales. He was one of Anglesey's greatest sons.

As the First Minister knows, there is a scheme in Anglesey to open a gallery to exhibit the work of Kyffin Williams permanently, and the work of other artists from Wales. There is a strong feeling that this gallery should be on Anglesey. The First Minister also knows that substantial funding is required to realise that dream, and that contributions have already been made. However, substantial funding is required from the Government, the arts council or both. I do not expect the First Minister to give us a figure today, but I want him to declare publicly that he supports the proposal to have the gallery on Anglesey, and that when the bid is received, he will consider it seriously.

The First Minister: Thank you for the suggestion and the way in which you asked the question. The proposal to allocate a gallery, or part of Oriol Môn, perhaps by building an extension to it, to exhibit the respected work of the late Sir Kyffin Williams has been discussed by the leader of Anglesey council, councillor Gareth Winston Roberts, and Alun Pugh, the Minister for Culture, the Welsh Language and Sport. We have discussed the matter and how to develop the project, what the cost will be and so on. We continue to discuss this, and we hope that it can become a reality sometime during the next five years. I am not sure how much time this will take, and I am not aware of any other proposals to have a dedicated gallery to exhibit the work of Sir Kyffin Williams.

Ieuan Wyn Jones: I thank the First Minister

am hynny. Yr wyf yn cymryd o'i ateb, felly, fod y Llywodraeth yn gefnogol i'r cynllun i leoli'r oriel hon ym Môn. Mae gennyf un cais arall. Mae corff o ymddiriedolwyr wedi ei sefydlu i ystyried sut y gellir mynd â'r cais hwn ymlaen, gan gydweithio gyda'r cyngor sir. A wnaiff y Prif Weinidog—ac yr wyf yn falch bod y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn bresennol—roi addewid, pan fydd y corff hwnnw yn barod i symud ymlaen ac i ddangos faint yn union o gyllid ychwanegol fydd ei angen, y bydd ef a'r Gweinidog yn fodlon derbyn dirprwyaeth i drafod hynny yn fwy manwl?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs. Dyna'r ffordd y byddem yn awyddus i geisio gweld faint y byddai'n ei gostio a faint o amser y byddai'n ei gymryd i droi'r freuddwyd hon—sydd yn freuddwyd yr ydym i gyd yn ei rhannu—yn realiti. Yr ydym i gyd am weld rhywbeth sy'n weddus i'n hetifeddiaeth gan y diweddar Syr Kyffin Williams, a'r 400 o luniau a roddodd i Ynys Môn, ac i gael cartref teilwng ar gyfer yr etifeddiaeth honno a gawsom gan un o gewri ein byd diwylliannol yn y ganrif ddiwethaf.

2.50 p.m.

Ymrwymadau Manifesto Manifesto Commitments

Q10 Nick Bourne: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's record on delivering its manifesto commitments? OAQ1776(FM)

The First Minister: My annual report for 2006 illustrated the main achievements of the Assembly Government to date, and the completion of our manifesto commitments with regard to which we will have a very good record to take to the people of Wales, with the sole exception with which you are familiar. However, even with regard to that, as regards the care package, we are now working with people representing those with disabilities and those in the field affected, in which I declare an interest, so that they will be able to have an alternative to the manifesto promise from which we had to withdraw.

Nick Bourne: I thank the First Minister for that response. I do not agree that it was the

for that. I assume from his reply, therefore, that the Government supports the scheme to locate this gallery on Anglesey. I have another request. A body of trustees has been established to consider how to take this proposal forward, in collaboration with the county council. Will the First Minister—and I am pleased that the Minister for Culture, the Welsh Language and Sport is present—give a pledge that when this body is ready to proceed and to say exactly how much additional funding will be needed, he and the Minister will accept a delegation to discuss this in more detail?

The First Minister: Of course. That is how we would be eager to try to see how much it would cost and how long it would take to realise this dream, which is a dream that we all share. We all want to see something that is appropriate to mark the legacy of the late Sir Kyffin Williams, and the 400 paintings that he donated to Anglesey, and to have a worthy home for that legacy, which we have received from one of the giants of our cultural life in the last century.

C10 Nick Bourne: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am record Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gwireddu ymrwymadau ei manifesto? OAQ1776(FM)

Y Prif Weinidog: Dangosodd fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2006 brif lwyddiannau Llywodraeth y Cynulliad hyd yn hyn, a'r record dda iawn sydd gennym o ran cwblhau ymrwymadau ein manifesto i bobl Cymru, gyda'r un eithriad yr ydych yn gyfarwydd ag ef. Fodd bynnag, hyd yn oed o ran yr eithriad hwnnw, sef y pecyn gofal, yr ydym erbyn hyn yn gweithio gyda phobl sy'n cynrychioli pobl sydd ag anableddau a phobl yn y maes yr effeithiwyd arno, yr wyf yn datgan buddiant ynddo, fel y gallant gael dewis gwahanol i'r addewid manifesto y bu'n rhaid i ni ei dynnu'n ôl.

Nick Bourne: Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Nid wyf yn cytuno mai

sole exception, although he is right to say that it is one of them. Will the First Minister take personal responsibility for the fact that waiting list figures are higher than when he came to office?

The First Minister: Our achievements on waiting lists are to be admired and not deprecated, Nick, because everyone who does not have an interest in next May's election results will appreciate the huge achievements of the staff in the national health service in eliminating long waiting lists of over 12 months for out-patient, in-patient and day care. The next step is to achieve the maximum waiting time of eight months for out-patient and in-patient care by 31 March 2007. We believe that we are at the right point in the curve now to achieve that, but it will take a colossal effort on the part of NHS staff.

Janice Gregory: First Minister, I was delighted to join you yesterday at Ortho-Clinical Diagnostics' ground-breaking ceremony for its new 135,000 sq ft manufacturing facility at Pencoed Technology Park. Ortho-Clinical Diagnostics is a division of Johnson and Johnson, a household name, and has recently joined the Welsh Assembly Government's knowledge bank for business programme. Do you agree that this demonstrates that the Assembly Government's knowledge bank for business—a top 10 manifesto commitment—is not only supporting the fast growth of businesses across a range of sectors in Wales, but is also ensuring that these businesses commit their futures to Wales?

The First Minister: Indeed. It is an immensely prestigious business—Johnson and Johnson is a colossal \$50 billion corporation. Ortho-Clinical Diagnostics has been in operation in Wales for some 15 years. It needed to get out of its Forest Farm site, which it rents from GE Healthcare, but it will take a long time for it to do that because of regulatory requirements. Yesterday's announcement of the huge investment at Pencoed, which is somewhere north of £40 million in capital costs, and the possibility of jobs being created as well as transferred from

hwnnw oedd yr unig eithriad, er ei fod yn gywir wrth ddweud ei fod yn un ohonynt. A yw'r Prif Weinidog am gymryd cyfrifoldeb personol am y ffaith bod ffigurau'r rhestrau aros yn uwch nag a oeddent pan ddechreuodd ar ei swydd?

Y Prif Weinidog: Dylid edmygu ein llwyddiannau o ran rhestrau aros, Nick, ac nid eu bychanu, oherwydd bydd pawb sydd heb ddiddordeb yng nghanlyniadau etholiad mis Mai nesaf yn gwerthfawrogi cyflawniadau enfawr staff y gwasanaeth iechyd gwladol wrth gael gwared â rhestrau aros hir dros 12 mis ar gyfer cleifion allanol, cleifion preswyl a gofal dydd. Y cam nesaf yw lleihau'r cyfnod aros hwyaf i wyth mis ar gyfer gofal cleifion allanol a chleifion preswyl erbyn 31 Mawrth 2007. Yr ydym yn credu ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni hynny ar hyn o bryd, ond bydd angen ymdrech aruthrol ar ran staff y GIG.

Janice Gregory: Brif Weinidog, yr oedd bleser gennyf ymuno â chi ddoe yn seremoni arloesol Ortho-Clinical Diagnostics ar gyfer eu cyfleuster gweithgynhyrchu newydd 135,000 troedfedd sgwâr ym Mharc Technoleg Pencoed. Mae Ortho-Clinical Diagnostics yn is-adran o Johnson and Johnson, sy'n enw cyfarwydd i bawb, ac yn ddiweddar fe ymunasant â rhaglen banc gwybodaeth ar gyfer busnesau Llywodraeth Cynulliad Cymru. A ydych yn cytuno bod hyn yn dangos bod banc gwybodaeth ar gyfer busnesau Llywodraeth y Cynulliad—un o 10 prif ymrwymiad y maniffesto—nid yn unig yn cefnogi twf cyflym busnesau ar draws ystod o sectorau yng Nghymru, ond hefyd yn sicrhau bod y busnesau hyn yn ymrwymo o ran eu dyfodol yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Ydwf yn wir. Mae'n fusnes sydd â chryn fri—mae Johnson and Johnson yn gorfforaeth anferthol \$50 biliwn. Mae Ortho-Clinical Diagnostics wedi bod yn gweithredu yng Nghymru ers tua 15 mlynedd. Yr oedd angen iddo adael ei safle yn Forest Farm, y mae'n ei rentu gan GE Healthcare, ond bydd yn cymryd amser maith iddo wneud hynny oherwydd gofynion rheoliadol. Yr oedd y cyhoeddiad ddoe am y buddsoddiad enfawr ym Mhencoed, sydd dros £40 miliwn mewn costau cyfalaf, a'r posibilrwydd y bydd swyddi'n cael eu creu

Forest Farm, was very encouraging news from such a world-class high-tech science-based company.

Ieuan Wyn Jones: I am sure that you would agree that the public often want a bit of honesty and contrition from their political leaders. Will you apologise to the people of Wales for the way in which the Assembly Government has misled the public in that the number of jobs created under the regional selective assistance grants was substantially less than you claimed?

The First Minister: Honesty and contrition are the obligation not just of people in government, but also of leaders of political parties elsewhere. Perhaps you will tell us what your policy is on independence with full honesty, and perhaps some contrition, well before the election. The most important fact is that job numbers are up sharply in Wales—no other part of the United Kingdom comes close—and that the numbers are up more in the Objective 1 areas, where there is maximum assistance, than elsewhere. I heard about this story from the BBC. It has been corrected, but it has refused to accept the correction from our officials. There we are—that is one of the problems that we have.

Ieuan Wyn Jones: Your opportunity to ask questions of me will come fairly soon, First Minister, but, at present, it is my duty to ask questions of you. Are you saying that since you have been in government, every single job you have said that would be created or saved under regional selective assistance has been delivered? Yes or no?

The First Minister: Speaking from all of my experience, before I became First Minister and since, I am sure that you will find that when companies apply for RSA, they are expanding and doing well. Sometimes, subsequent to that, and before they have executed the whole of the investment, they find that the market has turned down and sometimes—[*Interruption.*] I can hear you making interesting farmyard noises from a sedentary position, but if you know so little about the world of commerce, you ought to

yn ogystal â'u trosglwyddo o Forest Farm, yn newyddion calonogol iawn gan gwmni gwyddonol uwch-dechnoleg byd-enwog o'r fath.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod ar y cyhoedd yn aml eisiau rhywfaint o onestrwydd ac edifeirwch gan eu harweinwyr gwleidyddol. A wnewch ymddiheuro wrth bobl Cymru am y modd y bu i Lywodraeth y Cynulliad gamarwain y cyhoedd gan fod nifer y swyddi a grëwyd dan y grantiau cymorth rhanbarthol dewisol yn is o lawer nag a hawliwyd gennych?

Y Prif Weinidog: Mae'n ddyletswydd ar arweinwyr unrhyw bleidiau gwleidyddol fod yn onest ac yn edifeiriol, ac nid ar bobl mewn llywodraeth yn unig. Efallai y dywedwch wrthym beth yw eich polisi ar annibyniaeth yn gwbl onest, a chyda rhywfaint o edifeirwch efallai, ymhell cyn yr etholiad. Y ffaith bwysicaf yw bod nifer y swyddi yng Nghymru wedi codi'n fawr—nid oes dim un rhan arall o'r Deyrnas Unedig yn dod yn agos—a bod y niferoedd wedi codi mwy yn ardaloedd Amcan 1, lle y mae mwyaf o gymorth, nag mewn ardaloedd eraill. Clywais am y stori hon gan y BBC. Mae wedi cael ei gywiro, ond mae wedi gwrthod derbyn y cywiriad gan ein swyddogion. Dyna ni—dyna un o'r problemau sydd gennym.

Ieuan Wyn Jones: Fe gewch gyfle i ofyn cwestiynau i mi'n bur fuan, Brif Weinidog, ond, ar hyn o bryd, fy nyletswydd i yw gofyn cwestiynau i chi. A ydych yn dweud, ers pan ydych chi mewn llywodraeth, fod pob un swydd y dywedasoeh y byddai'n cael ei chreu neu'n cael ei harbed dan gymorth rhanbarthol dewisol wedi'i sicrhau? Do neu naddo?

Y Prif Weinidog: A siarad gyda'm holl brofiad, cyn i mi ddod yn Brif Weinidog ac ers hynny, yr wyf yn siŵr y gwelwch fod cwmnïau sy'n gwneud cais am gymorth rhanbarthol dewisol yn rhai sy'n ehangu ac yn gwneud yn dda. Weithiau, wedi hynny, a chyn iddynt roi'r holl fuddsoddiad ar waith, fe welant fod y farchnad wedi mynd ar i lawr ac weithiau—[*Torri ar draws.*] Gallaf eich clywed yn gwneud synau iard fferm diddorol a chithau'n eistedd, ond os ydych yn gwybod cyn lleied am fyd masnach, dylech fod yn

be rethinking what you have said about wishing to take over as First Minister, because you are living in a parallel universe. This is what happens in the world, though not in Plaid Cymru's parallel universe. I will go through it again: companies apply for assistance when they are expanding and are riding the crest of a wave. Some companies find that they are doing worse than they thought that they would two or three years down the line—Burberry is a good example of that—and they then change their minds and do not take up the full RSA offer. We then reclaim part of the grant, according to a set of rules. Some companies actually exceed what they promise in the RSA scheme.

What we have tried to do with the media today—unsuccessfully with the BBC, following its story—is to indicate to it that a published commitment to offer a grant is not the same as the payment made, but it does not seem to want to understand that. It is not the same as the payment made. RSA is a carefully arranged scheme, with strong due diligence. However, in the world of commerce, everything does not stay the same five years on from the time that you made your bid to expand with assistance from RSA.

As I said with regard to Ortho-Clinical Diagnostics, RSA is a key weapon with regard to the fact that 126,000 more people are in work now than were in 1999, when the Assembly started.

ailfeddwl yr hyn yr ydych wedi'i ddweud ynglŷn â dymuno bod yn Brif Weinidog, oherwydd yr ydych yn byw mewn bydysawd cyfochrog. Dyma'r hyn sy'n digwydd yn y byd, ond nid ym mydysawd cyfochrog Plaid Cymru. Fe ddywedaf hyn eto: bydd cwmnïau'n gwneud cais am gymorth pan fyddant yn ehangu ac ar frig y don. Bydd rhai cwmnïau'n canfod eu bod yn gwneud yn waeth nag yr oeddent yn meddwl y byddent ymhen dwy neu dair blynedd—mae Burberry'n enghraifft dda o hynny—ac yna byddant yn newid eu meddyliau ac ni fyddant yn cymryd y cynnig llawn o gymorth rhanbarthol dewisol. Yna byddwn yn hawlio rhan o'r grant yn ôl, yn unol â set o reolau. Yn wir, mae rhai cwmnïau'n gwneud yn well na'r hyn y maent yn ei addo yn y cynllun cymorth rhanbarthol dewisol.

Yr hyn yr ydym wedi ceisio'i wneud gyda'r cyfryngau heddiw—yn aflwyddiannus gyda'r BBC, yn dilyn eu stori—yw dweud wrthynt nad yw ymrwymiad a gyhoeddwyd i gynnig grant yr un peth â'r taliad a wneir, ond ymddengys nad ydynt am ddeall hynny. Nid yw'r un peth â'r taliad a wneir. Mae'r cymorth rhanbarthol dewisol yn gynllun sydd wedi'i drefnu'n ofalus, gyda chryn ddiwydrwydd dyladwy. Fodd bynnag, ym myd masnach, nid yw popeth yn aros yr un fath bum mlynedd ar ôl ichi wneud cais am ehangu gyda chymorth rhanbarthol dewisol.

Fel y dywedais am Ortho-Clinical Diagnostics, mae'r cymorth rhanbarthol dewisol yn arf allweddol o ystyried y ffaith bod 126,000 yn rhagor o bobl yn gweithio heddiw nag a oedd yn 1999, pan ddechreuodd y Cynulliad.

Llwyddiannau'r Prif Weinidog Achievements as First Minister

Q11 Jonathan Morgan: What have been the First Minister's main achievements as First Minister? OAQ1793(FM)

The First Minister: I have a job as First Minister, but 126,000 more people in Wales also have jobs now, than was the case when the Assembly started. I have not been First Minister for all of that time, but I have been for 90 per cent of it. It is important that people realise that, and that the increase in

C11 Jonathan Morgan: Beth fu prif lwyddiannau'r Prif Weinidog fel Prif Weinidog? OAQ1793(FM)

Y Prif Weinidog: Mae gennyf swydd fel Prif Weinidog, ond bellach mae swyddi hefyd gan 126,000 yn rhagor o bobl yng Nghymru, nag a oedd ar adeg dechrau'r Cynulliad. Nid wyf wedi bod yn Brif Weinidog yn ystod yr holl amser hwnnw, ond yr wyf wedi bod am 90 y cant ohono. Mae'n bwysig bod pobl yn deall

the number of jobs in Wales is greater than it is elsewhere in the United Kingdom, which itself, in comparison with Europe, has been expanding jobs quickly. It is also important that they realise that there has been a 12 per cent increase in the Objective 1 area of Wales, compared to a 7 per cent increase in the UK, which shows that our policies are working.

Jonathan Morgan: The First Minister seems to enjoy taking personal responsibility for what he sees as his achievements. However, one of this Government's greatest disasters in the past few years has been the breach of faith between it and the community of disabled people in Wales, through the breaking of the promise to provide free homecare for disabled people. Without doubt, that was the darkest moment for you personally, First Minister, and for your Assembly Government. Do you regret that the working relationship between the Welsh Assembly Government and groups that represent disabled people has fallen to an all-time low?

The First Minister: That is the way that you would like it to be, and, undoubtedly, initially after we made the statement, your description would have been accurate, but it is not accurate now. You are stuck in the past, because you see this as an election issue, and I deprecate that. We are now working closely with all of those groups to get the details of the alternative package right, and we believe that, in the end, people will see that it is better than what we promised in the manifesto commitment, not just in terms of value of money, but for the users.

Rhodri Glyn Thomas: In terms of achievements, which is not a word that we would naturally associate with you or your Government, and your manifesto for the 2007 election, given that you broke that promise made in 2003, why should the electors believe anything that you put in your 2007 manifesto?

The First Minister: I think that they will look at Labour's achievements in Wales as being 90 per cent or more achievement of our manifesto commitments. We have been able

hynny, a bodd y cynnydd yn nifer y swyddi yng Nghymru'n fwy nag ydyw yn unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig, sydd ei hun, o'i chymharu ag Ewrop, wedi bod yn ehangu'n gyflym o ran swyddi. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn deall bod cynnydd o 12 y cant wedi bod yn ardal Amcan 1 Cymru, o'i gymharu â chynnydd o 7 y cant yn y DU, sy'n dangos bod ein polisiau'n gweithio.

Jonathan Morgan: Ymddengys fod y Prif Weinidog yn mwynhau cymryd cyfrifoldeb personol am yr hyn y mae ef yn eu hystyried yn llwyddiannau iddo ef. Fodd bynnag, un o brif drychinebau'r Llywodraeth hon dros y blynyddoedd diwethaf yw colli ffydd cymuned pobl anabl Cymru, drwy dorri'r addewid i ddarparu gofal cartref am ddim i bobl anabl. Yn ddi-os, honno oedd y foment dywyllaf i chi'n bersonol, Brif Weinidog, ac i Lywodraeth eich Cynulliad. A yw'n edifar gennych fod y berthynas waith rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl yn waeth nag erioed?

Y Prif Weinidog: Dyna sut yr hoffech chi i bethau fod a, heb amheuaeth, yn syth wedi i ni wneud y datganiad, byddai eich disgrifiad wedi bod yn un cywir, ond nid yw'n gywir bellach. Yr ydych yn byw yn y gorffennol, gan eich bod yn gweld hyn yn fater yn yr etholiad, ac yr wyf yn anghymeradwyo hynny. Yr ydym bellach yn gweithio'n agos gyda'r holl grwpiau hynny i sicrhau bod manylion y pecyn newydd yn iawn, gan gredu, yn y pen draw, y bydd pobl yn gweld ei fod yn well na'r hyn a addawasom yn yr ymrwymiad maniffesto, nid yn unig o ran gwerth am arian, ond i'r defnyddwyr.

Rhodri Glyn Thomas: O ran llwyddiannau, nad yw'n air y byddem yn arfer ei gysylltu â chi na'ch Llywodraeth, a'ch maniffesto ar gyfer etholiad 2007, o ystyried eich bod wedi torri'r addewid hwnnw a wnaethpwyd yn 2003, pam y dylai'r etholwyr gredu unrhyw beth a rowch yn eich maniffesto ar gyfer 2007?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn credu y byddant, wrth edrych ar lwyddiannau Llafur yng Nghymru, yn ystyried ein bod wedi cyflawni 90 y cant neu fwy o'n

to achieve our manifesto commitments to a remarkable degree. As regards the one that we have already said we will not be able to meet, we are working with the user groups. Regardless of opposition parties' wanting to pretend that matters are as they were six months ago, we are working with those user groups on designing a tailor-made package, which will prove to be better than the abandoned manifesto commitment.

hymrwymiaidau maniffesto. Yr ydym wedi gallu cyflawni ein hymrwymiaidau maniffesto i raddau hynod. O ran yr un yr ydym eisoes wedi dweud na fyddwn yn gallu ei wireddu, yr ydym yn gweithio gyda'r grwpiau defnyddwyr. Er bod y gwrthbleidiau'n dymuno cymryd arnynt fod pethau yr un fath ag yr oeddent chwe mis yn ôl, yr ydym yn gweithio gyda'r grwpiau defnyddwyr hynny ar gynllunio pecyn sydd wedi'i deilwra'n bwrpasol, a fydd yn well na'r ymrwymiad maniffesto nas cyflawnwyd.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Ffatri Burberry Burberry Factory

Leighton Andrews: Will the Minister make a statement on his discussions with Burberry concerning the proposed closure of its factory at Treorchy? (EAQ0984(EIN))

Leighton Andrews: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei drafodaethau â Burberry ynghylch y cynnig i gau ei ffatri yn Nhreforci? (EAQ0984(EIN))

3.00 p.m.

The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies): I think that I speak for all Members in saying that I was very disappointed indeed by Burberry's announcement. Last week, I met the regional secretary and the plant official of the GMB union at Treorchy and subsequently met company representatives and asked them to reconsider their decision. I have made offers to the company and have pledged my full support to maintaining the operation in the Rhondda, as have the unions. Should the company proceed, I believe that the decision that I have taken today, following strong and longstanding representations from Rhondda Cynon Taf County Borough Council and you, to include Treorchy and Treherbert in our Heads of the Valleys programme will be of great assistance.

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies): Credaf fy mod yn siarad dros yr holl Aelodau wrth ddweud fy mod wedi fy siomi'n fawr gan gyhoeddiad Burberry. Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm ag ysgrifennydd rhanbarthol a swyddog ffatri undeb GMB yn Nhreforci ac wedyn cyfarfûm â chynrychiolwyr y cwmni a gofynnais iddynt ailystyried eu penderfyniad. Yr wyf wedi gwneud cynigion i'r cwmni ac wedi addo fy nghefnogaeth lwyr i gadw'r gwaith yn y Rhondda, fel y mae'r undebau wedi gwneud. Pe bai'r cwmni'n bwrw ymlaen, credaf y bydd fy mhenderfyniad heddiw, yn sgîl sylwadau cryf a gyflwynwyd droeon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chithau, i gynnwys Treorci a Threherbert yn ein rhaglen Blaenau'r Cymoedd o gymorth mawr.

Leighton Andrews: I welcome your announcement about extending the Heads of the Valleys programme to Treherbert and Treorchy. As you know, I have consistently raised that with you in correspondence and in committee over the last 18 months. Can you confirm that you have offered the company whatever assistance might be feasible from the Welsh Assembly Government to keep

Leighton Andrews: Yr wyf yn croesawu eich cyhoeddiad am ymestyn rhaglen Blaenau'r Cymoedd i gynnwys Treorci a Threherbert. Yr wyf wedi codi hynny gyda chi mewn llythyrau ac yn y pwyllgor droeon yn ystod y 18 mis diwethaf. A allwch gadarnhau eich bod wedi cynnig hynny o gymorth ymarferol y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gynnig i'r cwmni i gadw

jobs in the Rhondda? Do you agree that the worldwide management of Burberry may not have taken fully on board the implications of pulling out of Wales when the global face of Burberry is the Welsh actor Ioan Gruffudd?

Finally, would you recognise the immense efforts of the workforce at Burberry in Treorchy, with its unions, to bring down the overall cost of production at that factory?

Andrew Davies: Yes. GMB union officials last week went through, in great detail, what the union has been doing with the company to make the operation more efficient and to reduce costs, and it has done that successfully. The company is very profitable. I believe that there were profits of £155 million last year and that there are projected profits of in excess of £170 million this year, but the company argues that the local plant is, nevertheless, still making a loss. We questioned company representatives closely about that and I have reiterated our support for the company. There is an outstanding regional selective assistance offer on the table, which the company can still take up.

The size of the factory is substantial, at 100,000 sq ft. The operation's footprint within that factory is much smaller, so we have offered to help the company look at reducing its costs by moving to a smaller plant or location and at a whole range of other measures. I hope that the company will consider that and it will have my full support along with that of the Assembly Government as well as that of the unions in doing so.

Any company that operates globally has to take cognisance of the market situation but also include the views of consumers, and consumers have made it clear in the past that when it comes to buying goods and services, if they do not support a company in terms of its attitude towards, for example, corporate social responsibility, it can lose out as a result. Your point is well made and it has been made to companies in the past and I questioned the company about its commitment to corporate social responsibility.

swyddi yn y Rhondda? A ydych yn cytuno nad yw rheolwyr byd-eang Burberry wedi llwyr ystyried goblygiadau eu penderfyniad i adael Cymru, o gofio mai'r actor o Gymro Ioan Gruffudd yw wyneb byd-eang Burberry?

Yn olaf, a fydddech yn cydnabod ymdrechion glew gweithlu Burberry yn Nhreorci, ynghyd â'i undebau, i ostwng y costau cynhyrchu yn y ffatri?

Andrew Davies: Yr wyf yn cydnabod hynny. Eglurodd swyddogion undeb y GMB yn fanwl iawn yr wythnos diwethaf, yr hyn mae'r undeb wedi bod yn ei wneud gyda'r cwmni i wneud y gwaith yn fwy effeithlon ac i ostwng y costau yno, ac mae wedi bod yn llwyddiannus yn hynny o beth. Mae'r cwmni'n un proffidiol dros ben. Credaf fod ei elw'n £155 miliwn y llynedd a rhagwelir y bydd yr elw dros £170 miliwn eleni, ond mae'r cwmni'n dadlau bod y ffatri leol, er hynny, yn parhau i wneud colled. Buom yn holi cynrychiolwyr y cwmni'n drylwyr ynglŷn â hynny ac yr wyf wedi ailddatgan ein cefnogaeth i'r cwmni. Mae cynnig deniadol o gymorth rhanbarthol dewisol ar gael, cynnig y gall y cwmni ei dderbyn o hyd.

Mae'n ffatri sylweddol, sef 100,000 troedfedd sgwâr. Mae ôl-troed y gwaith o fewn y ffatri'n llawer llai na hynny, felly yr ydym wedi cynnig helpu'r cwmni i ostwng ei gostau drwy symud i ffatri neu leoliad llai, yn ogystal ag amrywiaeth eang o fesurau eraill. Gobeithiaf y bydd y cwmni'n ystyried hynny a chaiff fy nghefnogaeth lwyr, ynghyd â chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad a'r undebau i wneud hynny.

Rhaid i bob cwmni sy'n gweithredu ar lefel fyd-eang roi sylw i gyflwr y farchnad ond rhaid iddynt hefyd gadw barn y defnyddwyr mewn cof, ac mae'r defnyddwyr wedi ei gwneud yn amlwg yn y gorffennol pan ddaw'n fater o brynu nwyddau a gwasanaethau, os nad ydynt yn cefnogi cwmni o ran ei agwedd tuag at ei gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, er enghraifft, y gall ddioddef o ganlyniad. Mae eich pwynt yn un da ac mae wedi ei gyfleu i gwmnïau yn y gorffennol ac yr wyf wedi holi'r cwmni ynglŷn â'i ymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Leanne Wood: Those of us who live in the Rhondda understand only too well the devastating blow that this will have, not just for the workers and their families but for the whole of the community. I asked the First Minister earlier on about the Heads of the Valleys strategy and I welcome your announcement that you are looking to extend that. Why was the top of the Rhondda Fawr not included in the Heads of the Valleys strategy in the beginning?

I also asked the First Minister about making money available for the Gelli/Treorchy bypass, which is key to economic regeneration in that area. The First Minister said that a bid had not been received from Rhondda Cynon Taf County Borough Council. If such a bid were received, would you be prepared to fund the Gelli/Treorchy bypass?

The company says that it is keeping its workforce in the Yorkshire plant because lines can be produced there that cannot be produced in lower-wage economies. It says that that work could not be done in the Valleys because the skills base is not there. What discussions have you had with the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills to ensure that financial grants are available for upskilling the workforce so that it can compete for such work?

Andrew Davies: When I met company representatives, it was not my understanding that the reason that the company is maintaining its manufacturing operation in Yorkshire was because of the skills mix available there. It felt that it was important for the particular products that are made there—the rain coats, duffel coats and other higher-value-added products that it produces—to be branded as being made in England, or made in Britain. It was not a question of the skills mix. I questioned the company about that but, clearly, it feels that its polo shirts, retailing at £50—as was demonstrated to me—which can be made in Treorchy for £10, could be made in Turkey for £4.50 to £5. Clearly, that is the driver making it off-shore its operation. It was not

Leanne Wood: Bydd y rhai ohonom sy'n byw yn y Rhondda'n gyfarwydd iawn â'r ergyd drom a ddaw yn sgîl hyn, nid yn unig i'r gweithwyr a'u teuluoedd ond hefyd i'r gymuned gyfan. Holais y Prif Weinidog yn gynharach ynghylch strategaeth Blaenau'r Cymoedd ac yr wyf yn croesawu'ch cyhoeddiad eich bod yn gobeithio ei hymestyn. Pam nad oedd rhan ucha'r Rhondda Fawr wedi'i chynnwys yn strategaeth Blaenau'r Cymoedd yn y lle cyntaf?

Gofynnais hefyd i'r Prif Weinidog a allai sicrhau bod arian ar gael ar gyfer ffordd osgoi'r Gelli/Treorci, sy'n allweddol i adfywiad economaidd yr ardal honno. Dywedodd y Prif Weinidog nad oeddid wedi cael cais oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Pe baid yn cael cais o'r fath, a fydddech yn barod i ariannu ffordd osgoi'r Gelli/Treorci?

Dywed y cwmni ei fod yn cadw'i weithlu yn y ffatri yn swydd Efrog oherwydd bod modd cynhyrchu nwyddau yno na ellir eu cynhyrchu mewn economïau cyflog is. Dywed na ellid gwneud y gwaith yn y Cymoedd oherwydd nad yw'r sylfaen sgiliau'n bodoli yno. Pa drafodaethau yr ydych wedi eu cynnal gyda'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i sicrhau bod grantiau ariannol ar gael i uwchraddio sgiliau'r gweithlu fel y gallant gystadlu am waith o'r fath?

Andrew Davies: Yn fy nghyfarfod gyda chynrychiolwyr y cwmni, ni ddeallais mai'r cymysgedd sgiliau a oedd ar gael yno oedd y rheswm dros gadw'r gwaith yn swydd Efrog. Dywedwyd ei bod yn bwysig bod y nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu yno—y cotiau glaw, cotiau dyffl a nwyddau eraill gyda gwerth ychwanegol a gynhyrchir ganddo—yn cael eu brandio fel rhai sy'n cael eu gwneud yn Lloegr, neu ym Mhrydain. Nid y cymysgedd sgiliau oedd y broblem. Holais y cwmni ynglŷn â hynny ond, yn amlwg, mae'n teimlo y gallai ei grysau polo, sy'n gwerthu am £50—fel y dangoswyd imi—y gellir eu gwneud am £10 yn Nhreorci, gael eu gwneud am £4.50 neu £5 yn Nhwrci. Yn amlwg, dyna'r sbardun i yrru'r gwaith dramor. Nid oedd a wnelo hynny â'r cymysgedd sgiliau

down to the skills mix at the Treorchy factory. yn y ffatri yn Nhreorci.

As the First Minister said, we have not received a bid for that particular road scheme. The Porth relief road, as the First Minister pointed out in his response earlier today, is the largest local authority sponsored scheme in the UK, although funded by the Assembly Government. It will improve transport considerably. However, my transport grant programme is substantially over-programmed, as I have reported to committee and Plenary on many occasions. I have not asked for any new bids from local authorities because a substantial number of schemes across Wales affect most of my colleagues in the Chamber. Such schemes have already been accepted into the programme and would have to take precedence. However, if there is anything that we can do, whether to improve road, rail or bus services, we will certainly consider that, given the circumstances following Burberry's decision.

Jonathan Morgan: I welcome your announcement to expand the Heads of the Valleys scheme to incorporate the two mentioned communities. That will be of some benefit. However, 300 people now face job losses. We do not know whether the company will change its mind. What preparation and early steps can your department take in readiness for that eventuality, if it occurs? We hope that the company decides to change its mind, but it seems highly likely that it will continue with the threat of redundancies for those 300 people.

Finally, the company claims that it is not commercially viable to keep the business in that part of Wales, but what assurance has your department sought to provide a detailed explanation on why that is? For many people throughout south Wales, and I suspect throughout the nation, the term 'not commercially viable' seems to be an easy one to use.

Andrew Davies: I did not think that I would ever hear myself say this, but I have a great deal of sympathy with your last point. With

Fel y dywedodd y Prif Weinidog, nid ydym wedi cael cais am y cynllun ffordd arbennig hwn. Ffordd liniaru'r Porth, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn ei ateb yn gynharach heddiw, yw'r cynllun mwyaf yn y DU i gael ei noddi gan awdurdod lleol, er ei fod yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad. Bydd yn gwella trafnidiaeth yn sylweddol. Fodd bynnag, bu gorwario sylweddol ar fy rhaglen grant trafnidiaeth, fel y dywedais droeon yn y pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn. Nid wyf wedi gofyn i awdurdodau lleol am geisiadau newydd oherwydd bod nifer sylweddol o gynlluniau ledled Cymru'n effeithio ar y rhan fwyaf o'm cyd-Aelodau yn y Siambr. Mae cynlluniau o'r fath eisoes wedi cael eu derbyn gan y rhaglen a byddai'n rhaid rhoi blaenoriaeth iddynt. Fodd bynnag, os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud, boed hynny'n golygu gwella gwasanaethau ffordd, rheilffordd neu fysiau, byddem yn sicr yn ystyried hynny, o gofio'r amgylchiadau yn sgîl penderfyniad Burberry.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn croesawu eich penderfyniad i ymestyn cynllun Blaenau'r Cymoedd i gynnwys y ddwy gymuned a nodwyd. Bydd hynny o ryw fudd. Fodd bynnag, mae 300 o bobl yn awr yn wynebu colli eu swyddi. Ni wyddom a fydd y cwmni'n newid ei feddwl. Pa baratodau a champau cynnar y gall eich adran eu cymryd i fod yn barod am hynny, os digwydd hynny? Yr ydym yn gobeithio y bydd y cwmni'n penderfynu newid ei feddwl, ond mae'n ymddangos yn debygol iawn y bydd yn parhau gyda'r bygythiad i ddiswyddo'r 300 o bobl.

Yn olaf, mae'r cwmni'n honni nad yw'n ymarferol o safbwynt masnachol cadw'r busnes yn y rhan honno o Gymru, ond pa sicrwydd y mae eich adran wedi ceisio'i gael i gael esboniad manwl ynghylch rheswm dros hynny? I lawer o bobl ledled y de, a thrwy'r wlad, mae'n siŵr, mae'r term 'anymarferol o safbwynt masnachol' yn ymddangos fel un hawdd iawn i'w ddefnyddio.

Andrew Davies: Nid oeddwn erioed wedi meddwl y byddwn yn clywed fy hun yn dweud hyn, ond mae gennyf lawer o

large companies such as this, it is very difficult to get accurate figures. We must go on the figures that the company provides, which are in the public domain. If the company wishes to undertake transfer pricing, for example, as many large companies do and impose management costs on a local operation, which may, under other circumstances, be held by the headquarters operation, then there is nothing that we can do, as a Government, to prevent that. It is within a company's right to do so.

I questioned the financial issues closely, as did my officials. The regional selective assistance team questioned them closely. However, it is ultimately the company's decision. As I said, the company is highly profitable, but it states that its local operation is not profitable.

On helping those affected if the decision to close the factory goes ahead, I made it clear to the company and unions that we will work with both to help those affected. It is cold comfort to those who face the prospect of losing their jobs, but we have been successful in helping those affected by previous large redundancies. For example, when Corus's announcement of 3,000 redundancies around five years ago came into effect, I believe that only 120 people remained unemployed. The same is true of Sony when it closed its television plant in the summer of 2005; of the 650 people made redundant, I understand that those who wanted a job found alternative work and, in many cases, at much higher salaries than they received at Sony. So, there is a well-oiled machine that will help those affected to find alternative employment or to move into training, depending on what the employees want.

3.10 p.m.

Kirsty Williams: Do you agree that these regrettable job losses, which are a slap in the face for those individuals who have worked

gydymdeimlad gyda'ch pwynt olaf. Yn achos cwmnïau mawr fel hyn, mae'n anodd iawn cael gafael ar ffigurau manwl. Rhaid inni ddibynnu ar y ffigurau y mae'r cwmni'n eu rhoi, sy'n ffigurau cyhoeddus. Os yw'r cwmni'n dymuno pennu prisiau trosglwyddo, er enghraifft, fel y mae llawer o gwmnïau mawr yn gwneud a gosod costau rheoli ar waith lleol, a fyddai, mewn amgylchiadau eraill, yn cael eu cynnal gan y pencadlys, yna nid oes dim y gallwn ni, fel Llywodraeth, ei wneud, i rwystro hynny. Mae gan y cwmni bob hawl i wneud hynny.

Bûm i, yn ogystal â'm swyddogion, yn holi'n fanwl ynglŷn â'r materion ariannol. Bu'r tîm cymorth rhanbarthol dewisol yn eu holi'n drylwyr. Fodd bynnag, y cwmni fydd yn penderfynu yn y pen draw. Fel y dywedais, mae'r cwmni'n un proffidiol dros ben, ond dywed nad yw ei waith lleol yn broffidiol.

O ran cynorthwyo'r rhai yr effeithir arnynt os bydd y cwmni'n bwrw ymlaen â'i benderfyniad i gau'r ffatri, yr wyf wedi ei gwneud yn amlwg i'r cwmni a'r undebau y byddwn yn gweithio gyda'r naill a'r llall i gynorthwyo'r rhai yr effeithir arnynt. Nid yw fawr o gysur i'r sawl sy'n wynebu'r posibilrwydd y byddant yn colli eu gwaith, ond yr ydym wedi bod yn llwyddiannus wrth gynorthwyo'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan ddiswyddo mawr yn y gorffennol. Er enghraifft, pan ddaeth cyhoeddiad Corus ynghylch diswyddo 3,000 o weithwyr i rym tua phum mlynedd yn ôl, credaf mai dim ond 120 o bobl a oedd yn parhau'n ddi-waith. Mae'r un peth yn wir yn achos Sony pan gaewyd ei ffatri cynhyrchu setiau teledu yn ystod haf 2005; o'r 650 o bobl a ddiswyddwyd, deallaf fod y rhai a oedd am gael swydd wedi dod o hyd i swydd arall ac, mewn llawer o achosion, yr oeddent yn ennill cyflogau llawer uwch na'r hyn yr oeddent yn ei gael yn Sony. Felly, mae gennym drefniadau da a fydd yn cynorthwyo'r rhai yr effeithir arnynt i ddod o hyd i swyddi eraill neu i fynd ati i dderbyn hyfforddiant, a bydd hynny'n dibynnu ar ddymuniaid y cyflogaion.

Kirsty Williams: A ydych yn cytuno bod y swyddi hyn sy'n mynd i gael eu colli yn anffodus, sy'n ergyd i'r unigolion hynny

hard to make the factory a success, is further bad news for the manufacturing industry in Wales? Will you reconsider your refusal to undertake a proactive audit of all manufacturing operations in Wales to ascertain which companies are potentially facing difficulty or looking to move jobs out of Wales, and also to look at opportunities for those companies which, with the right kind of support, could look to expand their operations in Wales? You have so far refused to do this.

The importance of infrastructure and transport links was raised earlier with regard to allowing companies to establish themselves in these areas or to enable companies to remain as competitive as possible if they are shipping goods in and out of their factories. Transport links could also allow businesses in other parts of Wales to expand. We have just heard the First Minister say that, in the new round of Objective 1 funding, you will switch money away from infrastructure projects and into skills at a time when your transport grant, as you have just admitted, is way overspent. You are having to postpone projects and turn down bids because you do not have the money to put into those transport infrastructure projects. It does not make much sense to me to take money away from infrastructure in Objective 1 which could be used to deliver the kind of things that you need to achieve your own strategies.

Finally, I turn to the skills agenda. In this particular case, it is not the skills of the workers in question that have led to these job losses. This factory has been proactive in working with higher education and further education institutions in Wales to help develop the fashion designers of the future. We have a proud tradition in Wales of producing fine fashion designers who are famous throughout the world. What impact do you expect the loss of such a high-profile brand to have on higher and further education institutions that have successfully worked with this company, which has given its time and expertise to help those students?

sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant y ffatri, yn fwy o newyddion drwg i'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? A wnewch ailystyried eich penderfyniad i wrthod cynnal archwiliad rhagweithiol o bob gwaith gweithgynhyrchu yng Nghymru i ganfod pa gwmnïau sy'n debygol o fod yn wynebu anawsterau neu sy'n ystyried symud swyddi allan o Gymru, a hefyd chwilio am gyfleoedd i'r cwmnïau hynny a allai, gyda chefnogaeth briodol, ystyried ehangu eu gwaith yng Nghymru? Hyd yma, yr ydych wedi gwrthod gwneud hyn.

Soniwyd yn gynharach am bwysigrwydd seilwaith a chysylltiadau trafndiaeth i ganiatáu i gwmnïau sefydlu eu hunain yn yr ardaloedd hyn neu alluogi cwmnïau i barhau i fod mor gystadleuol â phosibl os ydynt yn cludo nwyddau i mewn ac allan o'u ffatrioedd. Gallai cysylltiadau trafndiaeth hefyd ganiatáu i fusnesau mewn rhannau eraill o Gymru ehangu. Yr ydym newydd glywed y Prif Weinidog yn dweud y byddwch, yn y rownd nesaf o arian Amcan 1, yn symud arian oddi wrth brosiectau seilwaith i sgiliau ar adeg pan fo gorwario sylweddol wedi bod ar eich grant trafndiaeth, fel yr ydych newydd gyfaddef. Yr ydych yn gorfod gohirio prosiectau a gwrthod ceisiadau oherwydd nad oes gennych arian i'w wario ar y prosiectau seilwaith trafndiaeth hynny. Nid yw'n gwneud llawer o synnwyr i mi fod arian yn cael ei dynnu oddi wrth seilwaith mewn rhaglenni Amcan 1 y gellid ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau sydd eu hangen i gyflawni eich strategaethau chi eich hun.

Yn olaf, yr wyf am droi at yr agenda sgiliau. Yn yr achos arbennig hwn, nid sgiliau'r gweithwyr dan sylw sydd wedi arwain at golli'r swyddi hyn. Mae'r ffatri wedi bod yn rhagweithiol wrth weithio gyda sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru i helpu i ddatblygu cynllunwyr ffasiwn y dyfodol. Mae gennym draddodiad y gallwn ymfalchïo ynddo yng Nghymru o gynhyrchu cynllunwyr ffasiwn da sy'n enwog drwy'r byd. Pa effaith yr ydych yn disgwyl i golli brand sydd â phroffil mor uchel ei chael ar sefydliadau addysg uwch a phellach a fu'n gweithio mor llwyddiannus gyda'r cwmni hwn, sydd wedi rhoi o'i amser

a'i arbenigedd i gynorthwyo'r myfyrwyr hynny?

Andrew Davies: I will respond to the transport issue first. I do not think that we are switching resources away from transport; over £500 million of my budget—which is between a half and a third of my total budget—is being spent on transport. Much of this has been spent on road schemes, but much has also been spent on rail. The First Minister made the point that, to a large extent, this is in line with the Lisbon agenda and is a requirement of the European Commission. As you may remember from the negotiations over the single programming document under the current programme, we bid for a higher proportion for transport but the European Commission said that it did not want such a high proportion to be spent on transport.

On your third point, the emphasis on skills is essential. People often hold up Ireland as an excellent example of a dynamic economy. However, outside Dublin and away from the major cities, the transport infrastructure—as the Irish Government has acknowledged—is not what you would expect in a modern economy. That is why it has to play catch-up. However, that has not stopped most parts of Ireland from benefiting from that dynamic economic growth. Therefore, while transport is important, the skills element is the most important element, and that is what the Irish Government focused on in terms of its delivery of Objective 1. You are right that, in terms of the textile and the garment-manufacturing sector, it is important to go for higher quality or niche production. Welsh companies that have done that, such as Melin Tregwynt, have been highly successful. The same is true of Sony, though this is a different sector. Its move from the mass production of televisions to niche production of high-definition televisions and film video cameras at its Pencoed plant illustrates within one company the switch from high-volume mass production of low-value goods to a lower volume of higher value goods. We are working with the industry and with education institutions and other skills providers to identify what we can do to help that switch.

Andrew Davies: Ymatebaf i'r pwynt a wnaethpwyd am drafnidiaeth yn gyntaf. Nid wyf yn credu ein bod yn symud adnoddau oddi wrth drafnidiaeth; mae dros £500 miliwn o'm cyllideb—sydd rhwng hanner a thraean cyfanswm fy nghyllideb—yn cael ei wario ar drafnidiaeth. Mae llawer o'r arian hwn wedi cael ei wario ar gynlluniau ffyrdd, ond mae llawer wedi ei wario ar y rheilffyrdd hefyd. Dywedodd y Prif Weinidog fod hyn, i raddau helaeth, yn cyd-fynd ag agenda Lisbon a'i fod yn ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Efallai y byddwch yn cofio o'r negodiadau ar y ddogfen raglennu sengl o dan y rhaglen bresennol, ein bod wedi cyflwyno cais am gyfran uwch ar gyfer trafnidiaeth ond bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud nad oedd am i gyfran mor uchel gael ei gwario ar drafnidiaeth.

Ynglŷn â'ch trydydd pwynt, mae'r pwyslais ar sgiliau'n hanfodol. Mae pobl yn aml yn cyfeirio at Iwerddon fel enghraifft nodedig o economi ddynamig. Fodd bynnag, y tu allan i Ddilyn a'r dinasoedd mwyaf, nid yw'r seilwaith trafnidiaeth—fel y mae Llywodraeth Iwerddon ei hun wedi cydnabod—cystal â'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl mewn economi fodern. Dyna pam mae'n rhaid iddi geisio dal i fyny drwy'r adeg. Fodd bynnag, nid yw hynny wedi rhwystro'r rhan fwyaf o Iwerddon rhag manteisio ar y twf economaidd dynamig hwn. Felly, er bod trafnidiaeth yn bwysig, yr elfen sgiliau yw'r elfen bwysicaf, a dyna'r hyn y mae Llywodraeth Iwerddon wedi canolbwyntio arno o ran y ffordd y mae'n gwario'i harian Amcan 1. Yr ydych yn gywir wrth ddweud, yn achos y sector tecstilau a chynhyrchu dillad, ei bod yn bwysig dewis cynhyrchu cynnyrch ansawdd rhagorol neu arbenigol. Mae cwmnïau Cymreig sydd wedi gwneud hynny, megis Melin Tre-gwynt, wedi bod yn hynod lwyddiannus. Mae'r un peth yn wir am Sony, er bod hwn yn sector gwahanol. Mae symud oddi wrth fasgynhyrchu setiau teledu i faes mwy arbenigol setiau teledu eglur iawn a chamerau fideo ffilm yn ei ffatri ym Mhencoed yn dangos sut y gall cwmni symud o fasgynhyrchu swm mawr o nwyddau gwerth isel i gynhyrchu llai o nwyddau gwerth uwch. Yr ydym yn gweithio

gyda'r diwydiant a chyda sefydliadau addysg a darparwyr sgiliau eraill i weld beth y gallwn ei wneud i gynorthwyo gyda'r newid hwnnw.

On the general point about manufacturing, I am not sure what the audit that you have called for will deliver. We have a good understanding of manufacturing in Wales. We are working with specific sectors, such as the automotive, aerospace, and optoelectronics sectors and many others—both with the industries and the unions—to identify the needs of those particular sectors.

Ynglŷn â'r pwynt cyffredinol ynghylch gweithgynhyrchu, nid wyf yn siŵr beth yn union y byddai'r archwiliad yr ydych yn galw amdano'n ei gyflawni. Mae gennym ddealltwriaeth dda o weithgynhyrchu yng Nghymru. Yr ydym yn gweithio gyda sectorau penodol, megis y sectorau rhannau ceir, awyrofod, ac optoelectroneg a llawer o rai eraill—gyda'r diwydiannau a chyda'r undebau—i ganfod anghenion y sectorau hynny.

My high level ministerial advisory group chaired by Richard Parry-Jones, the chief technology officer at Ford, is going through a detailed analysis of the Welsh economy, and manufacturing in particular, and identifying what we need to be doing better in order to move into those high-value-added operations. I think that we have been successful in Wales in terms of manufacturing, but we are experiencing the same transformation that is happening across the UK and most of the advancing industrial world, as is the case with Sony. Our strategy is to help those companies to move into areas of the economy that they can successfully exploit. We support them through regional selective assistance and other support mechanisms. However, we need to be able to identify those growth sectors in the future, and that is the foundation of our strategies.

Mae fy ngrŵp ymgynghorol gweinidogol lefel uchel a gadeirir gan Richard Parry-Jones, y prif swyddog technoleg yn Ford, yn cyflawni dadansoddiad manwl o economi Cymru, ac o weithgynhyrchu yn arbennig, i weld beth sydd angen inni fod yn ei wneud yn well i symud at y busnesau gwerth ychwanegol uchel hynny. Credaf ein bod wedi bod yn llwyddiannus yng Nghymru o ran gweithgynhyrchu, ond yr ydym yn profi'r un trawsnewid sy'n digwydd ar draws y DU a'r rhan fwyaf o'r byd diwydiannol blaenllaw, fel yn achos Sony. Ein strategaeth yw helpu'r cwmnïau hynny i symud at feysydd o'r economi y gallant eu hecsbloetio'n llwyddiannus. Yr ydym yn eu cefnogi drwy ddarparu cymorth rhanbarthol dewisol a thrwy ddulliau cymorth eraill. Fodd bynnag, mae angen inni allu gweld pa rai yw'r sectorau twf hynny yn y dyfodol, a dyna yw sylfaen ein strategaethau.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Colli swyddi yn Duracell, Wrecsam Job losses at Duracell, Wrexham

Eleanor Burnham: Obviously, my question is about Duracell. What is the Minister doing to ensure that the people who will unfortunately lose their jobs at Duracell in Wrexham—

Eleanor Burnham: Yn amlwg, mae fy nghwestiwn yn ymwneud â Duracell. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod y bobl a fydd yn anffodus yn colli eu swyddi yn Duracell yn Wrecsam—

The Presiding Officer: Order. Please ask the question as tabled.

Y Llywydd: Trefn. A fyddech cystal â gofyn y cwestiwn fel y'i cyflwynwyd.

Eleanor Burnham: I do not have it before

Eleanor Burnham: Nid yw gennyf o'm

me.

The Presiding Officer: The question that you have tabled reads as follows:

Will the Minister for Enterprise, Innovation and Networks make a statement on job losses at Duracell in Wrexham? EAQ0985(EIN)

The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies): The job-losses announcement by Duracell is disappointing. Our sympathy is with those affected and their families. My officials have contacted the Wrexham plant, which produces batteries for hearing-impaired consumers, and will work closely with those affected by the closure to offer support via our early response redundancy programme.

Eleanor Burnham: We obviously extend our sincere sympathies to the employees—there are 109 of them—and their families. My understanding is that, despite the fact that Wrexham County Borough Council had been working closely with the company, particularly on aspects of upgrading training, it was told about this closure late in the day. Like Kirsty Williams, I believe that there is a general concern, particularly in Wrexham—because, as you know, it does not draw down European funding—because there was a recent issue in terms of a company losing an Airbus contract. Therefore, this is not just a one-off case. What assurances can you give Wrexham County Borough Council that, despite the fact that it cannot access Objective 1 funding, you can provide constructive help? You have just said that infrastructure has no bearing; I disagree. Wrexham has been waiting for the last 35 years for a better road onto the industrial park, which is currently looking quite sad. That is why Kellogg's went there initially. These things put people off because when people move companies, they want to be perceived to be in a growing area. What are you and your department doing to ensure that Wrexham does not suffer from the continued downgrading of manufacturing that appears to be happening in this part of north-east Wales?

blaen.

Y Llywydd: Mae'r cwestiwn a gyflwynwyd gennych yn darllen fel a ganlyn:

A wnaiff y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau wneud datganiad am golli swyddi yn Duracell yn Wrecsam? EAQ0985(EIN)

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies): Mae'r cyhoeddiad y bydd swyddi'n cael eu colli yn Duracell yn siomedig. Cydymdeimlwn â'r rhai yr effeithir arnynt ac â'u teuluoedd. Mae fy swyddogion wedi cysylltu â'r ffatri yn Wrecsam, sy'n gwneud batris i bobl â nam ar eu clyw, a byddant yn gweithio'n agos â'r rhai y bydd y penderfyniad i gau yn effeithio arnynt i gynnig cymorth drwy ein rhaglen ymateb yn fuan i ddileu swyddi.

Eleanor Burnham: Yr ydym yn amlwg yn cydymdeimlo'n ddiffuant â'r gweithwyr—mae 109 ohonynt—ac â'u teuluoedd. Yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall, er gwaetha'r ffaith bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn gweithio'n agos â'r cwmni, yn enwedig ar agweddau ar uwchraddio hyfforddiant, cefais wybod am y penderfyniad i gau yn hwyr yn y dydd. Fel Kirsty Williams, credaf fod pryder yn gyffredinol, yn enwedig yn Wrecsam—oherwydd, fel y gwyddoch, nid yw'n derbyn cyllid Ewropeaidd—oherwydd yr oedd problem yn ddiweddar lle'r oedd cwmni wedi colli contract Airbus. Felly, nid achos untro yn unig yw hyn. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, er gwaetha'r ffaith nad yw'n gallu cael cyllid Amcan 1, y gallwch gynnig cymorth adeiladol? Yr ydych newydd ddweud nad yw seilwaith yn fater perthnasol; yr wyf yn anghytuno. Mae Wrecsam wedi bod yn aros ers 35 o flynyddoedd am ffordd well i'r parc diwydiannol, sy'n edrych yn eithaf truenus ar hyn o bryd. Dyna pam yr aeth Kellogg's yno i ddechrau. Mae'r pethau hyn yn digalonni pobl oherwydd pan fydd pobl yn symud cwmnïau, mae arnynt eisiau iddi ymddangos fel pe baent mewn ardal dwf. Beth yr ydych chi a'ch adran yn ei wneud i sicrhau nad yw Wrecsam yn dioddef oherwydd yr israddio parhaus ar weithgynhyrchu sy'n digwydd i bob golwg yn y rhan hon o ogledd-ddwyrain

Cymru?

Andrew Davies: For the record, I did not say that transport was not important; I said that it was not always the crucial factor, and I used many parts of the Republic of Ireland as an example of how transport difficulties have not constrained the economy there. Nevertheless, you are right in terms of Wrexham not qualifying as an assisted area. That is obviously because all the economic indicators show that it is one of the more prosperous parts of Wales, and, therefore, it does not qualify for regional selective assistance. Nevertheless, we are able to support companies such as Sharp in many ways by providing help with training or other logistical support even though we are not able to offer regional selective assistance.

Andrew Davies: Er mwyn i bawb gael gwybod, ni ddywedais nad oedd trafniadaeth yn bwysig; dywedais nad oedd bob tro yn ffactor hanfodol, a defnyddiais lawer o ardaloedd yng Ngweriniaeth Iwerddon i ddangos nad yw'r trafferthion o ran trafniadaeth wedi cyfyngu ar yr economi yno. Er hynny, yr ydych yn iawn wrth ddweud nad yw Wrecsam yn gymwys fel ardal a gynorthwyr. Mae'n amlwg mai'r rheswm am hynny yw bod yr holl ddangosyddion economaidd yn dangos ei bod yn un o'r rhannau mwyaf ffyniannus o Gymru, ac, felly, nad yw'n gymwys i dderbyn cymorth rhanbarthol dewisol. Er hynny, yr ydym yn gallu cefnogi cwmnïau fel Sharp mewn nifer o ffyrdd drwy eu helpu gyda hyfforddiant neu gymorth logistaidd arall, er na allwn gynnig cymorth rhanbarthol dewisol iddynt.

On the road to the Wrexham industrial estate, it was in our transport grant programme, but, unfortunately, the local authority did not complete the statutory procedures correctly. Therefore, we were not able to take the scheme forward at that stage. Nevertheless, it is in the programme and I believe, although I am open to correction, that it is on schedule to start in 2009-10; I will check the details.

Ynghylch y ffordd at stad ddiwydiannol Wrecsam, yr oedd yn ein rhaglen grantiau trafniadaeth, ond, yn anffodus, ni chwblhaodd yr awdurdod lleol y gweithdrefnau statudol yn gywir. Felly, nid oeddem yn gallu bwrw ymlaen â'r cynllun bryd hynny. Er hynny, mae yn y rhaglen a chredaf, er y gallwch fy nghywiro os wyf yn anghywir, fod y gwaith i ddechrau arni yn 2009-10; fe wnaf gadarnhau'r manylion.

3.20 p.m.

Mark Isherwood: This is devastating news for the 109 people at the Ash Road plant in Wrexham. I know from the company's statement that it will be transferring manufacturing to a new partner company. When did you and your department become aware of the new partner company and what discussions have you had with it? Is it based in Wales or the UK, or will we be losing the jobs to an overseas company? The company also states that it will be working closely with its employees during the period of transition, and I hope that you will assure us that your department will also be working with the company and the employees to make that transition period as painless as possible for them.

Mark Isherwood: Mae hyn yn newyddion digalon iawn i'r 109 o bobl yn y ffatri yn Ash Road yn Wrecsam. Gwn yn ôl datganiad y cwmni y bydd yn trosglwyddo'r gweithgynhyrchu i gwmni partner newydd. Pryd y cawsoch chi a'ch adran wybod am y cwmni partner newydd a pha drafodaethau yr ydych wedi eu cynnal gyda hwy? A ydyw wedi'i leoli yng Nghymru neu yn y DU, ynteu a fyddwn yn colli'r swyddi i gwmni tramor? Mae'r cwmni hefyd yn dweud y bydd yn gweithio'n agos â'i weithwyr yn ystod y cyfnod o drawsnewid, a gobeithio y gallwch ein sicrhau y bydd eich adran chithau hefyd yn gweithio â'r cwmni a'r gweithwyr i wneud y cyfnod hwnnw o drawsnewid yn un mor ddi-boen â phosibl iddynt.

I use hearing-aid batteries, which are supplied to me by Wrexham Maelor Hospital

Yr wyf yn defnyddio batris clyw, sy'n cael eu cyflenwi imi gan Ysbyty Maelor yn

and are made in Germany. What efforts have been made in terms of local procurement through the NHS to support local companies such as the one in Wrexham? There may be good reasons why it is not supported, but, clearly, I do not know what they are. It seems to me that this is the sort of added-value company that you frequently talk about as being the sort of operation that we need to underpin economic growth in Wales.

Since 2000, Wales has experienced the highest proportional increase in spending on economic development of any region in the UK, and yet, as you know, we are still at the bottom of the UK prosperity table. At the Confederation of British Industry seminar last month, we were told by the CBI economist that although the manufacturing workforce had been fairly stable between 1984 and 1999, there had been big falls since then. It has now fallen to just 15 per cent of the Welsh economy, from 25 per cent prior to devolution. We know that overall unemployment in Wales has risen over the last year, and that the proportion of the working-age population not in work is higher than it was at the start of this Assembly.

I conclude by referring to the Federation of Small Businesses, which has referred to your strategy, 'Wales: A Vibrant Economy', as a policy framework rather than a strategy with defined measures and detailed direction for the Welsh economy. This document offers little to businesses. Therefore, what will you do to work with the whole of Team Wales, and small and large front-line businesses in particular, to ensure that the concerns that they have raised here, with you and with all of us in the Chamber can be part of a partnership strategy for the future that will ensure that we can involve the private sector in a high-tech, high-added-value economy?

Andrew Davies: We are still trying to understand why Duracell has made this announcement. Burberry clearly wanted to move its operation to a lower cost site overseas. My understanding is that that is not the reason why Duracell has made this decision, but that it is for technical reasons. You are right in terms of the statement that it

Wrecsam, ac a wneir yn yr Almaen. Pa ymdrechion a wnaed o ran caffael lleol drwy'r GIG i gefnogi cwmnïau lleol fel yr un yn Wrecsam? Efallai fod amryw o resymau da dros beidio â'i gefnogi, ond, yn amlwg, ni wn beth ydynt. Ymddengys i mi mai dyma'r math o gwmni gwerth ychwanegol yr ydych yn sôn amdanynt yn aml fel y math o fusnes sydd ei angen arnom i fod yn sail i dwf economaidd yng Nghymru.

Ers 2000, mae Cymru wedi gweld mwy o gynnydd cyfrannol mewn gwariant ar ddatblygu economaidd na'r un rhanbarth arall yn y DU, ac eto, fel y gwyddoch, yr ydym yn dal i fod yng ngwaelod tabl ffyniant y DU. Yn seminar Cydffederasiwn Diwydiant Prydain y mis diwethaf, dywedodd economegydd y CBI wrthym, er bod y gweithlu gweithgynhyrchu wedi bod yn eithaf sefydlog rhwng 1984 a 1999, ei fod wedi mynd yn llai ac yn llai ers hynny. Erbyn hyn mae wedi lleihau i ddim ond 15 y cant o economi Cymru, o 25 y cant cyn datganoli. Gwyddom fod diweithdra yn gyffredinol yng Nghymru wedi codi yn y flwyddyn ddiwethaf, a bod cyfran y boblogaeth oed gweithio sy'n ddi-waith yn uwch na'r hyn ydoedd ar ddechrau'r Cynulliad hwn.

Yr wyf yn gorffen drwy gyfeirio at Ffederasiwn Busnesau Bach, sydd wedi cyfeirio at eich strategaeth, 'Cymru: Economi yn Ffynnu', fel fframwaith polisi yn hytrach na strategaeth gyda mesurau diffiniedig a chyfeiriad manwl i economi Cymru. Ychydig iawn y mae'r ddogfen hon yn ei gynnig i fusnesau. Felly, beth a wnewch i weithio gyda Thîm Cymru i gyd, a busnesau bach a mawr yn y rheng flaen yn arbennig, i sicrhau bod y pryderon a godwyd yma, gyda chi a phawb ohonom yn y Siambr, yn rhan o strategaeth bartneriaeth ar gyfer y dyfodol a fydd yn sicrhau y gallwn gynnwys y sector preifat mewn economi uwch-dechnoleg sy'n cynnig gwerth ychwanegol uchel?

Andrew Davies: Yr ydym yn dal i geisio deall pam mae Duracell wedi gwneud y cyhoeddiad hwn. Yn amlwg, yr oedd Burberry am symud ei weithrediadau dramor i safle gyda llai o gostau. Yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall, nid dyna pam y gwnaeth Duracell y penderfyniad hwn, ond am resymau technegol. Yr ydych yn iawn o ran y

has issued; in terms of the company's long-term strategy and its continued success in the market, it has decided to partner with a qualified third party for manufacturing. Again, we are trying to understand the reasons behind this decision. Like the Burberry decision, it came out of left field; we had no advanced warning of this. As I said, we are trying to understand the reasons for that.

When it comes to helping companies such as Duracell with procurement, we are already doing that. Around three months ago, I launched the 'Opening the Doors' charter to help companies, particularly small companies, to access the Welsh public sector procurement market. It is a very significant market with around £4 billion a year of expenditure on goods and services. We are keen to create a level playing field so that more of that business can be won by Welsh companies or Welsh-based companies.

I do not know why Duracell did not provide the batteries for the local NHS trust; it may be that it had made a bid but was unsuccessful. However, our policies are geared towards helping Welsh businesses to win much more of that public sector procurement expenditure.

On manufacturing, as I said in my response to Kirsty Williams, we are working with the manufacturing sector generally, but also with individual sectors, to identify what their needs are, be that investment in research and development or skills training, or the use of a whole range of other support mechanisms that we have had at our disposal. We have been very successful—probably more successful than other parts of the UK—in stemming the loss of manufacturing jobs. For some time—and this continues to be the case—there has been a change in manufacturing from high-volume/low-value-added production to low-volume/high-value-added production. We are working with individual companies as well as sectors to help them through that transformation. If you look at the statistics on manufacturing jobs since 1999, we have had a fall of 17 per cent compared with a fall of 25 per cent in the rest of the UK. Manufacturing is still the most valuable sector for the Welsh economy, and

datganiad a wnaed ganddo; o ran strategaeth hirdymor y cwmni a'i lwyddiant parhaus yn y farchnad, mae wedi penderfynu partneru gyda thrydydd parti cymwys ar gyfer gweithgynhyrchu. Eto, yr ydym yn ceisio deall beth yw'r rhesymau dros y penderfyniad hwn. Fel y penderfyniad gan Burberry, yr oedd yn gwbl annisgwyl; ni chawsom ddim rhybudd ymlaen llaw. Fel y dywedais, yr ydym yn ceisio deall y rhesymau dros hynny.

Pan ddaw'n fater o helpu cwmnïau fel Duracell gyda chaffael, yr ydym eisoes yn gwneud hynny. Tua thri mis yn ôl, lansiais y siarter 'Agor Drysau' i helpu cwmnïau, yn enwedig rhai bach, i gael mynediad at y farchnad caffael cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n farchnad sylweddol iawn gyda thua £4 biliwn y flwyddyn o wariant ar nwyddau a gwasanaethau. Yr ydym yn awyddus i roi'r un cyfle i bawb fel bod mwy o fusnes yn cael ei ennill gan gwmnïau o Gymru neu gwmnïau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

Nid wyf yn gwybod pam nad oedd Duracell yn darparu'r batris i'r ymddiriedolaeth GIG leol; efallai ei fod wedi bidio ond iddo fod yn aflwyddiannus. Fodd bynnag, nod ein polisiau yw helpu busnesau yng Nghymru i ennill llawer mwy o'r gwariant hwnnw ar gaffael cyhoeddus.

Ynghylch gweithgynhyrchu, fel y dywedais yn fy ateb i Kirsty Williams, yr ydym yn gweithio â'r sector gweithgynhyrchu yn gyffredinol, ond hefyd gyda sectorau unigol, i ganfod beth yw eu hanghenion, boed hynny'n fuddsoddi mewn datblygiad ac ymchwil neu hyfforddiant sgiliau, neu ddefnyddio cryn amrywiaeth o ddulliau cymorth eraill sydd gennym i'w cynnig. Yr ydym wedi bod yn llwyddiannus iawn—yn fwy llwyddiannus na rhannau eraill o'r DU yn ôl pob tebyg—wrth atal colli swyddi gweithgynhyrchu. Ers tro—ac mae hyn yn parhau i ddigwydd—mae gweithgynhyrchu wedi newid o fod yn gynhyrchu swm mawr/gwerth ychwanegol isel i fod yn gynhyrchu swm bach/gwerth ychwanegol uchel. Yr ydym yn gweithio â chwmnïau unigol yn ogystal ag â'r sectorau i'w helpu gyda'r trawsnewid hwn. Os edrychwch ar yr ystadegau ar gyfer swyddi gweithgynhyrchu ers 1999, yr ydym wedi gweld lleihad o 17 y cant o'i gymharu â lleihad o 25 y cant yng ngweddill y DU.

all our policies, including 'Wales: A Vibrant Economy', are aimed at helping manufacturing companies to go through that major transformation and to remain competitive and viable.

Karen Sinclair: I thank the Minister for his answer to the Assembly today. The news that more than 100 jobs will be lost at the Duracell battery factory in Wrexham makes it a sad day. It is sad news for the workers and their families, many of whom come from my constituency. Do you share my concern that Duracell appears to have treated the workforce badly by making this announcement with, seemingly, no previous indication that this was on the horizon? It seems to me that this is a truly despicable way to treat the workforce.

I do not know whether you are aware of this, but it is worth noting that the workforce there currently has no union representation. It has a works forum or works council, but it will not have the support of a union to underpin its reference points. The important thing in all this is the people who make up this workforce, not the company and so on; it is the people who will lose their jobs. Can I have your full assurance that you will do all in your power to ensure that everything possible is done to work with the Duracell workforce to give it all the back-up, advice and help that it needs to be in the best possible position to find employment elsewhere?

Andrew Davies: I will certainly give that commitment. The Wrexham economy and local labour market is extremely buoyant. Whenever I meet the representatives of companies in Wrexham, particularly on the Wrexham industrial estate, they tell me that one of their biggest difficulties is recruiting local labour. In fact, that is why a significant number of employees from the accession countries, particularly Poland, are working in Wrexham. When I visited Sharp, I saw that there were Polish workers there. That gives an indication of the buoyancy of the local labour market. Therefore, I am confident that we will be able to help those affected by this announcement into alternative employment,

Gweithgynhyrchu yw'r sector mwyaf gwerthfawr i economi Cymru o hyd, ac mae ein polisiau i gyd, gan gynnwys 'Cymru: Economi yn Ffynnu', yn ceisio helpu cwmnïau gweithgynhyrchu gyda'r trawsnewid mawr hwnnw ar yr un pryd ag aros yn gystadleuol ac yn hyfyw.

Karen Sinclair: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ateb i'r Cynulliad heddiw. Mae'r newyddion y bydd mwy na 100 o swyddi'n cael eu colli yn ffatri batris Duracell yn Wrecsam yn ei wneud yn ddiwrnod trist. Mae'n newyddion trist i'r gweithwyr a'u teuluoedd, llawer ohonynt o fy etholaeth i. A ydych yn pryderu fel yr wyf fi ei bod yn ymddangos bod Duracell wedi trin y gweithlu'n wael drwy wneud y cyhoeddiad hwn heb ddim rhybudd i bob golwg? Mae'n ymddangos i mi fod hyn yn ffordd wirioneddol ffaidd o drin y gweithlu.

Nid wyf yn gwybod a wyddoch hyn, ond mae'n werth nodi nad oes gan y gweithlu yno ddim cynrychiolydd sy'n perthyn i undeb ar hyn o bryd. Mae ganddo fforwm gwaith neu gyngor gwaith, ond ni fydd ganddo gefnogaeth undeb i atgyfnerthu ei bwyntiau. Y peth pwysig yn hyn oll yw'r bobl sydd yn y gweithlu, nid y cwmni ac yn y blaen; y bobl a fydd yn colli eu swyddi. A allwch fy sicrhau'n llwyr y byddwch yn gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i weithio â'r gweithlu yn Duracell i roi'r holl gefnogaeth, cyngor a chymorth sydd ei angen arno i fod yn y sefyllfa orau i ddod o hyd i swyddi eraill?

Andrew Davies: Yn sicr fe ymrwymaf i wneud hynny. Mae economi Wrecsam a'r farchnad lafur leol yn eithriadol fywiog. Bob tro y byddaf yn cwrrd â chynrychiolwyr cwmnïau yn Wrecsam, yn enwedig ar stad ddiwydiannol Wrecsam, maent yn dweud wrthyf mai un o'u trafferthion mwyaf yw recriwtio llafur lleol. Yn wir, dyna pam y mae nifer sylweddol o weithwyr o'r gwledydd sydd wedi'u derbyn, yn enwedig o Wlad Pŵyl, yn gweithio yn Wrecsam. Pan oeddwn yn ymweld â Sharp, gwelais fod gweithwyr o Wlad Pŵyl yno. Mae hynny'n awgrymu pa mor fywiog yw'r farchnad lafur leol. Felly, yr wyf yn ffyddiog y byddwn yn gallu helpu'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y

if that is what they wish, or into skills training or education. Whatever they will want to do, we will be able to help them and to offer them that tailored support.

On the issue of non-consultation, as in the case at Burberry, it is disappointing that companies keep their employees in the dark. I do not think that any company with a corporate social responsibility charter and a policy that highlights a commitment to employee welfare and to helping employees to benefit from the prosperity and success of the company should treat employees in the way in which they have been treated. It is a matter of great regret. My experience of industry is that the companies in which management and unions work together and share information openly are the most innovative and successful ones, economically and financially.

Janet Ryder: I echo many of the concerns that Karen Sinclair has just raised; a company has a responsibility to treat its workforce in a decent manner. This issue has obviously not been handled in that way. Would you also agree that this is a loss of yet more highly skilled and highly paid manufacturing jobs in north-east Wales? You have already made the point this afternoon that this is an area that could look quite prosperous on paper. However, the jobs that are being developed in this area are service industry or public sector jobs, which are not sustainable and which are susceptible, should there be a downturn in the economy and the market. What will you do to support companies in this area—such Sharp, which has already been mentioned—that may want to develop, but need support from your Government? Will you give a guarantee that you will do everything that you can to support the existing or remaining manufacturing jobs in that area and try to keep those highly skilled, highly paid jobs, instead of just seeing them all turned over to the service industries?

3.30 p.m.

Andrew Davies: To say that we are losing manufacturing jobs and gaining only service-

cyhoeddiad hwn i ddod o hyd i waith arall, os ydynt yn dymuno hynny, neu i fanteisio ar hyfforddiant sgiliau neu addysg. Beth bynnag y byddant yn dymuno'i wneud, gallwn eu helpu a chynnig y cymorth pwrpasol hwnnw iddynt.

Ynghylch y diffyg ymgynghori, fel yn achos Burberry, mae'n siomedig bod cwmnïau heb roi gwybod i'w gweithwyr beth sy'n digwydd. Ni chredaf y dylai dim un cwmni sydd â siarter cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, a pholisi sy'n nodi ymrwymiad i les gweithwyr ac i helpu gweithwyr i elwa o ffyniant a llwyddiant y cwmni, drin gweithwyr fel hyn. Mae hynny'n peri gofid mawr. Yn fy mhrofiad i o ddiwydiant, y cwmnïau lle mae'r rheolwyr a'r undebau yn gweithio â'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth yn agored yw'r rhai mwyaf arloesol a llwyddiannus, yn economaidd ac yn ariannol.

Janet Ryder: Hoffwn adleisio llawer o'r pryderon y mae Karen Sinclair newydd eu codi; mae gan gwmni gyfrifoldeb i drin ei weithlu gyda pharch. Yn amlwg, nid yw'r mater hwn wedi'i drin felly. A ydych hefyd yn cytuno bod hyn yn golygu colli mwy eto o swyddi gweithgynhyrchu hyfedr sy'n talu'n dda o ogledd-ddwyrain Cymru? Gwnaethoch y pwynt eisoes y prynhawn yma fod hon yn ardal a allai edrych yn bur ffyniannus ar ddu a gwyn. Fodd bynnag, mae'r swyddi sy'n cael eu datblygu yn yr ardal hon yn y diwydiant gwasanaeth neu'r sector cyhoeddus, ac felly'n rhai anghynaliadwy a bregus, os bydd yr economi a'r farchnad yn colli tir. Beth a wnewch i gefnogi cwmnïau yn yr ardal hon—rhai fel Sharp, y soniwyd amdano eisoes—sydd efallai am ddatblygu, ond sydd angen cymorth gan eich Llywodraeth chi arnynt? A allwch ein sicrhau y byddwch yn gwneud popeth posibl i gynnal y swyddi gweithgynhyrchu presennol neu sydd ar ôl yn yr ardal hon ac yn ceisio cadw'r swyddi hyfedr hynny sy'n talu'n dda, yn hytrach na gweld y cyfan yn cael eu trosglwyddo i'r diwydiannau gwasanaeth?

Andrew Davies: Nid yw'n gywir dweud ein bod yn colli swyddi gweithgynhyrchu ac yn

sector jobs is not true and is a counsel of despair. I feel that manufacturing has a robust future in north-east Wales. Airbus, the largest private sector employer in Wales, is in that area and the company is expanding with assistance from the Assembly Government. It is in an assisted area of Wales and we are able to help it financially. Unfortunately, in the case of financial assistance, we cannot offer that type of support to companies in Wrexham, because they are not on the assisted area map. Overall, if you look at the Welsh economy, you will see that there have been significant changes in the last 10 years, and the idea that we are somehow losing high-paid jobs and gaining only low-paid jobs is not supported by the evidence. In fact, Wales has probably done as well, if not better, than most other parts of the UK in gaining higher added value or highly paid jobs. We have tended to lose jobs in the middle sector, but the biggest growth in employment, in terms of income, has been in those higher sector jobs. That feeds through and that is why the statistics for average weekly earnings and a whole range of other indicators show that growth in Wales has exceeded that for the rest of the United Kingdom. We want to work with manufacturers and the unions, and we will certainly help those affected by Duracell's decision into alternative employment or training.

Carl Sargeant: I share the concerns expressed by my colleague, Karen Sinclair, and some of the opposition members. Interestingly, Eleanor Burnham was interested in Wrexham council and Mark Isherwood was interested in the Federation of Small Businesses, but no-one mentioned the people who make up the company workforce. I have spoken to many of them, and many of them live in my constituency of Alyn and Deeside.

Funding issues are crucial to the future. Another interesting point, Minister, is the fact that during an Assembly debate on convergence funding, it was the Conservatives and the Liberal Democrats

ennill swyddi sector gwasanaeth yn unig ac mae'n gyngor anobaith. Teimlaf fod gan weithgynhyrchu ddyfodol cadarn yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae Airbus, y cyflogwr sector preifat mwyaf yng Nghymru, yn yr ardal hon ac mae'r cwmni'n ehangu â chymorth gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae mewn ardal a gynorthwyir yng Nghymru a gallwn ei helpu'n ariannol. Yn anffodus, yn achos cymorth ariannol, ni allwn gynnig y math hwn o gymorth i gwmnïau yn Wrecsam, gan nad ydynt ar fap yr ardaloedd a gynorthwyir. Yn gyffredinol, os edrychwch ar economi Cymru, gwelwch fod llawer o newidiadau wedi digwydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ac nid yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r syniad ein bod rywsut yn colli swyddi cyflogau uchel a dim ond yn ennill swyddi cyflogau isel. Mewn gwirionedd, mae'n debyg bod Cymru wedi gwneud cystal, os nad yn well, na'r rhan fwyaf o rannau eraill y DU o ran ennill swyddi gwerth ychwanegol uwch neu swyddi cyflogau uchel. Yr ydym wedi tueddu i golli swyddi yn y sector canol, ond mae'r cynnydd mwyaf mewn cyflogaeth, o ran incwm, wedi bod yn y swyddi sector uwch hynny. Mae hynny'n dod i'r amlwg a dyna pam mae'r ystadegau ar gyfer enillion wythnosol cyfartalog ac ystod eang o ddangosyddion eraill yn dangos bod Cymru wedi gweld mwy o gynnydd na gweddill y Deyrnas Unedig. Yr ydym yn awyddus i weithio gyda gweithgynhyrchwyr a'r undebau, a byddwn yn sicr yn helpu'r rhai hynny y mae penderfyniad Duracell yn effeithio arnynt i ddod o hyd i waith arall neu hyfforddiant.

Carl Sargeant: Yr wyf yn cyd-fynd â'r pryderon a fynegwyd gan fy nghyd-Aelod, Karen Sinclair, a rhai aelodau o'r wrthblaid. Yn ddiddorol iawn, yr oedd gan Eleanor Burnham ddiddordeb yng nghyngor Wrecsam ac yr oedd gan Mark Isherwood ddiddordeb yn Ffederasiwn Busnesau Bach, ond ni chyfeiriodd neb at y bobl sy'n rhan o weithlu'r cwmni. Yr wyf wedi siarad â llawer ohonynt, ac mae llawer ohonynt yn byw yn fy etholaeth i, sef Alun a Glannau Dyfrdwy.

Mae materion yn ymwneud â chyllid yn bwysig iawn ar gyfer y dyfodol. Pwynt diddorol arall, Weinidog, yw'r ffaith mai'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol a ddywedodd, yn ystod dadl yn y Cynulliad ar

who said that north-east Wales should not feature, but that the funding should be drawn down to south Wales, whereas Rhodri Morgan and you made a strong case to the Department of Trade and Industry to ensure that north-east Wales was featured.

Minister, I hope that you can give me some assurances that you will be designating officers to help to support the workforce devastated by the announcement of 109 job losses. While the north-east Wales manufacturing economy is quite buoyant, the fact is that people are losing their jobs. This terrible blow will affect not only 109 people, but also their families. Can you assure me that you will give of officers' time? From now, they are in a 90-day consultation period and I think that it is important that we get in there early to support the workforce of north-east Wales, particularly the Duracell workers.

Andrew Davies: Obviously, I give that commitment. As Team Wales, we will do everything that we can to help those affected. Losing your job and your income in this way, without advance warning, must be one of the biggest shocks that anyone can experience. It is not only the individuals concerned who are affected, but also their families and local communities. We have a well-oiled machine, which will now go into operation to help those affected. The assistance will be based on interviewing each of the employees, doing an audit of their skills base and experience and trying to identify what they want to do next, which may mean employment, skills training, setting up their own business or whatever it might be. We will certainly give focused attention to their needs.

arian cydgyfeirio, na ddylai gogledd-ddwyrain Cymru gael ei gynnwys, ond y dylai'r arian gael ei gyfeirio i dde Cymru, tra bo Rhodri Morgan a chithau wedi cyflwyno dadl gref i'r Adran Diwydiant a Masnach er mwyn sicrhau bod gogledd-ddwyrain Cymru yn cael ei gynnwys.

Weinidog, gobeithiaf y gallwch roi rhywfaint o sicrwydd imi y byddwch yn penodi swyddogion i helpu i gefnogi'r gweithlu sydd wedi cael ergyd aruthrol o glywed y cyhoeddiad hwn ynglŷn â cholli 109 o swyddi. Er bod economi gweithgynhyrchu gogledd-ddwyrain Cymru yn dal ei thir yn bur dda, y gwir amdani yw bod pobl yn colli eu swyddi. Bydd yr ergyd enbyd hon yn effeithio nid yn unig ar 109 o bobl, ond hefyd ar eu teuluoedd. A allwch roi sicrwydd imi y byddwch yn neilltuo amser swyddogion? O hyn ymlaen, maent mewn cyfnod ymgynghori 90 diwrnod a chredaf ei bod yn bwysig inni fynd yno yn fuan er mwyn cefnogi gweithlu gogledd-ddwyrain Cymru, yn enwedig gweithwyr Duracell.

Andrew Davies: Wrth gwrs, yr wyf yn addo hynny. Fel Tîm Cymru, byddwn yn gwneud popeth sydd yn ein gallu i helpu'r rhai y mae hyn yn effeithio arnynt. Mae colli eich swydd a'ch incwm fel hyn, heb rybudd ymlaen llaw, yn siŵr o fod yn un o'r ergydion mwyaf y gall rhywun ei gael. Mae'n effeithio ar yr unigolion, a hefyd ar eu teuluoedd ac ar gymunedau lleol. Mae gennym drefniadau ar gyfer hyn, a byddant yn cael eu rhoi ar waith yn awr er mwyn helpu'r rhai y bydd hyn yn effeithio arnynt. Bydd y cymorth yn seiliedig ar gyfweild pob un o'r gweithwyr, gwneud archwiliad o'u sylfaen sgiliau a'u profiad a cheisio canfod beth sydd arnynt eisiau ei wneud nesaf. Gallai hyn fod yn gyflogaeth, hyfforddiant sgiliau, sefydlu eu busnes eu hunain neu beth bynnag y bo. Byddwn yn sicr yn canolbwyntio ar eu hanghenion.

Datganiad Busnes Business Statement

The Deputy Presiding Officer has determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration:

Mae'r Dirprwy Lywydd wedi penderfynu nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth ati bwyllgor pwnc am ystyriaeth estynedig:

the Commissioner for Older People (Wales) Act 2006 (Commencement) Order 2006; the Environmental Noise (Wales) Regulations 2006; the Paying Agency (National Assembly for Wales) (Amendment) Regulations 2006; the Youth and Community Work Education and Training (Inspection) (Wales) Regulations 2006;

Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006; Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006; Rheoliadau'r Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006; Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant Ieuencid a Gwaith Cymunedol (Arolwg) (Cymru) 2006;

and the following item has been referred to the Environment, Planning and Countryside Committee for consideration with a remit to report back within two weeks:

a chyfeiriwyd yr eitem isod i'w hystyried gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad â chylch gwaith o adrodd yn ôl cyn pen pythefnos:

the Feeding Stuffs (Wales) (Amendment) Regulations 2006.

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006.

The Business Minister (Jane Hutt): I have just one change to report to this week's business: the motion to amend Standing Orders has been moved to next Wednesday, 27 September. On the next three weeks' business, the draft business statement can be found on the Chamberweb under 'supporting documents'.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Dim ond un newid sydd gennyf i adrodd amdano i fusnes yr wythnos hon: mae'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog wedi ei symud i ddydd Mercher nesaf, 27 Medi. O ran busnes y tair wythnos nesaf, mae'r datganiad busnes drafft i'w weld ar we'r Siambr dan 'dogfennau ategol'.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiad i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes 10 gwrthwynebiad, felly galwaf am sylwadau ar y datganiad busnes.

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are not 10 objections, so I ask for comments on the business statement.

Lisa Francis: As the Business Committee minutes for the meeting on 11 July reveal, your Government has committed itself to a debate on the NHS, scheduled for the first half of this term. We very much look forward to its now being held on 18 October, as set out in the statement sent around earlier.

Lisa Francis: Fel y dengys cofnodion y Pwyllgor Busnes ar gyfer y cyfarfod ar 11 Gorffennaf, mae eich Llywodraeth wedi ymrwmo i gynnal dadl ar y GIG, yn ystod hanner cyntaf y tymor hwn. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y ddatl hon a gynhelir yn awr ar 18 Hydref, fel y nodwyd yn y datganiad a anfonwyd o amgylch yn gynharach.

Today, the Welsh Conservative group requested a statement on the effectiveness of regional selective assistance grant award schemes and the state of inward investment in Wales. We are disappointed that you do not feel inclined to give this. We cannot support the business statement for that reason. Your Government's reluctance to hold a debate on job losses in the manufacturing industry is particularly disturbing. Similarly, your Government needs to recognise the importance of holding a debate—which we also asked for this morning—on tourism, particularly in the

Heddiw, gofynnodd grŵp Ceidwadwyr Cymru am ddatganiad ynglŷn ag effeithiolrwydd cynlluniau dyfarnu grantiau cymorth rhanbarthol dewisol a chyflwr mewnfuddsoddi yng Nghymru. Yr ydym yn siomedig nad ydych yn awyddus i roi'r datganiad hwn. Ni allwn gefnogi'r datganiad busnes am y rheswm hwnnw. Mae cyndynrwydd eich Llywodraeth i gynnal dadl ar golli swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu yn peri pryder mawr. Yn yr un modd, mae angen i'ch Llywodraeth gydnabod pwysigrwydd cynnal dadl—y gofynasom amdani y bore yma hefyd—ar

light of a proposed new bed tax and given how your Government now intends to market Wales as a tourism destination.

We acknowledge the fact that you have offered to schedule a statement on the milk industry later this week, but what was actually asked for this morning was a debate on it. I therefore ask you to reconsider that request.

Alun Ffred Jones: We had asked for a statement on the claim that the number of RSA-supported jobs was not as great as had been claimed, but I understand that we can pursue that matter elsewhere. However, several questions remain, and we want confirmation of why the jobs were not created, whether because they did not attract the grant in the first place or whether a grant was awarded and subsequently repaid. I hope that we can have some clarification of that, if not here in Plenary, then in committee at some point in the future.

Kirsty Williams: Perhaps it is not surprising that the Minister for Enterprise, Innovation and Networks would rather not answer questions on RSA in the full glare of the Chamber, but we will reserve judgment as to whether we still require a debate on RSA and the potential failure of the Government to meet its RSA objectives until we see the Minister's ability to answer questions on this matter in tomorrow's committee meeting.

The Business Minister (Jane Hutt): Lisa, I am glad that you welcomed my positive response to the requests that came before me this morning. I am therefore surprised by the less-than-positive response in terms of the questions asked. Lisa, have you read my responses? The Minister for Enterprise, Innovation and Networks has agreed to schedule a debate on the tourism industry. The Minister for Health and Social Services has agreed to table a debate on the NHS, as you reflected, from 11 July. It is all there in the forward work programme. Indeed, with regard to manufacturing, it was only on 17 May that we had our last debate, and, as we have heard today, in answers to the urgent questions, the Minister is always prepared to come forward to respond to these issues.

dwrstiaeth, yn enwedig yng ngoleuni treth welyau newydd arfaethedig ac o ystyried sut y mae eich Llywodraeth yn awr yn bwriadu marchnata Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr.

Yr ydym yn cydnabod y ffaith eich bod wedi cynnig gwneud datganiad am y diwydiant llaeth yn ddiweddarach yr wythnos hon, ond yr hyn y gofynnwyd amdano mewn gwirionedd y bore yma oedd dadl arno. Gofynnaf felly ichi ailystyried y cais hwnnw.

Alun Ffred Jones: Yr oeddem wedi gofyn am ddatganiad am yr honiad bod nifer y swyddi sydd wedi cael cymorth RSA yn llai na'r hyn a oedd wedi'i honni, ond deallaf y gallwn fynd ar ôl y mater hwnnw yn rhywle arall. Fodd bynnag, erys nifer o gwestiynau, a hoffem ichi gadarnhau pam na chrëwyd y swyddi hyn, ai am na lwyddasant i ddenu'r grant yn y lle cyntaf ynteu a gafodd grant ei ddyfarnu ac yna'i ad-dalu. Gobeithiaf y gallwn gael rhyw eglurhad ar y mater hwnnw, os nad yma yn y Cyfarfod Llawn, yna yn y pwyllgor rywbryd yn y dyfodol.

Kirsty Williams: Efallai nad yw'n syndod y byddai'n well gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau beidio ag ateb cwestiynau ar RSA o flaen pawb yn y Siambr, ond ni fyddwn yn penderfynu a oes arnom angen dadl o hyd ar RSA a methiant posibl y Llywodraeth i gyflawni ei hamcanion RSA hyd nes y gwelwn sut y mae'r Gweinidog yn ateb cwestiynau ar y mater hwn yng nghyfarfod y pwyllgor yfory.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Lisa, yr wyf yn falch eich bod wedi croesawu fy ymateb cadarnhaol i'r ceisiadau a ddaeth ger fy mron y bore yma. Yr wyf yn synnu felly o glywed yr ymateb llai na chadarnhaol o ran y cwestiynau a ofynnwyd. Lisa, a ydych wedi darllen fy atebion? Mae'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau wedi cytuno i gynnal dadl ar y diwydiant twristiaeth. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i gynnal dadl ar y GIG, fel y dywedaso, ers 11 Gorffennaf. Mae popeth yn y flaenraglen waith. Yn wir, gyda golwg ar weithgynhyrchu, cawsom ein dadl ddiwethaf ar 17 Mai, ac, fel yr ydym wedi clywed heddiw, mewn atebion i'r cwestiynau brys, mae'r Gweinidog bob amser yn barod i ddod

ymlaen ac ymateb i'r materion hyn.

However, as Alun Ffred said, the place to discuss RSA issues is in committee. You have accepted that that is the right place to recognise this. As the First Minister said in response to questions earlier, is there a parallel universe with these issues? Since 1999, 59 offers of RSA worth £41 million were offered to businesses just in the constituency of Islwyn, with that wonderful example of General Dynamics. Tomorrow's committee meeting is the place where the Minister for Enterprise, Innovation and Networks will discuss this matter fully with you, and I look forward to the forward work programme debate tomorrow.

Fodd bynnag, fel y dywedodd Alun Ffred, y lle i drafod materion RSA yw yn y pwyllgor. Yr ydych wedi derbyn mai dyna'r lle priodol i gydnabod hyn. Fel y dywedodd y Prif Weinidog wrth ymateb i gwestiynau yn gynharach, a oes bydysawd cyfochrog gyda'r materion hyn? Ers 1999, gwnaethpwyd 59 cynnig o RSA gwerth £41 miliwn i fusnesau yn etholaeth Islwyn yn unig, gyda'r enghraifft wych honno, General Dynamics. Cyfarfod y pwyllgor yfory yw'r man lle y bydd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau yn trafod y mater hwn yn llawn gyda chi, ac edrychaf ymlaen at y ddadl ar y flaenraglen waith yfory.

**Cymeradwyo Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2006 o dan
Reol Sefydlog Rhif 29.3(iii)
Approval of the Assembly Learning Grant (Further Education) Scheme 2006
under Standing Order No. 29.3(iii)**

The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Davidson): I propose that

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 29.3(iii):

considers the principle of the Assembly Learning Grant (Further Education) Scheme 2006, a draft of which was laid in the Table Office on 4 July 2006. (NDM3195)

I propose that:

the National Assembly for Wales:

1. considers the report of the Legislation Committee in relation to the Assembly Learning Grant (Further Education) Scheme 2006 laid in the Table Office on 11 July 2006; and

2. acting under Standing Order No. 29.3(iii) approves the Assembly Learning Grant (Further Education) Scheme 2006 made in accordance with the draft laid in the Table Office on 4 July 2006. (NDM3196)

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson): Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 29.3(iii):

yn ystyried egwyddor Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2006, y gosodwyd drafft ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2006. (NDM3195)

Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2006 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2006; a

2. gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 29.3(iii) yn cymeradwyo bod Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2006 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2006. (NDM3196)

William Graham: Are we taking items 3, 4 and 5 together?

The Presiding Officer: We are not, no. There does not seem to be much action surrounding them. [*Laughter.*]

William Graham: We will try to improve on that.

The Presiding Officer: Thank you.

3.40 p.m.

William Graham: Minister, we have qualified our support for these measures in asking for regular reviews to ensure that they reach the goals that the Minister has set previously. We share the desire to extend social inclusion to every level of education, and we seek to ensure the widest learning opportunities for everyone who is able to gain the relevant entry qualification to the higher or further education course of their choice, regardless of their financial circumstances. Therefore, it gives us great concern that the latest figures indicate that, far from extending social inclusion opportunities, they appear to be restricting them. Assembly learning grants awarded in 2002-03 totalled 18,810. Sadly, this figure declined to 17,030 for 2004-05 and the latest figures for 2005-06 show a further decline to 14,170. The number of awards for further education students has remained constant at 2 per cent, while, for higher education students, there has been a decline from 17 per cent to 12 per cent. Although we continue to support these measures, we feel it necessary to ask the Minister to answer these questions and to give assurances to the Assembly, and to current and future students.

Jeff Cuthbert: Hopefully, there will be some activity now, Presiding Officer. [*Interruption.*] Just listen. Time passes, progress is reached, but it is not certain. We must fight for progress every step of the way. We are making strong progressive steps: the Assembly learning grant and the educational maintenance allowance, which we will refer to later, are enduring signs of our

William Graham: A ydym yn cymryd eitemau 3, 4 a 5 gyda'i gilydd?

Y Llywydd: Nac ydym. Nid yw'n ymddangos bod llawer iawn yn digwydd ynglŷn â hwy. [*Chwerthin.*]

William Graham: Ceisiwn wella hynny.

Y Llywydd: Diolch.

William Graham: Weinidog, yr ydym wedi amodi ein cefnogaeth i'r mesurau hyn drwy ofyn am adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion a nodwyd gan y Gweinidog yn gynharach. Yr ydym yn cyd-fynd â'r awydd i ymestyn cynhwysiant cymdeithasol i bob agwedd ar addysg, ac yn ceisio sicrhau'r cyfleoedd dysgu ehangaf i bawb sy'n gallu cael y cymhwyster mynediad perthnasol ar gyfer y cwrs addysg uwch neu bellach o'i ddewis, beth bynnag fo'i amgylchiadau ariannol. Felly, mae'n peri cryn bryder inni fod y ffigurau diweddaraf yn awgymru eu bod fel pe baent yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol yn hytrach na'u hymestyn. Yr oedd cyfanswm y grantiau dysgu a ddyfarnwyd gan y Cynulliad yn 2002-03 yn 18,810. Yn anffodus, aeth y ffigur hwn i lawr i 17,030 ar gyfer 2004-05 a dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer 2005-06 ostyngiad pellach i 14,170. Mae nifer y grantiau ar gyfer myfyrwyr addysg bellach wedi aros yn gyson ar 2 y cant, tra bo myfyrwyr addysg uwch wedi gweld gostyngiad o 17 y cant i 12 y cant. Er ein bod yn parhau i gefnogi'r mesurau hyn, teimlwn fod angen gofyn i'r Gweinidog ateb y cwestiynau hyn a rhoi sicrwydd i'r Cynulliad, ac i'r myfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol.

Jeff Cuthbert: Gyda lwc, bydd rhywbeth yn digwydd yn awr, Lywydd. [*Torri ar draws.*] Gwrandewch. Mae amser yn mynd yn ei flaen, mae cynnydd yn cael ei wneud, ond nid oes sicrwydd. Rhaid inni ymladd am gynnydd bob cam o'r ffordd. Mae pethau'n symud yn eu blaenau'n dda: mae grant dysgu'r Cynulliad a'r lwfans cynhaliath addysg, y cyfeiriwn ato yn nes ymlaen, yn

commitment to social justice and to securing a level playing field. We are helping many young people—from my constituency, for example—and, indeed, many other older people to achieve further qualifications that improve their quality of life. A report by UCAS, released just over two weeks ago, showed that the 7.5 per cent increase in the number of Welsh students at our universities is directly related to the introduction of the Assembly learning grant. Indeed, more than 50 per cent of our first year students will be Welsh, and the Assembly learning grant has undoubtedly contributed to this.

The statistics are proof that students understand the benefit that a degree or higher level qualification can bring. The average graduate wage in 2004 was £27,900, compared with £19,200 for those who did not have a degree. Students know that higher and further education will deliver financial rewards, and the Assembly learning grant statistics prove that they understand this.

Of course, there is room for improvement. Increasing the total mass of students is not enough by itself to ensure that our economy is equipped with the right mix of skills to face global challenges, to which we referred in other ways earlier. Globalisation now affects all our communities. The recent discussions about Duracell and Burberry are evidence of this. If we are to compete, we need to give people incentives to take the tough degrees and higher qualifications that our economy needs.

Today, the day on which we launch and debate our science policy, we must encourage people not to turn their backs on science and mathematics qualifications. Such skills are vital to meet Wales's technological needs. The Assembly learning grant aimed at physics or maths students may be needed as a specialist part of a package of incentives to target our skills gaps.

I welcome the opportunity to vote through the increases to the Assembly learning grant.

arwyddion cyson o'n hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol ac i sicrhau'r un chwarae teg i bawb. Yr ydym yn helpu llawer o bobl ifanc—o'm hetholaeth i, er enghraifft—a llawer o bobl eraill hŷn, mewn gwirionedd, i ennill rhagor o gymwysterau sy'n gwella ansawdd eu bywydau. Dangosodd adroddiad gan UCAS, a ryddhawyd ychydig dros bythefnos yn ôl, fod cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnydd o 7.5 y cant yn nifer y myfyrwyr o Gymru yn ein prifysgolion a chyflwyno grant dysgu'r Cynulliad. Yn wir, bydd mwy na 50 y cant o'n myfyrwyr blwyddyn gyntaf yn Gymru, ac mae grant dysgu'r Cynulliad yn sicr wedi cyfrannu tuag at hyn.

Mae'r ystadegau'n brawf bod myfyrwyr yn gweld mantais gradd neu gymhwyster uwch. Yr oedd cyflog cyfartalog graddedigion yn 2004 yn £27,900, o'i gymharu â £19,200 ar gyfer y rhai a oedd heb radd. Mae myfyrwyr yn gwybod y bydd addysg uwch a phellach yn arwain at wobrau ariannol, ac mae ystadegau grant dysgu'r Cynulliad yn profi eu bod yn deall hyn.

Wrth gwrs, mae lle i wella. Nid yw cynyddu cyfanswm y myfyrwyr yn ddigon ynddo'i hun i sicrhau bod ein heconomi yn cael y cyfuniad priodol o sgiliau i wynebu heriau byd-eang, y cyfeiriasom ato mewn ffyrdd eraill yn gynharach. Mae globaleiddio yn effeithio ar bob un o'n cymunedau erbyn hyn. Mae'r trafodaethau diweddar ynglŷn â Duracell a Burberry yn dystiolaeth o hyn. Os ydym am gystadlu, mae angen inni gymell pobl i weithio'n galed er mwyn cael y graddau a'r cymwysterau uwch y mae ar ein heconomi eu hangen.

Heddiw, y diwrnod yr ydym yn lansio ac yn trafod ein polisi gwyddoniaeth, rhaid inni annog pobl i beidio â throi eu cefnau ar gymwysterau gwyddoniaeth a mathemateg. Mae sgiliau o'r fath yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion technolegol Cymru. Mae'n bosibl y bydd angen grant dysgu'r Cynulliad, sydd wedi ei anelu at fyfyrwyr ffiseg neu fathemateg, fel rhan arbenigol o becyn o gymhellion i dargedu'r meysydd lle y mae prinder sgiliau.

Yr wyf yn croesawu'r cyfle i bleidleisio o blaid y cynnydd yn grant dysgu'r Cynulliad.

The proportion of jobs requiring higher level skills is rising, so it is fitting that the Assembly Government's commitment to investing in those skills rises accordingly.

The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Davidson):

There are three schemes before us today. The first, which we are debating at the moment, is for further education. The second, which we will look at, is in terms of higher education for those who are currently in receipt of an Assembly learning grant, and who are continuing to be in receipt of that alongside the new higher education grant introduction. The third scheme is in terms of the education maintenance allowance. All schemes are, in fact, just upratings. We have to do the upratings every year. I assure William and others that we will continue to monitor the figures, but they are demand-led schemes, so we are always actively encouraging students to benefit from them.

Mae cyfran y swyddi sydd angen sgiliau uwch yn cynyddu, felly mae'n briodol bod ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i fuddsoddi yn y sgiliau hyn yn cynyddu i gydfynd â hynny.

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):

Mae tri chynllun ger ein bron heddiw. Mae'r cyntaf, yr ydym yn ei drafod ar hyn o bryd, ar gyfer addysg bellach. Mae'r ail, y byddwn yn edrych arno, yn ymwneud ag addysg uwch i'r rhai sy'n derbyn grant dysgu'r Cynulliad ar hyn o bryd, ac sy'n dal i dderbyn y grant hwnnw ochr yn ochr â'r grant addysg uwch newydd. Mae'r trydydd cynllun yn ymwneud â'r lwfans cynhالياeth addysg. Yr hyn y mae pob un o'r cynlluniau'n ei wneud, mewn gwirionedd, yw uwchraddio. Mae'n rhaid inni uwchraddio bob blwyddyn. Gallaf sicrhau William ac eraill y byddwn yn dal i fonitro'r ffigurau, ond maent yn gynlluniau sy'n cael eu harwain gan y galw, felly yr ydym bob amser yn annog myfyrwyr i elwa ohonynt.

Cynnig (NDM3195): O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion (NDM3195): For 44, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Tynnaf sylw'r Cynulliad at waith yr Arglwydd Roberts o Landudno, a wnaeth gymaint i dynnu sylw'r byd at anghyfiawnder y modd yr ymdriniodd Corfforaeth Dinas Lerpwl â boddi Tryweryn. A minnau'n adnabod yr Arglwydd Roberts ers blynyddoedd, yr oeddwn yn falch bod ei ymdrechion wedi cael eu cydnabod. Yng nghwm Elan, gwrthododd Corfforaeth Dinas

accept the damage caused to the lives of a great many people, and offered a pittance. However, this gives some recognition, allowing us to move on from this situation to look at innovation and to get a bigger benefit for the people of Wales from the water that we own.

4.10 p.m.

Brynle Williams: I propose amendment 4 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

recognises the market value of water as a commodity and calls on the Welsh Assembly Government to ensure that Wales receives appropriate recognition for any future supply beyond its borders.

At the heart of this amendment is the realisation that water is a finite resource that will be the subject of increasingly severe demands over the coming decades. Global warming is set to make serious droughts more frequent and, obviously, very severe. The south-east of England, which is the area worst hit by droughts, is undergoing a massive house-building programme and that will place enormous strain on a system that is already rife with leakages and poor investment by Thames Water. I believe that it is leaking around 1 billion litres of water a day. This is why it is important to recognise now that water is a commodity with a market value. Safeguards must be put in place to protect Welsh communities and landowners from water being supplied to areas outside Wales.

The Environment Agency may have put plans for a grid on hold for the immediate future, but one is looking increasingly likely for 2020 and beyond. Given that the Secretary of State will have the power to overrule the Assembly on any action that may adversely affect the water supply in England, this issue needs to be resolved at the earliest opportunity. It is obvious that we cannot have another Tryweryn. Like Alun Ffred, I have close connections with Tryweryn, with Capel Celyn, and I remember it well. There has to be an agreement on this or Wales could suffer the effects of a drought

Birmingham, ers amser maith, dderbyn y difrod a wnaethpwyd i fywydau llawer iawn o bobl, gan gynnig swm pitw. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi rhyw gymaint o gydnabyddiaeth, gan ganiatáu inni symud ymlaen o'r sefyllfa hon i edrych ar arloesi a chael mwy o fantais i bobl Cymru o'r dŵr sydd yn eiddo inni.

Brynle Williams: Cynigiau welliant 4 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cydnabod gwerth dŵr ar y farchnad fel nwydd ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Cymru'n derbyn cydnabyddiaeth briodol am unrhyw gyflenwad dros ei ffiniau i'r dyfodol.

Wrth wraidd y gwelliant hwn mae sylweddoli nad yw dŵr yn adnodd diderfyn ac y bydd galwadau mwyfwy taer amdano dros y degawdau i ddod. Gyda chynhesu byd-eang daw pyliau o sychder difrifol yn bethau mwy mynych, ac enbyd iawn, wrth reswm. Yn neddwyrain Lloegr, sef yr ardal sydd yn dioddef fwyaf gan sychder, mae rhagen enfawr o adeiladu tai ar droed, a bydd hynny'n rhoi straen aruthrol ar system sydd eisoes yn rhemp oherwydd gollwng dŵr a diffyg buddsoddi gan Thames Water. Credaf ei bod yn gollwng tua 1 biliwn litr o ddŵr y dydd. Dyna pam mae'n bwysig cydnabod yn awr fod dŵr yn nwydd sydd â gwerth ar y farchnad. Rhaid rhoi mesurau i amddiffyn ar waith i ddiogelu cymunedau a thirfeddianwyr Cymru rhag colli dŵr i ardaloedd y tu allan i Gymru.

Efallai fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gohirio cynlluniau ar gyfer grid am y tro, ond mae'n edrych yn fwyfwy tebygol ar gyfer 2020 ac wedi hynny. O gofio y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol y grym i ddyfarnu yn erbyn y Cynulliad ar unrhyw weithred a allai effeithio'n andwyol ar y cyflenwad dŵr yn Lloegr, mae angen datrys y mater hwn cyn gynted ag y bo modd. Mae'n amlwg na allwn dderbyn Tryweryn arall. Fel Alun Ffred, mae gennyf gysylltiadau agos â Thryweryn, â Chapel Celyn, ac yr wyf yn ei gofio'n dda. Rhaid cael cytundeb ar hyn neu gallai Cymru ddioddef effeithiau sychder yn rhywle arall,

elsewhere, as a result of its water being transported out. There must not be a situation where water is supplied out of Wales only to leak into the Thames valley. This must be addressed before it gets worse.

Apart from questions about the national water grid, there must be much greater emphasis on water conservation and recycling. The Government should be looking to those countries without natural water assets to see how it can make better use of grey water and reduce waste. There are plenty of opportunities for business and private individuals to reduce wastage without hardship, by simply changing their behaviour and investing in water saving appliances. We are doing it with gas and electricity, but why is it that water is too cheap? Why are we leaving water out?

The Assembly Government has a duty to ensure that any future supply of water outside Wales does not occur under terms that will short change the country. Recognising the market value of water, under any national grid, would help to ensure that Wales's water supply was not compromised and that the private companies receiving and transporting this commodity would have the motivation to invest in their infrastructure.

Leanne Wood: Although we have seen plenty of examples of local difficulties this summer, water is now a problem everywhere in the world. Previously, water shortages have been a problem faced by the poor, but the World Wildlife Fund has recently reported that the issue is now increasingly affecting wealthier nations. As has already been said, here in the UK, huge amounts of water are wasted because of leakages in the pipes. The world situation, coupled with the waste, could result in water companies looking to Wales for water reserves in the future. Section 101(1)(b) of the Government of Wales Act 2006 gives the Secretary of State for Wales the right to strike down any Assembly Measures that

'might have a serious adverse impact on water resources in England, water supply in England or the quality of water in England'.

wrth i'w dŵr gael ei gludo allan. Ni ellir caniatáu sefyllfa lle y caiff dŵr ei gyflenwi allan o Gymru a'r dŵr hwnnw'n gollwng o'r pibellau i bridd dyffryn Tafwys. Rhaid rhoi sylw i hyn cyn i'r sefyllfa waethygu.

Ar wahân i gwestiynau am y grid dŵr cenedlaethol, rhaid rhoi llawer mwy o bwyslais ar gadw ac ailgylchu dŵr. Dylai'r Llywodraeth fod yn edrych ar y gwledydd hynny sydd heb asedau dŵr naturiol i weld sut y gall wneud gwell defnydd o ddŵr llwyd a lleihau gwastraff. Mae digonedd o gyfleoedd i fusnesau ac unigolion leihau gwastraff heb ddiodeff caledi, yn syml drwy newid eu hymddygiad a buddsoddi mewn offer i arbed dŵr. Yr ydym yn gwneud hyn gyda nwy a thrydan, ond pam mae dŵr yn rhy rad? Pam nad ydym yn cynnwys dŵr?

Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad sicrhau na fydd cyflenwi dŵr allan o Gymru yn y dyfodol yn digwydd dan delerau a fydd yn gwneud cam â'r wlad. Byddai cydnabod gwerth dŵr ar y farchnad, dan unrhyw gynllun grid cenedlaethol, yn helpu i sicrhau na pheryglid cyflenwad dŵr Cymru ac y byddai gan y cwmnïau preifat a fyddai'n derbyn ac yn cludo'r nwydd hwn y cymhelliad i fuddsoddi yn eu seilwaith.

Leanne Wood: Er ein bod wedi gweld digonedd o enghreifftiau o anawsterau lleol yr haf hwn, mae dŵr bellach yn broblem ym mhobman yn y byd. Gynt, problem a wynebai'r tlodion oedd prinder dŵr, ond mae Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd wedi cyhoeddi'n ddiweddar fod y broblem erbyn hyn yn effeithio fwyfwy ar genhedloedd cyfoethocach. Fel y dywedwyd eisoes, yma yn y Deyrnas Unedig, caiff symiau enfawr o ddŵr eu gwastraffu oherwydd gollyngiadau yn y pibellau. Gallai sefyllfa'r byd, ochr yn ochr â'r gwastraff, olygu bod cwmnïau dŵr yn edrych at Gymru am adnoddau dŵr yn y dyfodol. Mae adran 101(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi'r hawl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrthod unrhyw Fesurau gan y Cynulliad

a allai gael effaith andwyol ddifrifol ar adnoddau dŵr yn Lloegr, cyflenwad dŵr yn Lloegr neu ansawdd dŵr yn Lloegr.

In practice, that means that if the Assembly wanted to legislate to stop water wastage and to stop the drowning of further villages, such as Tryweryn, those Measures could be struck down by the Secretary of State for Wales. My Plaid Cymru colleagues in Westminster, when attempting to amend the Government of Wales Bill to delete clause 101(1)(b), were told that this clause would only be invoked in an emergency. I would like to know what kind of emergency that would be, because the Civil Contingencies Act 2004 would prevent us from switching off the tap to England. What emergencies could there be that are not covered by the Civil Contingencies Act 2004?

The biggest cause of water shortage is leaking pipes. What incentive is there for water companies to fix their pipes if they can get more free water from Wales every time there is a crisis? Plaid Cymru opposed the privatisation of water for the same reason that we oppose the privatisation of everything else: when the profit motive is introduced, spending on service delivery takes second place. Therefore, spending money on things such as stemming leaks is simply not a priority for privatised water companies.

Since privatisation, water has become a commodity. I do not like that situation, but we must accept our position. I believe that a reasonable recompense for our water can be more than justified, because that money could be returned to Wales and invested in improving our water infrastructure. One of my gardening neighbours in the Rhondda said to me over the summer, 'We've got to put up with all this extra rain; it won't be on if we're forced to put up with a hosepipe ban as well'. I agree. If we have to put up with all the extra rain, we should be recompensed properly for that water.

Section 101(1)(b) is in existence. Therefore, charging the market value for our water looks unlikely in the near future. However, I look forward to a third Government of Wales Bill, which, with the right party in charge in the Assembly, could mean that we could protect our water and deal with it in Wales as we see fit.

Mewn gwirionedd, mae hynny'n golygu pe bai'r Cynulliad am ddeddfu i atal gwastraffu dŵr ac i atal boddi mwy o bentrefi, fel Tryweryn, y gallai'r Mesurau hynny gael eu gwrthod gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Dywedwyd wrth fy nghyd-aelodau Plaid Cymru yn San Steffan, pan oeddent yn ceisio diwygio Mesur Llywodraeth Cymru i ddileu cymal 101(1)(b), mai dim ond mewn argyfwng y gelwid y cymal hwn i rym. Hoffwn wybod pa fath o argyfwng fyddai hwnnw, oherwydd byddai Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn ein rhwystro rhag cau'r tap i Loegr. Pa argyfyngau a allai fod na ellir ymdrin â hwy dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004?

Pibellau'n gollwng yw prif achos prinder dŵr. Pa gymhelliad sydd i gwmnïau dŵr drwsio eu pibellau os gallant gael mwy o ddŵr am ddim o Gymru bob tro y cyfyd argyfwng? Gwrthwynebodd Plaid Cymru breifateiddio dŵr am yr un rheswm ag y gwrthwynebwn breifateiddio popeth arall: pan gyflwynir elw fel cymhelliad, aiff gwario ar gyflwyno gwasanaeth yn eilbeth. Felly, nid yw gwario arian ar bethau fel atal gollwng yn flaenoriaeth i gwmnïau dŵr wedi eu preifateiddio.

Ers preifateiddio, daeth dŵr yn nwydd. Nid wyf yn hoffi'r sefyllfa honno, ond rhaid inni dderbyn ein sefyllfa. Credaf fod hen ddigon o gyfiawnhad dros iawndal rhesymol am ein dŵr, gan y byddai modd dychwelyd yr arian hwnnw i Gymru a'i fuddsoddi mewn gwella ein seilwaith dŵr. Dywedodd un o'm cymdogion yn y Rhondda sydd yn garddio wrthyf dros yr haf, 'Mae'n rhaid inni oddef yr holl law ychwanegol hwn; ni fydd yn iawn os cawn ein gorfodi i oddef gwaharddiad ar bibellau dŵr hefyd'. Yr wyf yn cytuno. Os oes rhaid inni oddef yr holl law ychwanegol, dylem gael iawndal priodol am y dŵr hwnnw.

Mae adran 101(1)(b) yn bod. Felly, nid yw'n debygol y bydd modd codi pris y farchnad am ein dŵr yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, edrychaf ymlaen at drydydd Mesur Llywodraeth Cymru a allai, gyda'r blaid iawn mewn grym yn y Cynulliad, olygu y byddai modd inni amddiffyn ein dŵr ac ymdrin ag ef yng Nghymru fel sydd yn addas yn ein barn ni.

Nick Bourne: I will speak briefly in this important debate. Water is a vital commodity, but I am not sure that I agree with the last speaker that it only became a commodity following privatisation. Water is vital, and I dispute whether one classifies it as a commodity just because of privatisation. As a party, we feel that—

Ieuan Wyn Jones: Will you give way?

Nick Bourne: I have not said what we feel as a party, but I am happy to give way before I do so.

Ieuan Wyn Jones: Would Nick accept that, because of the privatisation of water, it has become a valuable commodity in economic terms?

Nick Bourne: That was exactly the point that I was making. Water is a valuable commodity irrespective of privatisation. It is absolutely essential to life, and I am not sure that it becomes more essential because of privatisation, but I am not sure that that is central to the issue here anyway.

As a party, we very much feel that the arrangements within these islands must be in place to ensure that all parts of the United Kingdom benefit from the status of being an united kingdom. We believe, therefore, that there must be recognition of the fact that Wales supplies water to England, in terms of the financial settlement and so on. I will give a concrete example of where we think this would be useful. If Rhodri Morgan ever gets around to arguing the case for funding over and above Barnett in terms of convergence funding, as part of the deal, he could say that there are cases in which Wales is helping England and, therefore, England, or the Westminster Parliament, could help Wales in terms of additional funding above Barnett. We feel that this should be considered in that way, and not as a precise profit-and-loss account, which I do not think is appropriate within the United Kingdom. We are looking for appropriate recognition. We are not talking about turning off the tap, as I think Alun Ffred said; we are looking for a deal or an arrangement that recognises that we are in a partnership and that all parts of the United

Nick Bourne: Fe siaradaf yn gwyno yn y ddadl bwysig hon. Mae dŵr yn nwydd hanfodol, ond nid wyf yn siŵr a wyf yn cytuno â'r siaradwr diwethaf mai yn sgîl preifateiddio y daeth yn nwydd. Mae dŵr yn hanfodol, a byddwn yn anghytuno â'i alw yn nwydd dim ond oherwydd preifateiddio. Fel plaid, teimlwn—

Ieuan Wyn Jones: A wnewch ildio?

Nick Bourne: Nid wyf wedi dweud beth a deimlwn fel plaid, ond yr wyf yn fodlon ildio cyn imi wneud hynny.

Ieuan Wyn Jones: A fyddai Nick yn derbyn fod dŵr, oherwydd ei breifateiddio, wedi dod yn nwydd gwerthfawr yn yr ystyr economaidd?

Nick Bourne: Dyna'r union bwynt yr oeddwn yn ei wneud. Mae dŵr yn nwydd gwerthfawr, preifateiddio neu beidio. Mae'n un o hanfodion bywyd, ac nid wyf yn siŵr a yw'n dod yn fwy hanfodol oherwydd preifateiddio, ond nid wyf yn sicr bod hynny yn ganolog i'r pwnc dan sylw beth bynnag.

Fel plaid, teimlwn yn gryf y dylai trefniadau fodoli yn yr ynysoedd hyn er mwyn gofalu bod pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn elwa o statws bod yn deyrnas unedig. Credwn, felly, fod rhaid cydnabod y ffaith bod Cymru'n cyflenwi dŵr i Loegr, o ran y setliad ariannol ac yn y blaen. Rhoddaf enghraifft ddiriaethol o ble, yn ein barn ni, y byddai hyn yn ddefnyddiol. Os aiff Rhodri Morgan ati o'r diwedd i ddadlau dros gyllid mwy hael na Barnett o ran cyllid cydgyfeirio, fel rhan o'r fargen, gallai ddweud bod achosion yn bodoli lle y mae Cymru yn cynorthwyo Lloegr, ac felly y gallai Lloegr, neu Senedd San Steffan, helpu Cymru o ran cyllid ychwanegol at Barnett. Teimlwn mai fel hyn y dylid ystyried y mater hwn, yn hytrach nag fel cyfrif elw-a-cholled manwl, nad yw, yn fy marn i, yn briodol yn y Deyrnas Unedig. Ceisio cael cydnabyddiaeth briodol yr ydym. Nid ydym yn sôn am gau'r tap, fel y dywedodd Alun Ffred, yr wyf yn meddwl; chwilio yr ydym am fargen neu drefniant sydd yn cydnabod ein bod mewn partneriaeth a bod yn rhaid i bob rhan o'r Deyrnas Unedig elwa.

Kingdom must benefit.

If we go down the road of saying that this is something on which you can put a precise price tag, we get into difficulties. For example, North sea oil would benefit Scotland and England, but it would not benefit Wales much, were we to take that line. We must consider it in a much more global, and perhaps flexible, way than the motion suggests.

However, we are sympathetic to the motion and agree with the sentiments expressed about Tryweryn, both by Plaid Cymru and more recently by Brynle Williams. With the presence of a National Assembly for Wales, one cannot conceive of that happening again, and I am sure that this body will ensure that that is the case. However, we question why this provision is in the Act; it is not clear and it will be interesting to hear from the Government why it is essential. We believe that there is a case to be made for saying that we need appropriate recognition. This provision is not necessary in the Act, but we will be listening carefully to what the Minister and others from the Assembly Government benches have to say on this issue.

4.20 p.m.

Janet Ryder: It is interesting to hear Nick Bourne say that he does not think that this type of scenario could happen again following the establishment of the Assembly, because we are facing a similar situation whereby we will see the Welsh environment being totally degraded to meet English needs. We have all heard the arguments about Tryweryn, but what we saw was a Welsh valley being flooded, despite local opposition, to provide for English needs. There are many similarities between that situation and the situation that is currently developing in Wrexham, where people who have long campaigned against turning Hafod quarry into a tip to receive waste from England have likened the situation to that in Tryweryn. No Welsh waste will go into the quarry—it will be waste from Liverpool and Shropshire that will go into the tip. This is another example of our environment being downgraded to meet the needs of England.

Os ydym am ddweud bod hyn yn rhywbeth y gallwch ei brisio i'r geiniog, fe gyfyd anawsterau. Er enghraifft, byddai'r Alban a Lloegr yn elwa o olew Môr y Gogledd, ond ni fyddai o lawer o fudd i Gymru, petaem am gymryd agwedd felly. Rhaid i ni ei ystyried mewn dull llawer mwy byd-eang, a hyblyg efallai, nag yr awgryma'r cynnig.

Er hynny, yr ydym yn cydymdeimlo â'r cynnig ac yn cytuno â'r teimladau a fynegwyd ynghylch Tryweryn, gan Blaid Cymru ac yn fwy diweddar gan Brynle Williams. Gyda phresenoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ni all rhywun synied am y fath beth yn digwydd eto, ac yr wyf yn sicr y bydd y corff hwn yn gofalu na fydd yn digwydd. Fodd bynnag, yr ydym yn codi'r cwestiwn pam nad yw'r ddarpariaeth hon yn y Ddeddf; nid yw'n glir, a bydd yn ddi-ddorol clywed gan y Llywodraeth pam mae'n hanfodol. Credwn y gellir dadlau bod angen inni gael cydnabyddiaeth briodol. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn hanfodol yn y Ddeddf, ond byddwn yn gwrando'n ofalus ar yr hyn a ddywed y Gweinidog ac eraill o feinciau Llywodraeth y Cynulliad ar y pwnc hwn.

Janet Ryder: Mae'n ddi-ddorol clywed Nick Bourne yn dweud nad yw'n credu y gallai sefyllfa fel hon godi eto yn sgîl sefydlu'r Cynulliad, oherwydd yr ydym yn wynebu sefyllfa debyg lle y gwelwn amgylchedd Cymru'n cael ei lygru'n llwyr i ateb anghenion Lloegr. Clywsom oll y dadleuon am Dryweryn, ond yr hyn a welsom oedd boddi cwm yng Nghymru, er gwaethaf gwrthwynebiad lleol, i ddiwallu anghenion Lloegr. Mae llawer o debygrwydd rhwng y sefyllfa honno a'r sefyllfa sydd yn datblygu ar hyn o bryd yn Wrecsam, lle y mae pobl fu'n ymgyrchu ers amser maith yn erbyn troi chwarel yr Hafod yn domen i dderbyn gwastraff o Loegr wedi cymharu'r sefyllfa ag un Tryweryn. Nid fydd dim gwastraff o Gymru'n mynd i'r domen—gwastraff o Lerpwl a swydd Amwythig a aiff i'r domen honno. Dyma enghraifft arall o israddio ein hamgylchedd er mwyn diwallu anghenion Lloegr. Mae'r rhai sydd yn protestio yn erbyn

Those protesting against the quarry in Wrexham have picked up on this. They see that this will be imposed, despite strong local opposition, to solve English problems, as was the case in Tryweryn.

As we have heard, unfortunately there is very little that Wales can do to avoid another Tryweryn, despite the efforts of Plaid Cymru and its amendment. It was interesting to listen to the Liberal Democrats' defence for not voting for that amendment. It did not vote for the amendment, and the Secretary of State now has the ability to reject any move that Wales may make to protect our environment.

However, there is an opportunity to prevent Hafod quarry from being turned into a tip. If the planning permission bid for the tip were lodged today, it would not be allowed because of its proximity to dwellings—it would be against planning regulations. However, this is very old planning permission, which was granted the first time around by John Redwood, very much against local wishes. In the late 1990s, a large section of the tip was designated as an area of special scientific interest by Europe, and the council voted to revoke that planning permission. However, that was overturned by the then Labour Secretary of State in the Welsh Office, despite strong local opposition again. No doubt under the threat of having to repay massive amounts to Mersey Waste, the local council has unfortunately decided to confirm that planning permission, but that is not the end of the story. North Wales is now a huge importer of waste from England. A report entitled 'Waste Imported and Exported: A Study for Wales' provides information on exported and imported waste. The data is very specific to licensed waste management facilities throughout Wales, and the table for 2001-02 for north Wales shows that the region was a net importer of 152,247 tonnes of controlled waste. In the regional waste plan developed for north Wales it goes on to say that in planning for future waste management facilities within the region, we should not be planning facilities to manage waste that we currently import. [Interruption.] I will show how this relates to the debate on water, and I will take Karen

y chwarel yn Wrecsam wedi sylweddoli hyn. Gwelant y bydd hyn yn cael ei wthio arnynt, er gwaethaf gwrthwynebiad lleol cryf, i ddatrys problemau Lloegr, fel yn achos Tryweryn.

Fel y clywsom, gwaetha'r modd, nid oes llawer y gall Cymru ei wneud i osgoi Tryweryn arall, er gwaethaf ymdrechion Plaid Cymru a'i gwelliant. Diddorol oedd gwrandio ar amddiffyniad y Democratiaid Rhyddfrydol dros beidio â phleidleisio dros y gwelliant hwnnw. Ni wnaethant bleidleisio dros y gwelliant, a bellach mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y gallu i wrthod unrhyw gam y gall Cymru ei gymryd i amddiffyn ein hamgylchedd.

Fodd bynnag, mae cyfle i atal chwarel yr Hafod rhag cael ei throï'n domen. Petai'r cais cynllunio am y domen yn cael ei wneud heddiw, ni fyddai'n cael ei ganiatáu oherwydd ei fod mor agos at anheddau—byddai'n groes i'r rheoliadau cynllunio. Fodd bynnag, caniatâd cynllunio hen iawn yw hwn, a roddwyd y tro cyntaf gan John Redwood, yn llwyr yn erbyn dymuniadau lleol. Ddiwedd yr 1990au, dynododd Ewrop ran helaeth o'r domen yn ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig, a phleidleisiodd y cyngor dros ddirymu'r caniatâd cynllunio hwnnw. Fodd bynnag, gwrthdrowyd hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol Llafur bryd hynny yn y Swyddfa Gymreig, er gwaethaf gwrthwynebiad lleol cryf unwaith eto. Gan fod perygl yn ddiamau iddynt orfod ad-dalu symiau enfawr i Mersey Waste, mae'r cyngor lleol yn anffodus wedi penderfynu cadarnhau'r caniatâd cynllunio hwnnw, ond nid dyna ddiwedd y stori. Mae adroddiad dan y teitl 'Waste Imported and Exported: A Study for Wales' yn rhoi gwybodaeth am wastraff a allforir ac a fewnforir. Y mae'r data'n benodol iawn am gyfleusterau rheoli gwastraff trwyddedig ledled Cymru, a dengys tabl 2001-02 ar gyfer gogledd Cymru fod y rhanbarth wedi mewnfario 152,247 tunnell net o wastraff rheoledig. Yn y cynllun gwastraff rhanbarthol a ddatblygwyd ar gyfer y gogledd, â ymlaen i ddweud, wrth gynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn y dyfodol i'r rhanbarth, na ddylem fod yn cynllunio cyfleusterau i reoli gwastraff yr ydym yn ei fewnfario ar hyn o bryd. [Torri ar draws.] Fe ddangosaf sut y

Sinclair's intervention.

Karen Sinclair: As you know, this issue has blighted my constituency for some years. I am not sure how it relates to the debate on water, but I congratulate you on bringing it to the floor because it is a very real issue. Do you agree that the real problem has been in terms of the perpetuity of planning permissions once a small amount of work has been done? All this company, and probably its predecessors, had to do was build a fence and start work on a drive, and we are left with a planning permission that has nothing to do with the environmental expectations for our areas. That is the problem that we face. Although the Assembly does not currently have the powers to change the Town and Country Planning Act 1990, will you join me in pleading that that is something that we do as soon as we get those powers, post the next election, and that we look at changing planning laws so that we never get into the situation again whereby a community is totally blighted by an old permission that is quite appalling?

The Deputy Presiding Officer: Order. We were in order before Karen Sinclair spoke. She said that she failed to understand why we were in order until then: it is because water is ubiquitous, and is everywhere. However, this is not a debate about planning permissions for waste tips—we need to concentrate on water.

Janet Ryder: I agree with Karen that, as soon as we have the powers, we must look for a way to deal with the many long-standing, outstanding, old planning permissions, which, today, would not be allowed. The interesting point, which takes us back to Tryweryn, is that the waste management plan for north-east Wales states that we should not be planning to import waste or manage that, because that situation, as it currently stands, would not encourage the exporting regions to manage their own waste. That is exactly the situation that Leanne described. While regions of England still feel that, to meet their water needs, they can flood a valley in Wales, how much of an

mae a wnelo hyn â'r ddadl am ddŵr, ac fe dderbyniaf ymyriad Karen Sinclair.

Karen Sinclair: Fel y gwyddoch, bu'r mater hwn yn boen yn f'etholaeth i ers rhai blynyddoedd. Nid wyf yn siŵr sut y mae a wnelo â'r ddadl am ddŵr, ond yr wyf yn eich llongyfarch am ei ddwyn i'n sylw gan ei fod yn broblem wirioneddol. A ydych yn cytuno mai'r broblem yn ei hanfod yw bod caniatadau cynllunio mewn grym am byth ar ôl i ychydig bach o waith gael ei wneud? Y cyfan y bu'n rhaid i'r cwmni hwn, a'i ragflaenwyr, yn ôl pob tebyg, ei wneud oedd codi ffens a dechrau gweithio ar ddreif, a'r hyn sydd gennym wedyn yw caniatâd cynllunio nad oes a wnelo ddim â'r disgwyliadau amgylcheddol ar gyfer ein hardal. Dyna'r broblem a wynebwn. Er nad oes gan y Cynulliad ar hyn o bryd bwerau i newid Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a wnewch ymuno â mi i bledio dros sicrhau bod hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei wneud cyn gynted ag y cawn y pwerau hynny, wedi'r etholiad nesaf, a'n bod yn edrych ar newid y deddfau cynllunio fel na fyddwn byth yn y sefyllfa hon eto, sefyllfa sy'n peri bod cymuned yn cael ei difetha'n llwyr gan hen ganiatâd hollol warthus?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Yr oeddem mewn trefn cyn i Karen Sinclair siarad. Dywedodd nad oedd yn deall pam yr oeddem mewn trefn tan hynny: y rheswm yw bod dŵr yn hollbresennol, a'i fod ym mhobman. Fodd bynnag, nid dadl yw hon am ganiatâd cynllunio i domennydd gwastraff—rhaid inni ganolbwyntio ar ddŵr.

Janet Ryder: Cytunaf â Karen fod yn rhaid inni, cyn gynted ag y bydd y pwerau gennym, chwilio am ffordd o fynd i'r afael â'r nifer fawr o hen ganiatadau cynllunio fu'n bodoli ers amser ac na fyddent yn cael eu caniatáu heddiw. Y pwynt diddorol, sy'n ein dwyn yn ôl at Dryweryn, yw y dywed y cynllun rheoli gwastraff ar gyfer y gogledd-ddwyrain na ddylem fod yn cynllunio i fewnforio gwastraff na'i reoli, gan na fyddai sefyllfa o'r fath yn annog y rhanbarthau sy'n allforio i reoli eu gwastraff eu hunain. Dyna'r union sefyllfa a ddisgrifiwyd gan Leanne. Tra bo rhanbarthau Lloegr yn dal i deimlo, er mwyn ateb eu hanghenion hwy o ran dŵr, y gallant foddï cwm yng Nghymru, faint o sicrwydd

assurance do we have that they will address the infrastructure problems that they have in England and take away the need to flood a valley?

We can turn Wrexham around, because the Minister can revoke this decision. My final plea is for him to revoke the permission for the Hafod tip.

Lorraine Barrett: It was interesting to watch the 'rainbow coalition' having a little spat at the beginning of the debate. A rainbow, of course, is formed when the sun illuminates drops of water. I do not know which is the sunny side and which is wet side in the Chamber, but there you go. It made me think of water, and I want to speak to amendment 1. It is fair to say that most people today are engaged with the green agenda, and global warming and climate change in particular, and when you think of all the rain that we get, which Alun Ffred described so colourfully, it makes you want to cry when you see it all go down the drain, just wasted. If we look at our new Assembly building, it is an exemplar as far as sustainable environmental building is considered, in terms of the water that is collected from the roof in a water tank to be used as grey water in the toilets.

I have raised this matter previously with the Minister, and I do so again today. I ask for it to be kept on the agenda so that we can look at the opportunities that new housing developments and new public buildings provide, in terms of opportunities to install, at the time of construction when it is much cheaper and, probably, much more effective to build in, a system to collect water, to save it, and to use it as grey water. The point that I want to make in this debate is to ask the Minister to keep that in mind when looking at planning opportunities in the future.

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I will deal briefly with Janet Ryder's points. I hear what you say about the ubiquity of water, Deputy Presiding Officer, but her points were perhaps not entirely in keeping with the words of the debate as tabled. There are two points to note. We are reliant on English landfill sites. If we were not able to take

fydd gennym y byddant yn mynd i'r afael â'r problemau seilwaith sydd ganddynt yn Lloegr ac yn dileu'r angen i foddi cwm?

Gallwn newid y sefyllfa yn Wrecsam, oherwydd gall y Gweinidog ddirymu'r penderfyniad hwn. Fy mhle olaf yw iddo ddirymu'r caniatâd i domen yr Hafod.

Lorraine Barrett: Yr oedd yn ddiddorol gwyllo 'cynghrai'r enfys' yn cael tipyn o anghydfod ar ddechrau'r ddadl. Mae enfys, wrth gwrs, yn cael ei ffurfio pan fydd yr haul yn tywynnu ar ddiferion dŵr. Ni wn pa un yw ochr heulog ac ochr wlyb y Siambr, ond dyna chi. Gwnaeth imi feddwl am ddŵr, ac yr wyf am siarad am welliant 1. Mae'n deg dweud bod y rhan fwyaf o bobl heddiw yn ymglywed â'r agenda werdd, a chynhesu byd-eang a'r newid yn yr hinsawdd yn arbennig, a phan feddyliwn am yr holl law a gawn, a ddisgrifiwyd mor lliwgar gan Alun Ffred, mae'n gwneud ichi lefain pan welwch ef i gyd yn diflannu i lawr y draen ac yn cael ei wastraffu. Os edrychwn ar adeilad newydd ein Cynulliad, mae'n esiampl o adeiladu cynaliadwy, o ran y dŵr a gesglir o'r to mewn tanc dŵr i'w ddefnyddio'n ddŵr llwyd yn y toiledau.

Codais y mater hwn o'r blaen gyda'r Gweinidog, a gwnaf hynny eto heddiw. Gofynnaf iddo gael ei gadw ar yr agenda er mwyn inni allu edrych ar y cyfleoedd sydd i'w cael mewn datblygiadau tai newydd ac adeiladau cyhoeddus newydd, yn ystod yr adeiladu pan fydd yn rhatach ac o bosibl yn fwy effeithiol o lawer, i osod system i gasglu dŵr, i'w gadw a'i ddefnyddio'n ddŵr llwyd. Y pwynt y dymunaf ei wneud yn y ddadl hon yw gofyn i'r Gweinidog gadw hynny mewn cof wrth edrych ar gyfleoedd ym maes cynllunio yn y dyfodol.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Ymdriniaf yn fyr â phwyntiau Janet Ryder. Yr wyf yn clywed yr hyn a ddywedwch ynghylch bod dŵr yn hollbresennol, Ddirprwy Lywydd, ond nid oedd ei phwyntiau efallai yn llwyr gyd-fynd â geiriad y ddadl fel y'i cyflwynwyd. Mae dau bwnt i'w nodi. Yr ydym yn dibynnu ar safleoedd

rubbish into England, we would have rubbish piling up on people's doorsteps. At the time of the foot and mouth disease outbreak, the carcasses would have taken years to clear because, funnily enough, Welsh people in many areas were not willing to accept Welsh animals going to Welsh landfill sites; they had to go to England. We were therefore extremely reliant on England then, as we are now. We do not have a hazardous waste landfill site, and that means, of course, that all hazardous waste goes to England, apart from the small fraction that can be recycled. If it were the case that we did not accept cross-border movements of waste, we in Wales would be in a pretty pickle indeed. It is not simply a matter of waste coming to Wales from England and how awful that is, because I can tell you that an awful lot of waste moves into England from Wales, and we are dependent on English landfill sites, particularly with regard to dealing with hazardous waste. If they took the same view as Plaid Cymru has today, rubbish would be piling up on people's doorsteps. That point is worth making.

4.30 p.m.

Bydd rhai ohonoch yn adnabod heol yr A487 sy'n rhedeg ar hyd arfordir Ceredigion, lan o Aberteifi, fe gredaf, i Aberystwyth ac ymhellach. Mae rhan o'r heol yn mynd drwy bentref Llanrhystud i gyfeiriad Aberystwyth. Ar un adeg, yr oedd wal gyfan yno; yn awr, un rhan o'r wal yn unig sydd ar ôl. Ar y wal, mae'r geiriau 'Cofiwch Dryweryn'. Credaf ei bod yn wir dweud bod pobl yn cofio Tryweryn a'r hyn a ddigwyddodd yno. Mae hefyd yn wir dweud bod sawl plaid yng Nghymru yn erbyn y datblygiad a ddigwyddodd yno. Fodd bynnag, nid ydym yn byw yn 1957. Mae'r byd a Chymru wedi symud ymlaen yn bell ers yr amser hwnnw. Ni chredaf y byddai rhywbeth fel yr hyn a digwyddodd yn Nhryweryn yn digwydd yn awr. Wrth ddweud hynny, yr ydym yn hapus i gefnogi gwelliannau 1, 2 a 3 y Democratiaid Rhyddfrydol.

We must remember that, according to our understanding, in order to build a new reservoir, an Act of Parliament would be required in any event. The new Government

tirlenwi yn Lloegr. Pe na bai modd inni fynd â sbwriel i Loegr, byddai sbwriel yn pentyrru ar riniogau pobl. Adeg clwy'r traed a'r genau, byddai wedi cymryd blynyddoedd i glirio'r celanedd oherwydd, yn rhyfedd iawn, nid oedd Cymry mewn llawer ardal yn barod i dderbyn anifeiliaid o Gymru mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru; rhaid oedd mynd â hwy i Loegr. Yr oeddem felly yn dibynnu llawer iawn ar Loegr bryd hynny, fel yn awr. Nid oes gennym safle tirlenwi i wastraff peryglus a golyga hynny, wrth gwrs, fod yr holl wastraff peryglus yn mynd i Loegr, ar wahân i'r gyfran fach y mae modd ei ailgylchu. Pa na baem yn derbyn symud gwastraff ar draws ffiniau, byddem ni yng Nghymru mewn twll gwirioneddol. Nid mater syml bod gwastraff yn dod i Gymru o Loegr a pheth mor ofnadwy yw hynny ydyw, oherwydd gallaf ddweud wrthyfch fod llawer iawn o wastraff yn symud i Loegr o Gymru, ac yr ydym yn dibynnu ar safleoedd tirlenwi yn Lloegr, yn arbennig o ran trin gwastraff peryglus. Petaent yn cymryd yr un agwedd â Phlaid Cymru heddiw, byddai sbwriel yn pentyrru ar riniogau pobl. Mae'n bwynt gwerth ei wneud.

Some of you will be familiar with the A487 road, which runs along the Ceredigion coast line, going up from Cardigan, I think, to Aberystwyth and beyond. Part of the road goes through the village of Llanrhystud in the direction of Aberystwyth. At one time, there was an entire wall there; now, only part of the wall remains. The words 'Cofiwch Dryweryn' are written on that wall. I think that it is true to say that people do remember Tryweryn and what happened there. It is also true to say that many parties in Wales opposed the developments there. However, we no longer live in 1957. Wales and the world have come a long way since those times. I do not think that anything like what happened at Tryweryn would happen now. With that in mind, we are happy to support the Liberal Democrats' amendments 1, 2 and 3.

Rhaid inni gofio, yn ôl a ddeallwn, er mwyn codi argae newydd, y byddai angen Deddf Seneddol beth bynnag. Nid oes a wnelo Deddf newydd Llywodraeth Cymru 2006

of Wales Act 2006 has no bearing on whether a new reservoir is built in Wales. What the Act says on the Secretary of State's intervention power is simply that he has the power to intervene where the interests of England are affected. That is not new; that was in the original Government of Wales Act 1998, and it has been repeated this time around. [*Interruption.*] Let me just finish this point.

People will say, 'Why do we need it?'. Where the flow of water is west to east, which it is, effectively, in Wales, as that is the way that the watercourses go, I do not think it unreasonable for there to be some formal mechanism to ensure that those who might be affected by a decision in Wales, given that this is the United Kingdom, have some way of having those interests represented and of ensuring that—and I accept that this is a remote possibility—their water supplies are not affected.

Helen Mary Jones: Ynglŷn â'r sefyllfa newydd a'r angen am Ddeddf yn San Steffan ac ynglŷn â'r sefyllfa yr ydych newydd gyfeirio ati, a gredwch ei fod yn dderbyniol bod y sefyllfa yn parhau? Yr ydym wedi clywed sôn o bob rhan o'r Siambr am y ffaith mai adnodd Cymreig sydd ei angen yw hwn. Nid oes neb yn mynd i ddiffodd y tapiau ond nid ydym am ail-wneud, fel yr ydych wedi dweud eich hunan.

Carwyn Jones: Ni chredaf ei fod yn afresymol cael rhan ffurfiol o'r Ddeddf sydd yn edrych ar ôl diddordebau pobl Lloegr. Yr ydym i gyd yn gwybod ein bod yn siarad am sefyllfa sydd yn hynod o anarferol ond rhaid cael rhan ffurfiol o'r Ddeddf er mwyn diogelu eu diddordebau hwy.

In terms of how the Act works in relation to Wales, I sat here at the start of the debate ducking the missiles that were flying back and forth between the benches behind me and the front benches in terms of 'Who done what, when?', and so on. The Liberal Democrats were apparently trying to say that they are far more protective of Wales than Plaid Cymru ever could be, and the Conservatives made reasonable points, although I note that David Jones, a former Assembly Member, as many of us know, said

ddim â'r cwestiwn a godir argae newydd yng Nghymru ai peidio. Y cyfan a ddywed y Ddeddf am bŵer ymyrryd yr Ysgrifennydd Gwladol yw bod ganddo'r pŵer i ymyrryd lle'r effeithir ar fuddiannau Lloegr. Nid yw hynny'n newydd; yr oedd hynny yn Neddf wreiddiol Llywodraeth Cymru 1998, ac fe'i hailadroddwyd y tro hwn. [*Torri ar Draws.*] Gadewch imi orffen y pwynt hwn.

Fe ddywed pobl, 'Pam mae angen hyn arnom?'. Lle y bo llif y dŵr o'r gorllewin i'r dwyrain, fel sydd yn wir yng Nghymru, mewn gwirionedd, gan mai dyna'r ffordd y mae'r cyrsiau dŵr yn mynd, nid wyf yn tybio ei bod yn afresymol bod rhyw fecanwaith ffurfiol i sicrhau bod gan y rhai y gallai penderfyniad yng Nghymru effeithio arnynt, o gofio mai'r Deyrnas Unedig yw hon, ryw ddull o gynrychioli'r buddiannau hynny ac o sicrhau—ac yr wyf yn derbyn mai posibilrwydd prin yw hwn—nad effeithir ar eu cyflenwadau dŵr.

Helen Mary Jones: Regarding the new situation and the need for an Act from Westminster, and regarding the situation to which you just referred, do you think that it is acceptable that the situation is allowed to continue? We have heard across the Chamber about the fact that it is a Welsh resource that is needed. No-one is going to turn off the taps, but we do not want to go back, as you have said yourself.

Carwyn Jones: I do not think that it is unreasonable to have a formal part of the Act dealing with the interests of the people of England. We all know that we are talking about a scenario that is highly unlikely to happen, but we do need a formal part of the Act to safeguard their interests.

O ran sut y mae'r Ddeddf yn gweithio mewn perthynas â Chymru, yr oeddwn yn eistedd yma ar ddechrau'r dadl yn ceisio osgoi'r taflegrau a oedd yn cael eu hyrddio yn ôl a blaen rhwng y meinciau tu cefn i mi a'r meinciau blaen o ran 'Pwy wnaeth beth, pryd?', ac yn y blaen. Yr oedd y Democratiaid Rhyddfrydol, yn ôl pob golwg, yn ceisio dweud eu bod yn amddiffyn pobl Cymru yn well o lawer nag y gallai Plaid Cymru byth, a gwnaeth y Ceidwadwyr bwyntiau rhesymol, er fy mod yn nodi bod

in Parliament on 22 July that he felt that he could not support this power—not because he had any problem with the fact that the Secretary of State should intervene but because he felt that it did not go far enough.

‘It is extraordinary that the Secretary of State has no power of intervention if an Assembly Measure has an adverse effect on the operation of the law as it applies in Wales’.

I hear what Nick Bourne says today, but his colleagues in Westminster feel that the Secretary of State should be able to intervene in any Assembly Measure that might affect Wales.

Nick Bourne: That is one Member.

Carwyn Jones: You say that it is only one, but I understand that he is representative of the three Conservative Members—one of them was in the Chamber—at Westminster.

We cannot support amendment 4, because it is superfluous. We are not in the position of a new reservoir being proposed, and it is not likely to happen for many years, if at all. We know that the Environment Agency has said—and this has been reported publicly—that the idea of a water grid, while technically feasible, is not the way to deal with any water shortage in the south-east of England, and I understand that it has been saying that this situation is likely to carry on for the next 25 years. It rightly makes the point, as Members of all parties in the Chamber have done, that there needs to be an emphasis on water conservation. That much is true. That is equally true of the south east of England. We know that there have been difficulties. We have read about Thames Water, and the amount of water flowing out of its pipes into the ground. Therein lies the solution to deal with water shortages—particularly in south-east England, but increasingly across the whole of the UK as we witness climate change. The idea of a water grid is not new and there is no doubt that it will be fantastically expensive. From an engineering point of view, it will take many years, and such a system will pose tremendous problems

David Jones, cyn-Aelod o'r Cynulliad, fel y gŵyr llawer ohonom, wedi dweud yn y Senedd ar 22 Gorffennaf ei fod yn teimlo na allai gefnogi'r pŵer hwn—nid am fod y ffaith y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd yn peri anhawster iddo ond am y teimlai nad oedd yn mynd yn ddigon pell.

Mae'n rhyfeddol nad oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i ymyrryd os caiff un o Fesurau'r Cynulliad effaith andwyol ar weithredu'r gyfraith fel y mae'n ymwneud â Chymru.

Yr wyf yn clywed yr hyn a ddywed Nick Bourne heddiw, ond teimla ei gyd-aelodau yn San Steffan y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol allu ymyrryd yn unrhyw un o Fesurau'r Cynulliad a allai effeithio ar Gymru.

Nick Bourne: Un aelod yw hwnnw.

Carwyn Jones: Fe ddywedwch mai dim ond un ydyw, ond deallaf ei fod yn cynrychioli'r tri Aelod Ceidwadol—ac yr oedd un ohonynt yn y Siambr—yn San Steffan.

Ni allwn gefnogi gwelliant 4, gan ei fod yn ddiangen. Nid oes argae newydd ar y gweill, ac nid yw hynny'n debygol o ddigwydd am flynyddoedd lawer, os o gwbl. Fe wyddom fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dweud—ac adroddwyd hyn yn gyhoeddus—nad yw'r syniad o grid dŵr, er ei fod yn dechnegol ddichonadwy, yn fodd o fynd i'r afael ag unrhyw brinder dŵr yn ne-ddwyrain Lloegr, a deallaf ei bod wedi dweud y bydd y sefyllfa hon yn debygol o barhau am y 25 mlynedd nesaf. Mae'n gwneud y pwynt, yn hollol iawn, fel y gwnaeth Aelodau o bob plaid yn y Siambr, fod angen pwyslais ar arbed dŵr. Mae hynny'n wir. Mae yr un mor wir am dde-ddwyrain Lloegr. Gwyddom fod anawsterau wedi bod. Yr ydym wedi darllen am Thames Water, a faint o ddŵr sy'n llifo allan o'u pibellau i'r ddaear. Dyma'r ateb i fynd i'r afael â phrinder dŵr—yn enwedig yn ne-ddwyrain Lloegr, ond yn gynyddol felly ar draws y DU wrth i'r hinsawdd newid. Nid yw'r syniad o grid dŵr yn un newydd ac nid oes amheuaeth na fydd yn eithriadol ddrud. O safbwynt peirianyddol, fe gymer flynyddoedd lawer, a byddai system o'r fath yn achosi problemau enbyd o ran ei gweithredu. Mae gennym grid ar gyfer trydan, ond mae'n haws

in terms of its implementation. We have a grid for electricity, but it is a great deal easier to set up an electrical national grid; it is far more difficult to do so with water because of the need to carry the bulk of the water across land.

The Government of Wales Act 2006 simply seeks to provide a fallback position to represent the interests of the people of England with regard to water supplies from Wales. The Act is not an attempt to try to override the wishes of the people of Wales, expressed either by members of the public or within the National Assembly for Wales as the representative body of the people of Wales. It does not make it more likely that we will end up with valleys being drowned as they were in 1965 when Wales was a different place, and it does not make it more likely that we will somehow be fleeced by water charges.

I listened carefully to what Leanne Wood said, and I agreed with her point that water is not a commodity; it is, in the words of Alun Ffred Jones, God given. It is not to be treated purely as a commodity to be bought and sold. However, in the rest of her argument, she stated that we should be able to charge a fair price for our water when it goes to England. If that is not an argument for water being a commodity, I do not know what is. There needs to be clearer thinking on that.

The Act itself is a formal mechanism. The power was there before, and no-one from any party in the Chamber would say that they wanted to see another situation where the views of local people are ridden roughshod over and where valleys are drowned. That happened in the 1960s; this is now 2006.

Ieuan Wyn Jones: Following the Minister's response, there is a danger that this will turn into a legalistic argument rather than a political debate. I must disagree with his legal interpretation of the Act. I refer him to the sub-section that has not been mentioned in this debate, namely sub-section 101(2). The point that the Minister made in his summing up was that there is no way in which the Westminster Parliament could override the wishes of the people of Wales. Let me inform him that sub-section 101(2) is

o lawer sefydlu grid trydan cenedlaethol; mae'n anos o lawer gwneud hynny gyda dŵr oherwydd yr angen i gludo swmp y dŵr ar draws y tir.

Y cyfan y mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ceisio'i wneud yw cael darpariaeth wrth gefn i gynrychioli buddiannau pobl Lloegr o ran cyflenwadau dŵr o Gymru. Nid ymgais yw'r Ddeddf i geisio tanseilio dymuniadau pobl Cymru, fel y'u mynegir naill ai gan aelodau'r cyhoedd neu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru fel corff cynrychioliadol pobl Cymru. Nid yw'n ei gwneud yn fwy tebygol y boddur cymoedd fel yn 1965 pan oedd Cymru'n lle gwahanol, ac nid yw'n ei gwneud yn fwy tebygol y cawn ein blingo rywsut drwy daliadau dŵr.

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd Leanne Wood, ac yr oeddwn yn cytuno â'i phwynt nad nwydd yw dŵr; yng ngeiriau Alun Ffred Jones, mae'n rhodd gan Dduw. Ni ddylid ei drin fel nwydd yn unig i'w brynu a'i werthu. Fodd bynnag, yng ngweddill ei dadl, dywedodd y dylem allu codi pris teg am ein dŵr pan aiff i Loegr. Os nad yw hynny'n ddadl dros ddŵr fel nwydd, ni wn beth sydd. Mae angen meddwl yn gliriach am hynny.

Mecanwaith ffurfiol yw'r Ddeddf ei hun. Yr oedd y pŵer yno cynt ac ni fyddai neb o ddim un blaid yn y Siambr yn dweud eu bod am weld sefyllfa arall lle'r anwybyddir barn y bobl leol a lle y boddur cymoedd. Yn yr 1960au y digwyddodd hynny; 2006 yw hi yn awr.

Ieuan Wyn Jones: Yn sgîl ymateb y Gweinidog, mae perygl i hyn droi'n gecru cyfreithlyd yn hytrach nag yn ddadl wleidyddol. Rhaid imi anghytuno â'i ddehongliad cyfreithiol o'r Ddeddf. Fe'i cyfeiraf at is-adran nas crybwyllwyd yn y ddadl hon, sef is-adran 101(2). Y pwynt a wnaeth y Gweinidog wrth grynhoi oedd nad oedd modd yn y byd i Senedd San Steffan ddiystyru dymuniadau pobl Cymru. Gadewch imi ei hysbysu bod is-adran 101(2) yn gwneud yr union ddarpariaeth honno.

just such a provision.

‘(2) The Secretary of State may make an order prohibiting the Clerk from submitting the proposed Assembly Measure for approval by Her Majesty in Council.’

Let us assume that we reach that position. If the Assembly made a Measure with which the Secretary of State disagreed, he could strike it down. That is overriding the wishes of the Assembly.

Secondly, the Minister failed to give a single example of where the Assembly would make a Measure that the Secretary of State would want to strike down. He said that it would not happen. Therefore, why is there such a provision? He said that it is a fallback position—a fallback against what? He made no argument for this provision to be included in the Bill. My suspicion, although it would not help his leadership ambitions, is that the Minister probably agrees with us, but he cannot say so. That is the impression that I got from his intervention.

Carwyn Jones: I do not agree. It is difficult to provide examples because we are talking about an extreme. It is wholly reasonable, unlike your party, that the people of England should have some say in how water is delivered to them. That is basic human consideration.

Ieuan Wyn Jones: I have no argument with that point; any reasonable human being would agree with such a point. However, where are the examples to demonstrate the point at which Parliament would want to strike down an Assembly Measure? The Minister has not given me any examples. Why, therefore, is there a need for this provision?

4.40 p.m.

Diolchaf i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth hon. Ar y cyfan, yr ydym wedi cael trafodaeth ddiddorol ac adeiladol. Rhaid cydnabod bod cysgod Tryweryn ar y ddadl hon. Mae'r rhan fwyaf ohonom, er nad pawb,

(2) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn gwahardd y Clerc rhag cyflwyno Mesur arfaethedig y Cynulliad i'w gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

Gadewch inni ragdybio ein bod yn cyrraedd y sefyllfa honno. Petai'r Cynulliad yn rhoi Mesur gerbron y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn anghytuno ag ef, gallai ei fwrw i lawr. Diystyru dymuniadau'r Cynulliad yw hynny.

Yn ail, methodd y Gweinidog â rhoi un enghraifft o'r Cynulliad yn cyflwyno Mesur y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol am ei fwrw i lawr. Dywedodd na fyddai'n digwydd. Pam mae darpariaeth o'r fath yn bod, felly? Dywedodd mai darpariaeth wrth gefn ydyw—darpariaeth rhag beth? Ni chyflwynodd ddim un ddadl dros gynnwys y ddarpariaeth hon yn y Mesur. Yr wyf yn amau, er na fyddai hyn o gymorth i'w uchelgais i fod yn arweinydd, fod y Gweinidog yn ôl pob tebyg yn cytuno â ni, ond na all ddweud hynny. Dyna'r argraff a gefais oddi wrth ei ymyriad.

Carwyn Jones: Nid wyf yn cytuno. Mae'n anodd rhoi enghreifftiau am ein bod yn sôn am sefyllfa eithafol. Mae'n hollol resymol, yn wahanol i'ch plaid chi, i bobl Lloegr gael rhyw lais ynghylch sut y mae dŵr yn cael ei gyflenwi iddynt. Ystyriaeth ddynol sylfaenol yw hynny.

Ieuan Wyn Jones: Nid wyf yn anghydweld â'r pwynt hwnnw; byddai unrhyw fod rhesymol yn cytuno â phwynt o'r fath. Fodd bynnag, lle y mae'r enghreifftiau i ddangos pryd y dymunai'r Senedd fwrw i lawr Fesur Cynulliad? Ni roes y Gweinidog ddim enghreifftiau imi. Pam, felly, y mae angen y ddarpariaeth hon?

I thank everyone who has taken part in this discussion. On the whole, we have had an interesting and constructive debate. We must acknowledge that Tryweryn has cast its shadow over the debate. The majority, though

yn cofio berw a chyffro'r cyfnod hwnnw. Cyfeiriodd Alun Ffred at ran ei dad yn y brotest yn erbyn yr hyn yr oedd cyngor Lerpwl yn ei ddweud. Ni hoffwn weld hynny yn digwydd eto. Felly, cysgodwyd y ddadl gan hynny. Cyfeiriwyd ato gan nifer o bobl, gan gynnwys Brynle Williams.

Hoffwn gyfeirio at yr hyn a ddywedodd Mick Bates. Gwrandewais â diddordeb ar ei amddiffyniad o safbwynt ei blaid yn y dadleuon yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, rhown hwnnw i'r neilltu; mae ef yn teimlo heddiw y gall gefnogi'r cynnig. Er ein bod yn cefnogi gwelliant 1, teimlwn na allwn gefnogi gwelliant 2 gan nad yw ond yn cyfeirio—[*Torri ar draws.*]

Mick Bates: 'I listened with interest', you said. Can you explain, therefore, why your party did not vote for Lord Livsey's amendment, which was complete, comprehensive and had support from everyone else? Why did Plaid not vote for it in the House of Lords? Come on, tell us.

Ieuan Wyn Jones: I am not responsible for any Member in the House of Lords. If Mick Bates wants to turn this into a petty, point-scoring issue, that is fine. However, I could ask him where his Members were in the House of Commons, but where does that get us? Mick, I was trying to extend you an olive branch, which you rejected, unfortunately, because you eventually came around to recognise the merits of our motion.

We will abstain on amendments 2 and 3. First, although we acknowledge that Lord Roberts of Conwy made a contribution, others did as well. I am not sure why the Liberal Democrats could not name other people who have also been involved in that. Finally, there is no way in which we can say whether we should be supporting amendment 3.

Hoffwn gyfeirio yn sydyn iawn at gyfraniad Brynle Williams, a oedd yn feddylgar iawn. Gŵyr y cefndir. Mae Brynle, fel pawb o ardaloedd gwledig Cymru, yn sylweddoli'r boen a ddioddefwyd oherwydd i'r cymoedd hynny gael eu boddi. Gwerthfawrogaf ysbryd eich cyfraniad, Brynle. Yr oeddech hefyd yn

not all, of us will recall the upheaval and stir caused at that time. Alun Ffred referred to his father's part in the protest against what Liverpool council was saying. No-one wants to see that happen again. So, the debate was overshadowed by that. It was mentioned by many people, including Brynle Williams.

I want to refer briefly to what Mick Bates said. I listened with interest to his justification of his party's stance in the House of Commons. However, we will put that to one side; he feels today that he can support the motion. Although we support amendment 1, we do not feel able to support amendment 2 because it refers only to—[*Interruption.*]

Mick Bates: 'Gwrandewais â diddordeb', meddech. A allwch esbonio, felly, pam na phleidleisiodd eich plaid dros welliant yr Arglwydd Livsey, a oedd yn gyflawn, yn gynhwysfawr ac yn cael ei gefnogi gan bawb arall? Pam na phleidleisiodd y Blaid drosto yn Nhŷ'r Arglwyddi? Dewch yn eich blaen, dywedwch wrthym.

Ieuan Wyn Jones: Nid wyf yn gyfrifol am ddim un Aelod yn Nhŷ'r Arglwyddi. Os yw Mick Bates am droi hyn yn fater pitw o sgorio pwyntiau, digon teg. Fodd bynnag, gallwn ofyn iddo ymhle'r oedd ei Aelodau ef yn Nhŷ'r Cyffredin, ond i ble y mae hynny'n mynd â ni? Mick, ceisio cynnig cymod yr oeddwn, ac yn anffodus, gwnaethoch ei wrthod oherwydd bu ichi gydnabod gwerth ein cynnig yn y diwedd.

Byddwn yn ymatal ar welliannau 2 a 3. Yn gyntaf, er ein bod yn cydnabod i'r Arglwydd Roberts o Gonwy wneud cyfraniad, fe gyfrannodd eraill hefyd. Nid wyf yn siŵr pam na allai'r Democratiaid Rhyddfrydol enwi pobl eraill fu hefyd yn rhan o hynny. Yn olaf, nid oes modd yn y byd inni ddweud a fyddwn yn cefnogi gwelliant 3 ai peidio.

I wish to refer briefly to Brynle Williams's contribution, which was very thoughtful. He knows the background. Brynle, like everyone in the rural parts of Wales, realises the pain that people suffered because those valleys were flooded. I appreciate the spirit of your contribution, Brynle. You also questioned the

cwestiynu'r angen i'r Ysgrifennydd Gwladol gael y grym i wyrdroi penderfyniadau'r Cynulliad.

need for the Secretary of State to have the power to overturn Assembly decisions.

Leanne Wood widened the debate by talking about the issue of water worldwide. That was an important contribution. I listened carefully to Nick to try to find out whether he was going to support our motion. I think that he probably came as far as he could in his contribution. He is now waiting to see what the Minister says, and I hope that he will not be persuaded by the Minister's contribution. Janet Ryder made the valuable point that there is a link not only with water resources but also with much wider environmental concerns. I thank Lorraine Barrett for her intervention, for her little speech, but the issue about the rainbow lost me rather, Lorraine. Perhaps we could talk about what that meant at another time.

Ehangodd Leanne Wood y ddadl drwy siarad am fater dŵr ledled y byd. Yr oedd hynny'n gyfraniad pwysig. Gwrandewais yn ofalus ar Nick i geisio gweld a oedd am gefnogi ein cynnig. Yn fy marn i, aeth mor bell ag y gallai yn ei gyfraniad. Mae yn awr yn aros i weld beth a ddywed y Gweinidog, a gobeithio na chaiff ei berswadio gan gyfraniad y Gweinidog. Gwnaeth Janet Ryder y pwynt pwysig bod cysylltiad nid yn unig ag adnoddau dŵr ond hefyd â phryderon amgylcheddol ehangach o lawer. Diolchaf i Lorraine Barrett am ei hymyriad, am ei haraith fach, ond euthum ar goll braidd ym mater yr enfys, Lorraine. Efallai y byddai modd inni gael gair am ystyr hynny rywbryd eto.

I have replied to the comments of the Minister. We were not convinced by his arguments. We will be supporting the Conservatives' amendment 4. I hope that, with those reservations, the Assembly will feel able to support the original motion, subject to those amendments.

Yr wyf wedi ateb sylwadau'r Gweinidog. Ni chawsom ein hargyhoeddi gan ei ddadleuon. Byddwn yn cefnogi gwelliant 4 y Ceidwadwyr. Gobeithiaf, gyda'r amheuon hynny, y bydd y Cynulliad yn teimlo y gall gefnogi'r cynnig gwreiddiol, yn amodol ar y gwelliannau hynny.

*Gwelliant 1: O blaid 55, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 1: For 55, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine

Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment carried.*

*Gwelliant 2: O blaid 45, Ymatal 10, Yn erbyn 0.
Amendment 2: For 45, Abstain 10, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise

Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Laura Anne
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Melding, David
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Jones, Alun Ffred
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment carried.*

*Gwelliant 3: O blaid 45, Ymatal 10, Yn erbyn 0.
Amendment 3: For 45, Abstain 10, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine

Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Laura Anne
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
 The following Members abstained:

Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment carried.*

*Gwelliant 4: O blaid 26, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
 Amendment 4: For 26, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Law, Trish
 Lloyd, David
 Morgan, Jonathan

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn

Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

Motion NDM3194 as amended:

the National Assembly believes that water is a vital commodity and regrets that the Government of Wales Act 2006 hinders the National Assembly in managing this resource in the best interests of the people of Wales.

recognises the impact of global warming on the availability of water and the increasing importance of conservation measures and supply sustainability.

welcomes the apology made last year by Liverpool City Council, the campaign for which was championed by Lord Roberts of Llandudno, for the flooding nearly 50 years ago of the Tryweryn valley and recognises the strategic importance of Wales in supplying water to neighbouring areas of England.

welcomes the £20,000 donation by Birmingham City Council to Community Arts Rhayader and District (CARAD) for a new community museum in Rhayader to provide educational resources and a historical perspective relating to the supply of water from the Elan Valley to the city of Birmingham.

Cynnig NDM3194 fel y'i diwygiwyd:

y Cynulliad Cenedlaethol yn credu bod dŵr yn adnodd hollbwysig ac mae'n gresynu bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhwystro'r Cynulliad Cenedlaethol rhag rheoli'r adnodd hwn er budd gorau pobl Cymru.

yn cydnabod effaith cynhesu byd-eang ar argaeledd dŵr a phwysigrwydd cynyddol camau i arbed dŵr a chynnal cyflenwadau.

yn croesawu'r ymddiheuriad a gynigiwyd y llynedd gan Gyngor Dinas Lerpwl, ymgyrch a sbardunwyd gan yr Arglwydd Roberts o Landudno, dros foddï Cwm Tryweryn bron i hanner can mlynedd yn ôl ac yn cydnabod pwysigrwydd strategol Cymru o ran cyflenwi dŵr i ardaloedd cyfagos Lloegr.

yn croesawu cyfraniad Cyngor Dinas Birmingham i Gelfyddydau Cymunedol Rhaeadr a'r Cylch (CARAD) ar gyfer amgueddfa gymunedol newydd yn Rhaeadr a fydd yn cynnig adnoddau addysgol a phersbectif hanesyddol i'r dŵr a gyflenwir i ddinas Birmingham o Gwm Elan.

*Cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
 Amended motion: For 27, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin

Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Law, Trish
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.
 Amended motion defeated.*

Adolygiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau o Bolisi Gwyddoniaeth The Enterprise, Innovation and Networks Committee's Science Policy Review

Christine Gwyther: I propose that

*the National Assembly for Wales, acting
 under Standing Order No. 6.6(v):*

*notes the report of the Enterprise, Innovation
 and Networks Committee entitled 'Review of
 Science Policy in Wales', which was laid in
 the Table Office on 11 September 2006.
 (NDM3193)*

I am pleased to open this debate on the
 Enterprise, Innovations and Networks
 Committee's review of science policy in
 Wales.

With other committee members and invited
 guests, I launched our report this morning at
 Techniquet in Cardiff bay. It was an
 excellent event and the review has received a
 lot of attention, which is testament to the
 interest that people are expressing about
 science in general and science in Wales in
 particular. I will give a brief overview of the
 process that we followed and then outline our
 key recommendations.

Having considered various possible topics,
 the committee decided to carry out a review

Christine Gwyther: Cynigaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan
 weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.6
 (v):*

*yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter,
 Arloesi a Rhwydweithiau dan y teitl
 'Adolygiad o Bolisi Gwyddoniaeth yng
 Nghymru', a osodwyd yn y Swyddfa
 Gyflwyno ar 11 Medi 2006. (NDM3193)*

Yr wyf yn falch o agor y ddadl hon ar
 adolygiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a
 Rhwydweithiau o bolisi gwyddoniaeth yng
 Nghymru.

Gydag aelodau eraill o'r pwyllgor a
 gwahoddedigion, lansiais ein hadroddiad y
 bore yma yn Techniquet ym mae Caerdydd.
 Bu'n ddigwyddiad rhagorol ac mae'r
 adolygiad wedi cael llawer o sylw, ac mae
 hynny'n dyst i'r diddordeb y mae pobl yn ei
 fynegi mewn gwyddoniaeth yn gyffredinol ac
 mewn gwyddoniaeth yng Nghymru'n
 benodol. Rhoddaf drosolwg byr ar y broses a
 ddilynasom ac wedyn nodi ein prif
 argymhellion.

Wedi ystyried amryw o bynciau posibl,
 penderfynodd y pwyllgor gynnal adolygiad o

of science policy in November 2004. Given the scope and technical nature of the subject we decided to appoint an expert adviser and reference group to help in the process. Dr Robin Fears was appointed as expert adviser in April 2005 and the reference group was appointed in May. We consulted widely among the scientific community within Wales and beyond, during August and September 2005. We started hearing oral evidence in October 2005 and completed our deliberations in July 2006. We received 23 oral presentations during formal meetings and 30 responses to the public consultation.

The committee held eight formal meetings related to this inquiry. In addition, two meetings of the reference group were held in order to set the framework for us to work within, and to keep us on track. Among others, we received contributions from further and higher education institutions, societies, business organisations, and relevant government departments—from Cardiff and Westminster. We also received a European Union perspective from Eluned Morgan MEP. Schedules of those who presented oral evidence, those who were consulted, and those who responded are in the report. I hope that Members have had a chance to read it.

The committee considered all of the oral and written evidence received with the help of our expert adviser and reference group. The committee approved the report in July 2006. There was no minority report; we achieved consensus.

The report contains 18 recommendations. I will not go through them all, but I will go through the main themes. Our principal message is that science is important for the future prosperity and wellbeing of the people of Wales. We consider that the Assembly Government should develop a strategic science policy to ensure that sound scientific principles underpin its policies across all departments, and that this should be coordinated by a senior scientific adviser.

We believe that scientific research will become an increasingly important driver for economic growth in Wales. It is important

bolisi gwyddoniaeth yn Nhachwedd 2004. O ystyried cwmphas a natur dechnegol y pwnc, penderfynasom benodi cynghorydd arbenigol a grŵp cyfeirio i hyrwyddo'r broses. Penodwyd Dr Robin Fears yn gynghorydd arbenigol yn Ebrill 2005 a phenodwyd y grŵp cyfeirio ym mis Mai. Ymgynghorasom yn eang ymysg gwyddonwyr yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystod Awst a Medi 2005. Dechreuasom wrando ar dystiolaeth lafar yn Hydref 2005 a chwblhau ein trafodaethau yng Ngorffennaf 2006. Cawsom 23 o gyflwyniadau llafar yn ystod cyfarfodydd ffurfiol a 30 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Cynhaliodd y pwyllgor wyth cyfarfod ffurfiol mewn cysylltiad â'r ymchwiliad hwn. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd dau gyfarfod o'r grŵp cyfeirio er mwyn pennu'r fframwaith ar gyfer ein gwaith, ac i'n cadw ar y llwybr iawn. Ymysg eraill, cawsom gyfraniadau gan sefydliadau addysg bellach ac uwch, cymdeithasau, cyrff busnes, ac adrannau llywodraeth perthnasol—yng Nghaerdydd a San Steffan. Cawsom safbwynt rhywun o'r Undeb Ewropeaidd hefyd gan Eluned Morgan ASE. Ceir rhestrau o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth lafar, y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, a'r rhai a ymatebodd yn yr adroddiad. Yr wyf yn gobeithio bod yr Aelodau wedi cael cyfle i'w ddarllen.

Ystyriodd y pwyllgor y cwbl o'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gafwyd gyda chymorth ein cynghorydd arbenigol a'n grŵp cyfeirio. Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad yng Ngorffennaf 2006. Ni chafwyd adroddiad lleiafrifol; cawsom gonsensws.

Mae 18 o argymhellion yn yr adroddiad. Nid af drwyddynt i gyd, ond af drwy'r prif themâu. Ein prif neges yw bod gwyddoniaeth yn bwysig i ffyniant a lles pobl Cymru yn y dyfodol. Credwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu polisi gwyddoniaeth strategol i sicrhau bod egwyddorion gwyddonol cadarn yn sail i'w pholisïau ym mhob adran, ac y dylai hynny gael ei gyd-drefnu gan uwch gynghorydd gwyddonol.

Credwn y bydd ymchwil wyddonol yn fwyfwy pwysig fel ysgogydd twf economaidd yng Nghymru. Mae'n bwysig

that investment in research and development is targeted well and not spread too thinly. To this end, we recommend that the Assembly Government establish a scientific advisory council, which should be industry led and should include senior figures from academia and the business sector.

4.50 p.m.

The Assembly Government is currently carrying out a consultation on the European Union structural funds convergence programme—previously known as Objective 1—for 2007 to 2013, with the aim of establishing strategic priorities for the allocation of some £1.3 billion in EU structural funds for west Wales and the Valleys. Fostering research and development, technology and innovation is one of the suggested priorities in the consultation document. This funding will provide a valuable opportunity to implement some of the recommendations in our report, and we will be looking to see some of that strategy employed within the convergence funding.

Eluned Morgan MEP told us that, in addition to the European structural funds, Wales is very well placed within the UK to apply for additional funding for research and development under the European Union framework programmes for research and technological developments, framework programme 7. We think—and this is one of our recommendations—that the Assembly Government should provide financial and logistic support to Welsh universities and colleges to help them gain access to this additional funding stream, and bring extra money into Wales.

The key to sustained economic growth in Wales is closer collaboration between academia and private companies to share resources, ideas and expertise. Another recommendation is that, to complement this partnership, we feel that it is important to develop entrepreneurship skills among researchers, so that they are better able to exploit the fruits of their research. In order to ensure that there will be sufficient scientists in the future, both in quantity and quality, it is vital that more children choose to study

targeddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu'n dda a pheidio â'i daenu'n rhy denau. I'r perwyl hwnnw, yr ydym yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu cyngor ymgynghorol gwyddonol, a ddylai gael ei arwain gan ddiwydiant a chynnwys ffigurau blaenllaw o'r byd academiaidd a'r sector busnes.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ynghylch rhaglen gydyfeirio cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd—a elwid gynt yn Amcan 1—ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013, gyda'r bwriad o bennu blaenoriaethau strategol ar gyfer dyrannu tua £1.3 biliwn o gronfeydd strwythurol yr UE ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Meithrin ymchwil a datblygu, technoleg ac arloesi yw un o'r blaenoriaethau a awgrymwyd yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y cyllid hwn yn cynnig cyfle gwerthfawr i weithredu rhai o'r argymhellion yn ein hadroddiad, a byddwn yn disgwyl gweld defnyddio rhywfaint o'r strategaeth honno o fewn y cyllid cydyfeirio.

Dywedodd Eluned Morgan ASE wrthym fod Cymru mewn sefyllfa dda iawn yn y DU i ymgeisio am gyllid ychwanegol, ar ben y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ar gyfer ymchwil a datblygu dan raglenni fframwaith yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ymchwil a datblygiadau technolegol, rhaglen fframwaith 7. Yr ydym o'r farn—a dyma un o'n hargymhellion—y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi cymorth ariannol a logistaidd i golegau a phrifysgolion Cymru i'w helpu i gael mynediad at y ffrwd ariannu ychwanegol hon, a dod ag arian ychwanegol i Gymru.

Yr allwedd i sicrhau twf economaidd parhaus yng Nghymru yw cydweithio agosach rhwng y byd academiaidd a chwmnïau preifat er mwyn rhannu adnoddau, syniadau ac arbenigedd. Un argymhelliad arall, er mwyn ategu'r bartneriaeth honno, yw ein bod yn temlo ei bod yn bwysig datblygu sgiliau entrepreneuriaeth ymysg ymchwilwyr, fel y byddant yn fwy galluog i fanteisio ar ffrwyth eu hymchwil. Er mwyn sicrhau bod digon o wyddonwyr yn y dyfodol, a'r rheini o ansawdd digon da, mae'n hollbwysig i fwy o

science at school; and that more young people complete science and technology courses at universities and colleges. We touched on that earlier this afternoon. Universities and colleges, together with bodies such as Techniquet, where we held the launch this morning, are already promoting links with schools to foster an interest in science and technology. The committee applauds this work and encourages even greater efforts to engage children inside and outside the classroom. We acknowledge that much good work is already being carried out in science and technology departments in Welsh universities and colleges, both in the quality of research and in knowledge transfer projects to commercially exploit this research in partnership with the business sector. These partnerships need to be developed further, and I hope that our report will encourage closer and more widespread collaboration between academia and business.

This will be the last policy review carried out by the Enterprise, Innovation and Networks Committee. There will be a sigh of relief at that from some people I am sure. However, as a committee, we have enjoyed this review immensely and we look forward to receiving the Assembly Government's response in due course. We believe that our recommendations are challenging and ambitious, but, importantly, we believe that they are deliverable. I thank all of the Committee members who contributed so ably to the work that went into this report. I also thank our expert adviser, our reference group and the secretariat for their invaluable help in carrying out this inquiry. I commend this report to the National Assembly.

Helen Mary Jones: In contributing to this debate I would like to draw the attention of this Assembly, and the Government in particular, to two examples from the region that I represent, where current developments, which are driven by cost-cutting agendas coming out of the Westminster Government, could serve to undermine the drive to develop science and a knowledge-based economy in Wales, as outlined and supported by this

blant ddewis astudio gwyddoniaeth yn yr ysgol; ac i fwy o bobl ifanc gwblhau cyrsiau gwyddoniaeth a thechnoleg mewn colegau a phrifysgolion. Cyfeiriasom at hynny'n gynharach y prynhawn yma. Mae colegau a phrifysgolion, ynghyd â chyrff fel Techniquet, lle y cynaliasom y cyfarfod lansio y bore yma, eisoes yn hyrwyddo cysylltiadau ag ysgolion er mwyn meithrin diddordeb mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae'r pwyllgor yn canmol y gwaith hwn ac yn cymell ymdrechion mwy byth i ymgysylltu â phlant y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yr ydym yn cydnabod bod llawer o waith da'n cael ei wneud eisoes mewn adrannau gwyddoniaeth a thechnoleg yng ngholegau a phrifysgolion Cymru, o ran ansawdd yr ymchwil ac mewn cysylltiad â phrosiectau trosglwyddo gwybodaeth i fanteisio'n fasnachol ar yr ymchwil hon mewn partneriaeth â'r sector busnes. Rhaid datblygu'r partneriaethau hynny ymhellach, ac yr wyf yn gobeithio y bydd ein hadroddiad yn hybu cydweithio agosach ac ehangach rhwng y byd academaidd a byd busnes.

Hwn fydd yr adolygiad polisi olaf gan y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Ceir ochenaid o ryddhad oherwydd hynny gan rai, yr wyf yn siŵr. Fodd bynnag, fel pwyllgor, yr ydym wedi mwynhau'r adolygiad hwn yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen at gael ymateb Llywodraeth y Cynulliad iddo gyda hyn. Credwn fod ein hargymhellion yn heriol ac yn uchelgeisiol ond yr hyn sydd yn bwysig yw ein bod yn credu bod modd eu cyflawni. Diolchaf i holl aelodau'r Pwyllgor a gyfrannodd mor ddeheuig i'r gwaith o lunio'r adroddiad hwn. Diolchaf hefyd i'n cynghorydd arbenigol, i'n grŵp cyfeirio ac i'r ysgrifenyddiaeth am eu cymorth amhrisiadwy wrth gynnal yr ymchwiliad hwn. Cymeradwyaf yr adroddiad hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Helen Mary Jones: Wrth gyfrannu i'r ddadl hon, carwn dynnu sylw'r Cynulliad hwn, a'r Llywodraeth yn benodol, at ddwy enghraifft yn y rhanbarth yr wyf yn ei gynrychioli, lle y byddai datblygiadau cyfredol, a hyrwyddir gan agendâu ar gyfer cwtoegi costau sy'n deillio o Lywodraeth San Steffan, yn gallu tanseilio'r ymgyrch i ddatblygu gwyddoniaeth ac economi sy'n seiliedig ar wybodaeth yng Nghymru, fel sydd wedi'i

excellent report. Members will be aware—I know that the Government is—of the situation facing the Institute of Grassland and Environmental Research in Aberystwyth. I know that Elin Jones has been in regular contact with Government Ministers about this. It is vital that the Welsh Assembly Government does everything that it can to promote the retention of this important land-based research in Wales. I am sure that the Minister will agree that the next six months will be crucial to the future of IGER and I hope that he is aware of the important negotiations going on between the universities of Aberystwyth and Bangor and IGER. I trust that he will agree with me on the importance of developing more cooperation on research between the higher education institutions in Wales. I am sure that Christine Gwyther, as chair of the committee, and the committee, would see that kind of co-operation as important for the future. The model being developed between Aberystwyth, Bangor and IGER will need the support of the whole Assembly and of the Welsh Assembly Government. I seek the Minister's assurance, when he makes a contribution to this debate, that this co-operation will receive the Government's full support.

I also draw the Assembly's attention to what is, perhaps, a less well-known example, which is the proposal by the Environment Agency to shed 40 high-quality scientific posts from its laboratory in Llanelli. The laboratory has been based there for over 50 years. If this development goes ahead, the Environment Agency Wales will have to depend on a laboratory somewhere in Devon for all its chemical and microbiological analysis. I am sure that we would all agree that that is illogical. The proposal would leave behind a small group of about 20 research and development staff, and it is the feeling of the staff at the unit that those remaining posts would be vulnerable, given the costs of maintaining the building alone.

I urge the Minister and his colleagues to intervene in this process now—fortunately, it is fairly early in the process—and seek to change the mind of the Environment Agency. These are high-quality jobs, of the kind that

amlinellu a'i gefnogi gan yr adroddiad rhagorol hwn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol—fel y mae'r Llywodraeth, yr wyf yn gwybod—o'r sefyllfa sydd yn wynebu Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd yn Aberystwyth. Gwn fod Elin Jones wedi bod mewn cysylltiad yn rheolaidd â Gweinidogion y Llywodraeth ynghylch hyn. Mae'n hollbwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud popeth yn ei gallu i gadw'r ymchwil amaethyddol bwysig hon yng Nghymru. Yr wyf yn sicr y cytuna'r Gweinidog y bydd y chwe mis nesaf yn hanfodol i ddyfodol y sefydliad hwnnw ac yr wyf yn gobeithio ei fod yn gwybod am y negodiadau pwysig sydd yn mynd ymlaen rhwng prifysgolion Aberystwyth a Bangor ac IGER. Hyderaf y bydd yn cytuno â mi ei bod yn bwysig meithrin mwy o gydweithredu ar ymchwil rhwng y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr y byddai Christine Gwyther, fel cadeirydd y pwyllgor, a'r pwyllgor, yn barnu bod cydweithredu o'r fath yn bwysig ar gyfer y dyfodol. Bydd angen cefnogaeth y Cynulliad cyfan a Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r model a ddatblygir gan Aberystwyth, Bangor ac IGER. Yr wyf yn gofyn am sicrwydd gan y Gweinidog, pan fydd yn cyfrannu i'r ddadl hon, y bydd y Llywodraeth yn rhoi pob cefnogaeth i'r cydweithredu hwnnw.

Yr wyf hefyd yn tynnu sylw'r Cynulliad at yr hyn sydd, efallai, yn enghraifft lai adnabyddus, sef bwriad Asiantaeth yr Amgylchedd i ddileu 40 o swyddi gwyddonol o ansawdd da yn ei labordy yn Llanelli. Bu'r labordy yno ers mwy na 50 mlynedd. Os aiff y datblygiad hwn yn ei flaen, bydd yn rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ddibynnu ar labordy sydd rywle yn Nyfnaint am ei holl waith dadansoddi cemegol a microbiolegol. Yr wyf yn siŵr y byddem oll yn cytuno bod hynny'n afresymegol. Byddai'r bwriad hwn yn gadael grŵp bach o tua 20 o staff ymchwil a datblygu, ac mae'r staff sydd yn yr uned yn teimlo y byddai'r swyddi a fyddai'n weddill mewn perygl, o ystyried costau cynnal yr adeilad yn unig.

Anogaf y Gweinidog a'i gyd-Weinidogion i ymyrryd yn y broses hon yn awr—yn ffodus, mae'r broses wedi dechrau'n eithaf diweddar—a cheisio newid meddwl Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r rhain yn

science graduates take up. Incidentally, it is also one of the few places where scientific work is done through the medium of Welsh; we heard earlier, in contributions to other debates, about the importance of science education being available through the medium of Welsh. These are high-quality jobs that Llanelli and west Wales can ill afford to do without. I am sure that the Government, and the whole Assembly, realises that it is important that we resist the loss of these high-quality scientific and research posts and institutions. Otherwise, there is a risk that we will lose some of the base from which a new science policy and a new science strategy can grow.

William Graham: The realisation of the recommendations contained in the committee's report is very much overdue. They are vital to securing a strong future for Wales, with a vibrant, knowledge-based, high-technology economy. I trust that the Minister will note some of my remarks when he comes to make his consideration of the committee's review. Why has the Government taken so long to do this when there was overwhelming evidence for a science policy? Why are we still waiting for this policy to be implemented, when our competitors have been given a head start on putting down the foundations for a knowledge-based economy? To achieve a vibrant, knowledge-based, high-technology economy, we need to direct funding into science effectively.

We note the Welsh European Funding Office's latest figures on innovation with regard to the Objective 1 programme, which were reported to the programme monitoring committee on 16 June. Within the main focus of science, innovation, training and skills, £132 million has been committed in European Union grants, together with matched funding from universities, businesses and the Assembly. Over £0.25 billion has been invested, but the outcome leaves much to be desired. Out of a target of 5,000 gross new jobs to be created, only 1,430 have been created—some 21 per cent of the number forecast. Out of a target of

swyddi o ansawdd da, o'r math y bydd graddedigion y gwyddorau'n ymgymryd â hwy. Gyda llaw, mae hefyd yn un o'r ychydig leoedd lle y gwneir gwaith gwyddonol drwy gyfrwng y Gymraeg; clywsom yn gynharach, mewn cyfraniadau i ddadleuon eraill, am bwysigrwydd darparu addysg mewn gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Prin y gall Llanelli a gorllewin Cymru fforddio colli swyddi o ansawdd da o'r math hwn. Yr wyf yn siŵr bod y Llywodraeth, a'r Cynulliad cyfan, yn sylweddoli ei bod yn bwysig inni sefyll yn erbyn colli swyddi a sefydliadau ymchwil a gwyddonol o ansawdd da fel y rhain. Fel arall, mae perygl y collwn rywfaint o'r sylfaen y gall polisi gwyddoniaeth newydd a strategaeth wyddoniaeth newydd ddatblygu ohoni.

William Graham: Mae'n hen bryd gwireddu'r argymhellion a geir yn adroddiad y pwyllgor. Maent yn hollbwysig i sicrhau dyfodol cadarn i Gymru, gydag economi uwch-dechnoleg fywiog sydd yn seiliedig ar wybodaeth. Hyderaf y bydd y Gweinidog yn nodi rhai o'm sylwadau pan ddaw i ystyried adolygiad y pwyllgor. Pam y cymerodd gymaint o amser i'r Llywodraeth wneud hyn, a'r dystiolaeth o blaid yr angen am bolisi gwyddoniaeth mor ysgubol? Pam yr ydym yn dal i aros am weithredu'r polisi hwn, a'r rhai sy'n cystadlu â ni wedi cael achub y blaen arnom wrth osod y sylfeini ar gyfer economi sy'n seiliedig ar wybodaeth? Er mwyn sicrhau economi uwch-dechnoleg fywiog sydd yn seiliedig ar wybodaeth, rhaid inni sianelu cyllid i wyddoniaeth yn effeithiol.

Nodwn ffigurau diweddaraf Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar arloesi mewn cysylltiad â rhaglen Amcan 1, yr adroddwyd amdanynt i bwyllgor monitro'r rhaglen ar 16 Mehefin. Ym mhrif faes gwyddoniaeth, arloesi, hyfforddi a sgiliau, mae £132 miliwn wedi'i addo ar ffurf grantiau'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd ag arian cyfatebol gan brifysgolion, busnesau a'r Cynulliad. Buddsoddwyd mwy na £0.25 biliwn, ond mae'r canlyniad yn siomedig iawn. O darged o 5,000 o swyddi newydd crynswth a oedd i'w creu, dim ond 1,430 a grëwyd—tua 21 y cant o'r nifer a ragwelwyd. O darged o 3,000 o swyddi uwch-dechnoleg gros a oedd i'w

3,000 gross high-tech jobs to be created, only 876 have been created—29 per cent of the number forecast. Out of a target of 2,000 new high-technology firms to be created, only 230 firms have been created and out of a target of 15,000 employees to be helped, only 2,181 have been assisted. Out of a target of 3,000 companies to be helped with high-level skills, only 1,206 have received assistance.

We acknowledge that investment in science is costly. We are not aiming for a vibrant, knowledge-based economy if, in the short term, we fund social and art faculties and fail to invest effectively in science and innovation. Is it effective investment to commit a quarter of the whole Objective 1 science and innovation budget on new buildings, while Welsh Development Agency programmes of direct support to businesses received less than 7 per cent of the budget?

The infrastructure funding of Welsh universities is totally devolved to the Assembly Government. Within the block grant, Wales receives £1.33 per capita, compared to only £1 per capita in England. The Assembly Government chooses not to invest favourably in the universities and not to direct funding into the science faculties of our universities to enable them to recruit more staff and enhance equipment and facilities to attract students into research and development.

5.00 p.m.

The figures for research success in Wales are about on par, when the success rate of researchers in 5 or 5*-graded departments are considered. The fact is that we do not have enough people in these categories because our universities remain inadequately funded. The University of Bristol, for example, has 40 full professors of chemistry, who are funded in the usual manner. In Wales, in our entire country, there are 10. Research grants are awarded individually and we do not have enough 5* individuals.

I recently called upon the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills to

creu, dim ond 876 a grëwyd—29 y cant o'r nifer a ragwelwyd. O darged o 2,000 o fusnesau uwch-dechnoleg newydd a oedd i'w creu, dim ond 230 o fusnesau a grëwyd ac o darged o 15,000 o weithwyr a oedd i gael cymorth, dim ond 2,181 sydd wedi'u cynorthwyo. O darged o 3,000 o gwmnïau a oedd i'w cynorthwyo gyda sgiliau lefel uchel, dim ond 1,206 a gafodd gymorth.

Yr ydym yn cydnabod bod buddsoddi mewn gwyddoniaeth yn ddrud. Nid ydym yn ceisio cael economi fywiog sydd yn seiliedig ar wybodaeth os byddwn, yn y tymor byr, yn ariannu cyfadrannau'r gwyddorau cymdeithasol a'r celfyddydau ac yn methu â buddsoddi'n effeithiol mewn gwyddoniaeth ac arloesi. Ai buddsoddi effeithiol yw rhoi chwarter y gyllideb gyfan ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesi dan Amcan 1 i godi adeiladau newydd, tra cafodd rhaglenni cymorth uniongyrchol Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer busnesau lai na 7 y cant o'r gyllideb?

Mae'r cyllid ar gyfer seilwaith prifysgolion Cymru wedi'i ddatganoli'n gyfan gwbl i Lywodraeth y Cynulliad. O fewn y grant bloc, mae Cymru'n cael £1.33 y pen, o'i gymharu â dim ond £1 y pen yn Lloegr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dewis peidio â buddsoddi'n ffafriol yn y prifysgolion a pheidio â sianelu cyllid i gyfadrannau gwyddoniaeth ein prifysgolion er mwyn iddynt recriwtio rhagor o staff a gwella offer a chyfleusterau i ddenu myfyrwyr i faes ymchwil a datblygu.

Mae'r ffigurau ar gyfer llwyddiant ymchwil yng Nghymru yn eithaf cyfartal, pan ystyrir cyfradd llwyddo ymchwilwyr mewn adrannau gradd 5 neu 5*. Y gwir yw nad oes gennym ddigon o bobl yn y categorïau hyn gan nad yw ein prifysgolion yn cael digon o gyllid o hyd. Ym Mhrifysgol Bryste, er enghraifft, mae 40 athro cemeg cyflawn, sy'n cael eu hariannu yn y dull arferol. Yng Nghymru, yn ein gwlad gyfan, 10 sydd. Dyfernir grantiau ymchwil fesul un ac nid oes gennym ddigon o unigolion 5*.

Yn ddiweddar, gelwais ar y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i sicrhau

ensure that science could be studied at Welsh schools not as a combined science, but as the separate subjects of biology, chemistry and physics. This is vital if we are to inspire future scientists to teach and research in our universities and campuses. We need to ensure that the widest incentives are offered to promote study and the pursuit of careers in the subjects that drive the advancement of a vibrant and high-technology economy. This will require additional funding for training science teachers and teaching science.

I appreciate that not all scientific discoveries are made with the focus on a patent or creating wealth. We need to encourage vision and the desire to push the boundaries of innovation. Last term, I invited Colin Pillinger to the Assembly. His Beagle 2 Mars project illustrates the vision that we need to foster. In collaboration with the University of Wales, Aberystwyth, this project continues to attract investment and interest in the study of science. We share the aims of these recommendations and shall question all aspects of their implementation to ensure that they are delivered.

Carl Sargeant: I congratulate Chris Gwyther on her excellent chairing of the committee. The science review was hugely complicated and it was extremely well chaired. I begin by saying that the committee, as a whole, got the terms of reference for this review about right. The emphasis on the move towards a science policy in Wales that more effectively supports the development of a knowledge-based learning economy is certainly the way forward, if we are going to compete and be recognised as a nation of first-class scientific and technological expertise.

In a global economy, the importance of research and development is fundamental. The competitiveness of developed countries depends on their ability to introduce attractive goods with high added value into global markets. Although, on a UK level, investment in research and development has increased under Labour, I believe that the

y gellid astudio gwyddoniaeth yn ysgolion Cymru nid yn wyddoniaeth gyfun, ond yn bynciau bioleg, cemeg a ffiseg ar wahân. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i ni ysbrydoli gwyddonwyr y dyfodol i addysgu ac ymchwilio yn ein prifysgolion a'n campysau. Mae angen inni sicrhau bod y cymhellion ehangaf yn cael eu cynnig i hyrwyddo astudio a dilyn gyrfaedd yn y pynciau sy'n ysgogi datblygiad economi ffyniannus yn seiliedig ar uwch-dechnoleg. Bydd hyn yn gofyn cyllid ychwanegol i hyfforddi athrawon gwyddoniaeth ac addysgu gwyddoniaeth.

Yr wyf yn sylweddoli nad yw pob darganfyddiad gwyddonol yn cael ei wneud gyda'r ffocws ar batent neu greu cyfoeth. Mae angen inni annog gweledigaeth a'r dyhead i wthio ffiniau arloesi. Y tymor diwethaf, gwahoddais Colin Pillinger i'r Cynulliad. Mae ei brosiect Beagle 2 Mars yn enghraifft o'r weledigaeth y mae angen i ni ei meithrin. Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru, Aberystwyth, mae'r prosiect hwn yn parhau i ddenu buddsoddiad a diddordeb mewn astudio gwyddoniaeth. Yr ydym yn cyd-fynd â nodau'r argymhellion hyn a byddwn yn cwestiynu pob agwedd ar eu gweithredu i sicrhau y cânt eu cyflawni.

Carl Sargeant: Yr wyf yn llongyfarch Chris Gwyther am y ffordd ragorol y cadeiriodd y pwyllgor. Yr oedd yr adolygiad gwyddoniaeth yn hynod gymhleth a chafodd ei gadeirio'n dda dros ben. Dechreuaf drwy ddweud bod y pwyllgor, at ei gilydd, wedi llwyddo'n burion o ran llunio'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad hwn. Y pwyslais ar symud tuag at bolisi gwyddoniaeth yng Nghymru sy'n cefnogi datblygu economi dysgu ar sail gwybodaeth yn fwy effeithiol yw'r ffordd ymlaen yn sicr, er mwyn inni gystadlu a chael ein cydnabod yn genedl o arbenigedd gwyddonol a thechnolegol o'r radd flaenaf.

Mewn economi fyd-eang, mae pwysigrwydd ymchwil a datblygu yn hanfodol. Mae gallu cystadleuol gwledydd datblygedig yn dibynnu ar eu gallu i gyflwyno nwyddau deniadol sydd â gwerth ychwanegol sylweddol i farchnadoedd byd-eang. Ar lefel y DU, er bod buddsoddi mewn ymchwil a datblygu wedi cynyddu o dan Lafur, yr wyf

UK's investment figures are still too low compared to our global competitors, such as Germany and the USA. Our investment in Wales is also low compared with the UK as a whole. This troubles me because studies have shown that where state investment in research and development is higher—such as in the Scandinavian countries, where they invest twice as much as we do in the UK—the percentage assumed by the private sector is also larger, at about two thirds of the total. We are presented with a great challenge, but also a great opportunity. We need to increase our investment in research and development significantly in order to create momentum behind the development of expertise and knowledge in Wales.

While I would like to see a considerable increase in research and development technology, we cannot afford to invest indefinite amounts of money. The goal of strategic investment should therefore be to concentrate on areas of existing strengths for a truly world-class product. Obviously, I see great potential for investment in world-class scientific developments in my constituency, Alyn and Deeside, but I acknowledge that we need an audit of science and technology strengths, and research and development investment, in the whole of Wales, as a starting point for future investment. Therefore, I support the report's recommendation that the Minister should instruct the science and technology advisory council, which we are proposing to establish, to investigate our current strengths and the position of research and technology in Wales.

However, I think that the advisory council should go further and I would like to see the council address the Federation of Small Businesses' proposals that an independent foresight exercise should be carried out to identify future exploitable research areas. We need to look at the potential of other areas, but we have to be specific, as there is not enough money to go around for everybody.

While it is important to pursue our science policy with the aim of becoming a truly world-class nation, we should always undertake investment in science with a view

yn credu bod ffigurau buddsoddi'r DU yn rhy isel o hyd o'u cymharu â'n cystadleuwyr byd-eang, fel yr Almaen ac UDA. Mae ein buddsoddiad yng Nghymru yn isel hefyd o'i gymharu â'r DU gyfan. Yr wyf yn gofidio ynghylch hyn gan fod astudiaethau wedi dangos os yw buddsoddiad y wladwriaeth mewn ymchwil a datblygu yn uwch—fel yng ngwledydd Sgandinafia, lle y maent yn buddsoddi cymaint ddwywaith ag a wnawn yn y DU—mae'r ganran a dderbynnir gan y sector preifat hefyd yn fwy, sef tua dwy ran o dair o'r cyfanswm. Mae her fawr yn ein hwynebu, ond mae hefyd yn gyfle mawr. Mae angen inni fuddsoddi llawer mwy mewn ymchwil a datblygu er mwyn rhoi hwb i ddatblygu arbenigedd a gwybodaeth yng Nghymru.

Er yr hoffwn weld cynnydd sylweddol mewn technoleg ymchwil a datblygu, ni allwn fforddio buddsoddi symiau amhenodol o arian. Dylai buddsoddi strategol felly ganolbwyntio ar feysydd sydd â chryfderau eisoes o ran cynnyrch o safon wirioneddol fyd-eang. Yn amlwg, yr wyf yn gweld potensial mawr i fuddsoddi mewn datblygiadau gwyddonol o safon fyd-eang yn f'etholaeth, Alun a Glannau Dyfrdwy, ond yr wyf yn cydnabod bod angen inni gael archwiliad o gryfderau gwyddoniaeth a thechnoleg, a buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu, yng Nghymru gyfan, fel man cychwyn ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Felly, yr wyf yn cefnogi argymhelliad yr adroddiad y dylai'r Gweinidog gyfarwyddo'r cyngor ymgynghorol ar wyddoniaeth a thechnoleg, y cynigiwn ei sefydlu, i ymchwilio i'n cryfderau presennol a sefyllfa ymchwil a thechnoleg yng Nghymru.

Fodd bynnag, credaf y dylai'r cyngor ymgynghorol fynd gam ymhellach a hoffwn weld y cyngor yn mynd i'r afael â chynigion Ffederasiwn Busnesau Bach y dylid cynnal ymarferiad rhagweld annibynnol i nodi pa feysydd ymchwil y gellid eu datblygu yn y dyfodol. Mae angen inni edrych ar botensial meysydd eraill, ond mae'n rhaid inni fod yn benodol, gan nad oes digon o arian i bawb.

Er ei bod yn bwysig dilyn ein polisi gwyddoniaeth gyda'r nod o fod yn genedl sydd o safon wirioneddol fyd-eang, dylem bob amser fuddsoddi mewn gwyddoniaeth

to creating wealth and employment for local people, with prosperity, stability and sustainability for our communities. At the moment, however, the exact nature of wealth creation in Wales has not been fully investigated, either, insofar as the benefits of research and development are concerned. The advisory council should, therefore, perhaps also examine the connection before making recommendations for scientific funding investment in Wales.

Science policy and the opportunities presented by research and development touch upon the responsibilities of all our Ministers in the way in which we look at science policy in social, environmental and educational responsibilities.

Finally, I am particularly pleased by the report's recommendation to establish the role of chief scientist to be in charge of an office of science and technology. I know that that is not a silver bullet, but there should be somebody to head up a policy unit that looks at science, be it a Minister or an official within the Assembly Government. A chief scientist should have high level access to all Ministers, because of the cross-cutting nature of this subject. It is important that we diversify science across all issues, such as housing, sustainable development, education, lifelong learning and the countryside, as we work together, creating a better Wales. We need to do this to meet the social and economic challenges that lie ahead.

Kirsty Williams: I thank all the officials who helped the committee in its work and in producing the comprehensive review before us. I thank the Chair of the committee, as well as fellow committee members and the members of my group who substituted for me while I was away.

In a country that makes a great deal of its sporting heroes, we are less forward in celebrating our nation's long and proud history in science and technology. From the Welsh scientist who invented the equals sign, to the Welshman responsible for some of the most groundbreaking work in astronomy, Isaac Roberts, to people such as Professor Steve Jones, who has gone a long way in explaining the intricacies of genetics to us,

gyda'r bwriad o greu cyfoeth a chyflogaeth i bobl leol, gyda llewyrch, sefydlogrwydd a chynaliadwyedd i'n cymunedau. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid ydys wedi ymchwilio yn llawn chwaith i union natur greu cyfoeth yng Nghymru, o ran manteision ymchwil a datblygu. Efallai felly y dylai'r cyngor ymgynghorol archwilio'r cysylltiad hefyd cyn gwneud argymhellion ar gyfer buddsoddi cyllid ym maes gwyddoniaeth yng Nghymru.

Mae polisi gwyddoniaeth a'r cyfleoedd a gyflwynir gan ymchwil a datblygu yn ymwneud â chyfrifoldebau ein holl Weinidogion o ran y modd yr edrychwn ar bolisi gwyddoniaeth mewn cyfrifoldebau cymdeithasol, amgylcheddol ac addysgol.

Yn olaf, cefais fy nghalonogi'n benodol gan argymhelliad yr adroddiad i sefydlu rôl prif wyddonydd i fod yn gyfrifol am swyddfa gwyddoniaeth a thechnoleg. Gwn nad yw hynny'n ateb i bob problem, ond dylai fod rhywun i reoli uned bolisi sy'n edrych ar wyddoniaeth, boed yn Weinidog neu'n swyddog yn Llywodraeth y Cynulliad. Dylai prif wyddonydd gael cysylltiad agos â phob Gweinidog, oherwydd natur drawsbynciol y pwnc hwn. Mae'n bwysig inni ledaenu gwyddoniaeth ar draws pob maes, fel tai, datblygu cynaliadwy, addysg, dysgu gydol oes a chefn gwlad, wrth i ni gydweithio i greu Cymru well. Mae angen inni wneud hyn i ateb yr heriau cymdeithasol ac economaidd sydd o'n blaenau.

Kirsty Williams: Yr wyf yn diolch i'r holl swyddogion a gynorthwyodd y pwyllgor yn ei waith ac wrth gynhyrchu'r adolygiad cynhwysfawr sydd o'n blaenau. Diolchaf i Gadeirydd y pwyllgor, yn ogystal â chyd-aelodau'r pwyllgor ac aelodau fy ngrŵp a lenwodd y bwlch tra oeddwn i ffwrdd.

Mewn gwlad sy'n meddwl cryn dipyn o'i harwyr ym maes chwaraeon, nid ydym mor frwd wrth ddathlu hanes hir a chlodwiw ein cenedl ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg. O'r gwyddonydd o Gymru a ddyfeisiodd yr hafalnod, i'r Cymro a oedd yn gyfrifol am beth o'r gwaith mwyaf arloesol mewn seryddiaeth, Isaac Roberts, hyd at bobl fel yr Athro Steve Jones, sydd wedi gwneud llawer iawn o waith i esbonio cymhlethodau

and to the most recent example of the Penarth-based inventor, Melissa Edmunds, who has won an international award for her inventions, we have a strong and proud record of people who have contributed greatly, not just to British science, but to world science. We would do well to acknowledge that and pay tribute to them.

The Confederation of British Industry estimates that, by 2014, the UK economy will need an extra 2.4 million scientists. However, the UK is currently only producing 80,000 science graduates a year. We need to ensure that Wales gets a slice of that economic action, and to do so, we need to ensure that we, too, produce high-quality science graduates who go into high-quality science jobs in this economy to ensure that we get our fair share. To enable that to happen, the review clearly points out that we need to start at the very beginning, by ensuring that we capture our children's imagination in school, by convincing them that science is something that they want to pursue and study at GCSE and A-level. I was fortunate enough to attend a demonstration by the Institute of Chemists of Great Britain and Ireland at the theatre in Brecon, where local schoolchildren went to see a practical demonstration of how chemistry relates to everyday life. A wonderful gentleman in his 80s, long-retired from Aberystwyth university, is still touring the country, enthusing children about chemistry, science and careers and job opportunities in science. People like that should be congratulated for their efforts. However, we, as an Assembly, could be doing much more to support organisations and schools to make science an attractive proposition for young people.

5.10 p.m.

The arguments are well rehearsed about some of the disadvantages facing our universities, and the opportunities, more importantly, available for our universities to grasp, given the right support by the Welsh Assembly Government. Beyond that, we need to

geneteg i ni, a hyd at yr enghraifft ddiweddaraf, y dyfeisydd a anwyd ym Mhenarth, Melissa Edmunds, sydd wedi ennill gwobr ryngwladol am ei dyfeisiadau, mae gennym hanes cadarn a chlodwiw o bobl sydd wedi cyfrannu'n helaeth, nid yn unig i wyddoniaeth Prydain, ond i wyddoniaeth y byd. Byddai'n dda petaem yn cydnabod hynny ac yn talu teyrnged iddynt.

Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn amcangyfrif y bydd angen 2.4 miliwn o wyddonwyr ychwanegol ar economi'r DU erbyn 2014. Fodd bynnag, dim ond 80,000 o raddedigion gwyddoniaeth y flwyddyn y mae'r DU yn eu cynhyrchu ar hyn o bryd. Mae angen inni sicrhau bod Cymru'n cael cyfran o'r dorth economaidd honno ac i wneud hynny, mae'n rhaid inni sicrhau ein bod ninnau, hefyd, yn cynhyrchu graddedigion gwyddoniaeth o ansawdd da sy'n mynd i swyddi gwyddoniaeth o ansawdd da yn yr economi hon i sicrhau ein bod yn cael ein cyfran deg. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae'r adolygiad yn nodi'n glir fod angen inni ddechrau yn y dechrau un, drwy sicrhau ein bod yn tanio dychymyg ein plant yn yr ysgol, drwy eu hargyhoeddi bod gwyddoniaeth yn rhywbeth yr hoffent ei ddilyn a'i astudio ar gyfer TGAU a Safon Uwch. Yr oeddwn yn ddigon ffodus i fynychu arddangosiad gan Sefydliad Cemegwyr Prydain Fawr ac Iwerddon yn y theatr yn Aberhonddu, lle'r aeth plant ysgol lleol i weld arddangosiad ymarferol o sut y mae cemeg yn berthnasol i fywyd bob dydd. Mae bonheddwr arbennig yn ei 80au, sydd wedi ymddeol ers tipyn o brifysgol Aberystwyth, yn dal i deithio'r wlad, yn tanio brwdfrydedd plant am gemeg, gwyddoniaeth a gyrfaeodd a chyfleoedd i gael swyddi mewn gwyddoniaeth. Dylid llongyfarch pobl felly am eu hymdrechion. Fodd bynnag, gallem ni, fel Cynulliad, wneud llawer mwy i gefnogi sefydliadau ac ysgolion i wneud gwyddoniaeth yn bosibilrwydd deniadol i bobl ifanc.

Clywyd y dadleuon droeon am rai o'r anfanteision sy'n wynebu ein prifysgolion ac, yn bwysicach, y cyfleoedd sydd ar gael i'n prifysgolion eu bachu, gyda'r gefnogaeth gywir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal â hynny, mae angen inni gefnogi'r

support the universities in spinning out the good ideas, turning the raw science into the business opportunities of the future. To do that, we need to recognise people's strengths. Scientific academics are there because they are very good at that part of the science, but they are not necessarily the right people to take that idea, recognise the commercial opportunities and turn it into a business. That is why it is crucial that we offer support and put people in place who can spin out the ideas and the science into economic opportunities for us.

Although the Minister has been very good at job creation within his department, the report's recommendation to create the post of a chief scientific officer should be encouraged. Given the responsibility of running a department that is now quite big, having someone there with their eye specifically on the ball to co-ordinate policy and development across the portfolios would be welcome, as this is such an important area. To have the department advised by academics, business and an advisory body able to keep things on track, through pressure and scrutiny, should also be welcomed. That will hopefully be pursued by the Minister when he considers the recommendations and decides which ones he wants to take forward.

We have a wonderful opportunity here. We have the basis of a policy that can be driven forward. It is obvious that people were willing to engage with the committee in developing this report. There are people out there in the wider world who want to take this forward. They are eager to make the most of science on behalf of Wales. We need to capture the talent and enthusiasm of academics, business people and teachers who want to take this forward, and they deserve our support in developing a strategy that will allow them to do so.

Leighton Andrews: I echo the remarks of fellow Members and thank Chris Gwyther for the way in which she has chaired this review, which has drawn in much evidence from many different interest groups within Wales. I am also grateful for the work done by our specialist adviser.

prifysgolion wrth iddynt ledaenu syniadau da, gan droi'r wyddoniaeth grai yn gyfleoedd busnes i'r dyfodol. I wneud hynny, mae angen inni gydnabod cryfderau pobl. Mae academyddion gwyddoniaeth yno am eu bod yn dda iawn yn y rhan honno o wyddoniaeth, ond nid hwy o reidrwydd yw'r bobl iawn i ymgymryd â'r syniad hwnnw, sylweddoli beth yw'r cyfleoedd masnachol a'i droi'n fusnes. Dyna pam y mae'n allweddol inni gynnig cymorth a rhoi ar waith bobl sy'n gallu troi'r syniadau a'r wyddoniaeth yn gyfleoedd economaidd ar ein cyfer.

Er bod y Gweinidog wedi bod yn dda iawn am greu swyddi yn ei adran, dylid annog yr argymhelliad yr adroddiad i greu swydd prif swyddog gwyddonol. O ystyried y cyfrifoldeb o redeg adran sy'n eithaf mawr bellach, byddai'n fuddiol cael rhywun yno sydd â'r dasg benodol o gydgysylltu polisi a datblygu ar draws y portffolios, gan fod hwn yn faes mor bwysig. Dylid croesawu hefyd y syniad bod yr adran yn cael ei chynghori gan academyddion, byd busnes a chorff ymgynghorol sy'n gallu cadw pethau ar y trywydd cywir, drwy bwysau a chraffu. Gobeithir y bydd y Gweinidog yn dilyn hynny pan fydd yn ystyried yr argymhellion ac yn penderfynu pa rai yr hoffai eu rhoi ar waith.

Mae yma gyfle arbennig i ni. Mae gennym sail i bolisi y gellir ei ddatblygu ymhellach. Mae'n amlwg bod pobl yn barod i ymgysylltu â'r pwyllgor wrth ddatblygu'r adroddiad hwn. Ceir pobl yn y byd ehangach sydd am ddatblygu hyn. Maent yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar wyddoniaeth ar ran Cymru. Mae angen inni gipio dawn a brwdfrydedd academyddion, pobl fusnes ac athrawon sydd am ddatblygu hyn, ac maent yn haeddu ein cefnogaeth wrth ddatblygu strategaeth a fydd yn caniatáu iddynt wneud hynny.

Leighton Andrews: Yr wyf yn ategu sylwadau fy nghyd-Aelodau ac yn diolch i Chris Gwyther am y modd y mae wedi cadeirio'r adolygiad hwn, sydd wedi denu llawer o dystiolaeth gan lawer o wahanol grwpiau yng Nghymru sy'n ymddiddori yn y pwnc. Yr wyf yn ddiolchgar hefyd am y gwaith a wnaed gan ein cynghorydd arbenigol.

I will speak on a fairly narrow point in respect of the report, which starts where Chris Gwyther finished. This is about the need to encourage younger people to take up science. I will talk about an example of good practice run by the Mid Glamorgan Education Business Partnership, which operates in a number of local authority areas. Specifically, I will talk about the work that it does in the Rhondda, where there is some good practice on which we could be building. I pay tribute to the work that is done by Keith Gillard and his team. This work is not just confined to my constituency—it goes across Rhondda Cynon Taf—but, as ever, I will be a bit of a Rhondda nationalist.

There are 21 after-school science clubs in the Rhondda, with 350 children gaining first or young investigators science awards in the primary sector. Ceremonies are held in Rhondda Fach Leisure Centre twice a year where these children are given certificates for completing projects in their schools. The emphasis of the schemes is to introduce science to young people in a way that is attractive, engaging and fun, so that they can see some of the benefits and opportunities of engagement in science. Fourteen of those primary schools also hold construction workshops with the aim of providing children with a greater understanding of the construction industry; 700 children have been through those workshops. Eight Rhondda schools have hosted Starlab, which is a mobile planetarium, and, again, 700 children participated in that. Seven schools have also taken part in a project involving healthy eating. The scheme has done an immense amount to introduce young children at an early stage in their academic careers to what science can do.

At a secondary level, there is a menu of around 20 science activities offered to the five Rhondda secondary schools. Again, take-up in these projects has been very good. For example, there is an electronics project called 'Minimal Mouse', where the pupils must design an electronic mouse and race it around a track. Schools are visited by apprentices from Bosch and pupils undergo a variety of engineering challenges, and

Siaradaf am bwynt eithaf cyfyng o ran yr adroddiad, sy'n dechrau lle y daeth Chris Gwyther i ben. Soniaf am yr angen i annog pobl iau i ddechrau ymwneud â gwyddoniaeth. Siaradaf am enghraifft o arfer da gan Bartneriaeth Addysg Busnes Morgannwg Ganol, sydd ar waith yn ardaloedd sawl awdurdod lleol. Yn benodol, siaradaf am y gwaith a wna yn y Rhondda, lle y mae rhywfaint o arferion da y gallem fod yn eu meithrin ymhellach. Yr wyf yn talu teyrnged i'r gwaith a wneir gan Keith Gillard a'i dîm. Nid yw'r gwaith hwn yn digwydd yn f'etholaeth i yn unig—mae'n digwydd ledled Rhondda Cynon Taf—ond, fel sy'n wir bob tro, pan ddaw'n fater o sôn am y Rhondda, yr wyf yn dipyn o genedlaetholwr.

Mae 21 o glybiau gwyddoniaeth ar ôl ysgol yn y Rhondda, gyda 350 o blant yn ennill gwobrau gwyddoniaeth ymchwilwyr cyntaf neu ifanc yn y sector cynradd. Cynhelir seremonïau yng Nghanolfan Hamdden y Rhondda Fach ddwywaith y flwyddyn lle y caiff y plant hyn dystysgrifau am gwblhau prosiectau yn eu hysgolion. Pwyslais y cynlluniau yw cyflwyno gwyddoniaeth i bobl ifanc mewn ffordd sy'n ddeniadol, yn ennyn diddordeb ac yn hwyl, er mwyn iddynt weld rhai o'r manteision a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth wyddoniaeth. Mae 14 o'r ysgolion cynradd hynny hefyd yn cynnal gweithdai adeiladu gyda'r nod o roi gwell dealltwriaeth i'r plant o'r diwydiant adeiladu; mae 700 o blant wedi bod yn y gweithdai hyn. Mae wyth ysgol yn y Rhondda wedi cynnal Starlab, sef planetariwm symudol ac, eto, cymerodd 700 o blant ran yn hynny. Bu saith ysgol yn cymryd rhan hefyd mewn prosiect bwyta'n iach. Mae'r cynllun wedi gwneud cryn dipyn i gyflwyno i blant ifanc yr hyn y gall gwyddoniaeth ei wneud yn gynnar yn eu gyrfaedd academiaidd.

Ar lefel uwchradd, mae dewislen o ryw 20 gweithgaredd gwyddoniaeth yn cael ei chynnig i'r pum ysgol uwchradd yn y Rhondda. Eto, bu llawer iawn yn cymryd rhan yn y prosiectau hyn. Er enghraifft, ceir rhaglen electroneg o'r enw 'Minimal Mouse' lle y mae'n rhaid i'r disgyblion gynllunio llygodyn electronig a'i rasio o gwmpas trac. Bydd prentisiaid o Bosch yn ymweld â'r ysgolion a bydd y disgyblion yn cael

science lectures are held in schools. Special schools throughout Rhondda Cynon Taf, such as Ysgol Hen Felin in the Rhondda, are also engaged in this. Only last week, Ysgol Hen Felin took a party of 21 pupils to Techniquest for a science day, and each November the school visits Dŵr Cymru Welsh Water for a science project based on national tree week. That is just a selection of projects that are undertaken. These are good examples of ways in which young people can be brought to science, and we know the importance of sustaining that interest in science as they go through their academic careers if we are to bolster the number of people subsequently going into further and higher education opportunities in sciences.

There are a number of recommendations in our report. We have tried to bring together thinking across a range of areas as to how we can better co-ordinate the promotion of science policy in Wales in the future, and I look forward to seeing the Government's response to this in due course.

Janet Davies: One of this committee's strengths was that it had agreement on the way forward and on the recommendations that we made, although Christine Gwyther, Tamsin Dunwoody and I, as well as the civil servants, were the only people present at the first consideration of the draft to do that. However, it was later confirmed by the whole committee.

We all know that the heavy industry economy of Wales is a thing of the past and we have to compete in the global knowledge economy to survive. Even the rump of our heavy industry must use the knowledge economy to remain competitive. We have to have people trained in the right skills and expertise, but that is not enough; a strategy is needed to develop the most effective way forward, including cutting-edge research, which needs a great deal of investment.

amrywiaeth o heriau peirianyddol, a chynhelir darlithoedd gwyddoniaeth yn yr ysgolion. Mae ysgolion arbennig ar draws Rhondda Cynon Taf, megis Ysgol Hen Felin yn y Rhondda, yn rhan o hyn hefyd. Yr wythnos diwethaf aeth Ysgol Hen Felin â chriw o 21 o ddisgyblion i Techniquest ar gyfer diwrnod gwyddoniaeth, a bydd yr ysgol yn ymweld â Dŵr Cymru bob mis Tachwedd ar gyfer prosiect gwyddoniaeth sydd wedi ei seilio ar wythnos genedlaethol y goeden. Dyna i chi ddetholiad yn unig o blith y prosiectau yr ymgwymerir â hwy. Mae'r rhain yn enghreifftiau da o'r ffyrdd y mae modd mynd â phobl ifanc at wyddoniaeth, a gwyddom mor bwysig yw cynnal y diddordeb hwnnw mewn gwyddoniaeth wrth iddynt ddilyn eu gyrfaedd academiaidd er mwyn cynyddu nifer y bobl a fydd yn dilyn cyfleoedd ym maes gwyddoniaeth mewn addysg uwch ac addysg bellach.

Mae nifer o argymhellion i'w cael yn ein hadroddiad. Yr ydym wedi ceisio dwyn syniadau ynghyd o nifer o feysydd gyda'r bwriad o gydlynu'r modd y caiff polisi gwyddoniaeth ei hybu'n well yng Nghymru at y dyfodol, ac yr wyf yn edrych ymlaen at weld ymateb y Llywodraeth i hyn maes o law.

Janet Davies: Un o gryfderau'r Pwyllgor oedd y cytundeb oddi mewn iddo ynghylch y ffordd ymlaen ac ynghylch yr argymhellion a wnaethom, er mai Christine Gwyther, Tamsin Dunwoody a minnau, ynghyd â'r gweision sifil, oedd yr unig rai a oedd yn bresennol pan ystyriwyd am y tro cyntaf y drafft i wneud hynny. Fodd bynnag, cafodd ei gadarnhau gan y pwyllgor cyfan yn ddiweddarach.

Gwyddom oll fod economi'r diwydiannau trymion wedi hen fynd yng Nghymru ac mae'n rhaid inni gystadlu yn yr economi wybodaeth fyd-eang er mwyn goroesi. Mae'n rhaid i hyd yn oed gweddillion ein diwydiannau trymion ddefnyddio'r economi wybodaeth er mwyn aros yn gystadleuol. Mae'n rhaid sicrhau bod gan bobl y sgiliau iawn a'r arbenigedd iawn, ond nid yw hynny'n ddigon; mae angen strategaeth i ddatblygu'r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen, gan gynnwys ymchwil sydd ar flaen y gad, y mae angen llawer o fuddsoddiad i'w gyflawni.

The scientists and business people who gave evidence in this review emphasised repeatedly the need for a well-thought-out strategy to put into place the different layers of science and technology, research, development and production that can enable Wales to compete successfully in the global market. It is important that these different layers communicate with each other. Starting early in schools, continuing through the provision of relevant technical training, allowing students with high aptitude to develop ideas in universities and using that research to develop practical applications for use is not just an optional dream for Wales; it is a condition of survival. We hear and read that Wales lags behind England in investment in research. We read that the UK lags behind the USA and that the USA is falling back as China and India race ahead. It is a horrifying fact that, in the 1970s, 30 per cent of science and technology university enrolments worldwide were in the USA. That is now down to 12 per cent. The numbers of university students in this field increased threefold in India between 1990 and 2002. While they may not yet be educating to the same standards as ours, that will quickly change. This means that the UK is in danger of dropping out of sight. It is no longer good enough for Wales to hang on to the UK's coat tails; it is time for us to take decisions that can carry Wales forward confidently and successfully.

In its review, the committee recognises that we must concentrate our resources in one or two sectors, building on widely recognised expertise through a complex of institutions and businesses that provide technical training and facilities for pure and applied research and development. Funding from the European Union has been mentioned, particularly for west Wales and the Valleys. That can give us an extra boost, but it must be our own planning and investment that establishes a firm and sustainable foundation. Bioscience is one sector in which the University of Wales already has some

Yr oedd y gwyddonwyr a'r bobl fusnes a fu'n cyflwyno tystiolaeth yn yr adolygiad hwn yn pwysleisio'n ddi-baid yr angen i lunio strategaeth gyda thipyn o feddwl yn sail iddi er mwyn rhoi'r gwahanol haenau o wyddoniaeth a thechnoleg, ymchwil, datblygu a chynhyrchu ar waith i alluogi Cymru i allu cystadlu'n effeithiol yn y farchnad fyd-eang. Mae'n bwysig sicrhau y bydd y gwahanol haenau hyn yn cyfathrebu â'i gilydd. Nid breuddwyd ddewisol ar gyfer Cymru yw dechrau'n gynnar yn yr ysgolion, a pharhau drwy ddarparu hyfforddiant technegol perthnasol, gan ganiatáu i fyfyrwyr sy'n meddu ar ddoniau hynod ddatblygu syniadau yn y prifysgolion a defnyddio'r ymchwil honno i ddatblygu dulliau ymarferol o gymhwyso hynny y gellir eu defnyddio; mae'n amod ar gyfer goroesi. Clywn a darllenwn fod Cymru ymhell ar ôl Lloegr o ran buddsoddi mewn ymchwil. Darllenwn fod y Deyrnas Unedig ymhell ar ôl yr Unol Daleithiau a bod yr Unol Daleithiau'n dechrau colli tir wrth i Tsieina ac India lamu ymlaen. Mae'n ffaith frawychus bod 30 y cant o fyfyrwyr prifysgol gwyddoniaeth a thechnoleg yn yr 1970au yn yr Unol Daleithiau. Bellach mae'r ffigur hwnnw wedi cwmpo i 12 y cant. Cafwyd cynnydd triphlyg yn niferoedd y myfyrwyr prifysgol yn y maes hwn yn India rhwng 1990 a 2002. Er efallai nad yw eu haddysgystal â'n safonau ni eto, buan iawn y newidia hynny. Golyga hyn fod perygl i'r Deyrnas Unedig fod ymhell ar ei hôl hi. Nid yw'n ddigon da bellach i Gymru ddal gafael yn ffedog y Deyrnas Unedig; mae'n bryd inni wneud penderfyniadau a all ddwyn Cymru yn ei blaen yn hyderus ac yn llwyddiannus.

Yn ei adolygiad mae'r pwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid inni ganollbwyntio ein hadnoddau ar un neu ddau o sectorau, gan feithrin arbenigedd y mae cydnabyddiaeth helaeth iddo drwy amrywiol sefydliadau a busnesau sy'n darparu hyfforddiant a chyfleusterau technegol ar gyfer ymchwil a datblygu pur a chymwysedig. Crybwyllwyd arian o du'r Undeb Ewropeaidd, yn enwedig ar gyfer y gorllewin a'r cymoedd. Gall hynny roi hwb ychwanegol inni, ond mae'n rhaid inni sicrhau sylfaen gadarn a chynaliadwy gyda'n cynlluniau a'n buddsoddi ein hunain. Mae biowyddoniaeth yn un o'r sectorau y

expertise, but I would like to examine the whole issue of environmental engineering and research.

I think that most of us here have aspirations for Wales to lead on renewable energy resources in terms of green build and greener transport. However, over many years, opportunities have been missed. In the 1980s, nuclear power and oil dreams dominated, pushing aside research into renewable energy development. More recently, there has been a failure to pursue practical applications of research with a determination to get things done in the shortest possible time. There are plenty of ideas floating around, but we have no robust comparison of their benefits and disadvantages. Only wind exploitation is in place, and I am certain that at least one company in Wales has lost out in this.

5.20 p.m.

It is important that the Government takes on board this review and our recommendations. I hope that it will. I know that it has recently done some work of its own on a science policy—interestingly, this was after the committee started its work. However, I hope that having had total agreement in the committee, the Government will use the work that has been done.

Lisa Francis: As a former member of the economic development committee, or the Enterprise, Innovation and Networks Committee, as it is now known, I am delighted that this review has at last come to fruition, because the future prosperity of Wales depends on cutting-edge research. This report says that Welsh universities should be encouraged to target research on products that will benefit the economy.

The CBI in Wales has said that the success or failure of this review will come down to money. It is far more expensive to train people in scientific disciplines than it would be to train them in foreign languages or the arts.

mae gan Brifysgol Cymru beth arbenigedd ynddo eisoes, ond hoffwn archwilio holl fater peirianeg ac ymchwil amgylcheddol.

Credaf fod gan y rhan fwyaf ohonom sydd yma heddiw ddyhead i weld Cymru'n arwain ym maes adnoddau ynni adnewyddadwy o ran adeiladau gwyrdd a thrafnidiaeth wyrddach. Fodd bynnag, collwyd sawl cyfle ers llawer blwyddyn. Yn yr 1980au, ynni niwclear ac olew oedd yn tra-arglwyddiaethu, gan wthio ymchwil ar ddatblygu ynni adnewyddadwy o'r neilltu. Yn fwy diweddar, methwyd â chyflawni cymwysiadau ymarferol yn sgîl ymchwil gyda phenderfyniad i gyflawni pethau yn yr amser byrraf posibl. Mae digon o syniadau i'w cael, ond nid oes gennym gymariaethau cadarn o'u manteision a'u hanfanteision. Dim ond defnyddio ynni'r gwynt sydd ar waith, ac yr wyf yn sicr bod o leiaf un cwmni yng Nghymru wedi colli cyfle yn hyn o beth.

Mae'n bwysig i'r Llywodraeth dderbyn yr adolygiad hwn a'n hargymhellion ninnau. Yr wyf yn gobeithio y bydd yn gwneud hynny. Gwn ei bod wedi gwneud peth gwaith ei hun yn ddiweddar ar bolisi gwyddoniaeth—yn ddi-ddorol ddigon, yr oedd hyn ar ôl i'r pwyllgor ddechrau ar ei waith. Fodd bynnag, gobeithiaf, wedi cael cytundeb llwyr yn y pwyllgor, y bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r gwaith sydd wedi ei wneud.

Lisa Francis: Fel cyn-aelod o'r pwyllgor datblygu economaidd, neu'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, fel y'i gelwir erbyn hyn, yr wyf wrth fy modd bod yr adolygiad hwn wedi dwyn ffrwyth o'r diwedd, oherwydd y mae ffyniant Cymru at y dyfodol yn dibynnu ar ymchwil sydd ar flaen y gad. Dywedir yn yr adroddiad y dylid annog prifysgolion Cymru i dargedu ymchwil ar gynhyrchion a fydd o fudd i'r economi.

Dywedodd CBI Cymru y bydd llwyddiant neu fethiant yr adolygiad hwn yn dibynnu ar arian. Mae'n llawer drutach hyfforddi pobl mewn gwyddorau gwyddonol nag ydyw i'w hyfforddi mewn ieithoedd tramor neu'r celfyddydau.

As William said, it took the Assembly until roughly 18 months ago to recognise the need for a science policy in Wales. Having got there, it is important that the nettle is fully grasped. In his speech, William Graham drew attention to the comparisons between England and Wales with regard to research grants. The disparity needs to be remedied. Welsh universities need to be properly funded, and we must strengthen the key scientific disciplines that form the foundation for important high-technology industries, such as aerospace—which we already know is important to Wales—electronics, biotechnology and pharmaceuticals.

It is entirely appropriate that the committee has adopted a similar approach to that of the Republic of Ireland and plans to establish a Welsh equivalent of the advisory council for science, technology and innovation, which I hope will consist of leading science academics, technological industrialists and entrepreneurs. I am pleased with that outcome in the review. I think that this body needs to report back in about six months' time and make clear recommendations for the future of science in both the public and private sectors.

Earlier today, we mentioned that it is important that the Government revisits its policy on investment grant awards in Wales. Multinational companies do not locate because of financial incentives; they do so because there is a highly educated workforce that can adapt to the changing needs of a competitive knowledge-based economy. By investing more in education and training, and in developing a stronger science base, the Welsh Assembly Government could ensure that overseas business comes to Wales, not because of short-term financial incentives, but because of the real competitive advantage that we can offer to a knowledge-based economy.

Christine Gwyther: The amount of nerdy notes that I have taken is testament to the real enthusiasm that committee members and Members of the Assembly as a whole have shown for this important topic. I will briefly go through some of the points that were made.

Ys dywedodd William, tua 18 mis yn ôl y cydnabu'r Cynulliad fod angen polisi gwyddoniaeth yng Nghymru. O gydnabod hynny, mae'n bwysig mynd i'r afael â'r pwnc yn iawn. Yn ei araith, tynnodd William Graham sylw at y cymariaethau rhwng Lloegr a Chymru o ran grantiau ymchwil. Mae angen unioni'r anghysondeb. Mae angen cyllido prifysgolion Cymru'n iawn, ac mae'n rhaid inni atgyfnerthu'r gwyddorau gwyddonol allweddol sy'n sylfaen i ddiwydiannau uwch-dechnoleg, megis awyrofod—y gwyddom eisoes ei fod yn bwysig i Gymru—electroneg, biotechnoleg a chynhyrchion fferyllol.

Mae'n gwbl briodol bod y pwyllgor wedi cymryd agwedd debyg i eiddo Gweriniaeth Iwerddon a'i fod yn bwriadu sefydlu corff yng Nghymru a fydd yn debyg i'r cyngor ymgynghorol dros wyddoniaeth, technoleg ac arloesi, a fydd yn cynnwys academyddion gwyddonol, diwydianwyr technolegol ac entrepreneuriaid amlwg, gobeithio. Yr wyf yn falch o'r elfen honno o'r adolygiad. Credaf fod angen i'r corff hwn gyflwyno adroddiad arall ymhen rhyw chwe mis a gwneud argymhellion clir ar gyfer dyfodol gwyddoniaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Yn gynharach heddiw, dywedasom ei bod yn bwysig i'r Llywodraeth ailystyried ei pholisi ynghylch grantiau buddsoddi yng Nghymru. Nid yw cwmnïau rhyngwladol yn symud i rywle oherwydd cymhellion ariannol; gwnânt hynny am fod yno weithlu sydd wedi ei addysgu'n dda a all ymaddasu yn ôl anghenion cyfnewidiol economi wybodaeth gystadleuol. O fuddsoddi mwy mewn addysg a hyfforddiant, ac o ddatblygu sylfaen wyddoniaeth gryfach, gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod busnesau tramor yn dod i Gymru, nid oherwydd cymhellion ariannol tymor byr, ond oherwydd y fantais gystadleuol wirioneddol y gallwn ei chynnig i economi wybodaeth.

Christine Gwyther: Mae'r holl nodiadau diddim yr wyf wedi eu hysgrifennu yn dyst i'r brwdfrydedd gwirioneddol y mae aelodau'r pwyllgor ac Aelodau'r Cynulliad cyfan wedi ei ddangos ynghylch y pwnc pwysig hwn. Af yn fyr drwy rai o'r pwyntiau a wnaethpwyd.

Helen Mary Jones talked about IGER, which has spoken to many of us, and I am sure that it has talked to the Welsh Assembly Government. Its problem is that it is successful, and other parts of the UK want it, but I am sure that every effort is being made to keep it within Wales because we value what it does.

I am afraid that I cannot make a comment on the Environment Agency; that is for the Welsh Assembly Government to make.

William Graham called for more direct funding into science in universities and for incentives for science undergraduates. Such incentives can be emotional as well as financial. You mentioned the Beagle 2 project. Enthusing people before they go into higher education is hugely important, not just in terms of children, but young people who are making those important decisions at the ages of 17 and 18.

Carl Sargeant reiterated his support for a knowledge-based economy, but reminded us that investment in research and development is lower in Wales than in the rest of the UK and that that, therefore, presents a challenge and an opportunity. Alyn and Deeside is, of course, doing well in the hi-tech stakes and there are models there for the rest of Wales to follow.

You wanted the advisory council to work with the FSB, but the FSB or business people from that sort of business support sector could well end up being part of the advisory council. So, I see that as a dynamic way forward.

Kirsty Williams talked about our scientific heritage, which is important when you are enthusing people in Wales about the fact that others in Wales have done well. Making those connections is important. The former Aberystwyth professor is living proof that science is not dull and cold. It can be passionate, and that is something that we

Soniodd Helen Mary Jones am IGER, a fu'n siarad â llawer ohonom, ac yr wyf yn siŵr ei fod wedi siarad â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ei broblem yw ei fod yn llwyddiannus, ac mae rhannau eraill o'r DU am ei gael, ond yr wyf yn siŵr bod pob ymdrech ar waith i'w gadw yng Nghymru oherwydd yr ydym yn falch o'r hyn y mae'n ei wneud.

Mae'n ddrwg gennyf ddweud na allaf ddweud dim ynghylch Asiantaeth yr Amgylchedd; lle Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gwneud hynny.

Galwodd William Graham am ragor o gyllid uniongyrchol ar gyfer gwyddoniaeth yn y prifysgolion ac am gymhellion i fyfyrwyr gwyddoniaeth. Gall cymhellion o'r fath fod yn rhai emosiynol yn ogystal ag ariannol. Soniasoch am brosiect Beagle 2. Mae'n bwysig iawn ennyn brwdfrydedd mewn pobl cyn iddynt fynd i addysg uwch, nid plant yn unig, ond pobl ifanc sy'n gwneud y penderfyniadau pwysig hynny'n 17 ac yn 18 oed.

Mynegodd Carl Sargeant ei gefnogaeth drachefn i economi wybodaeth, ond cawsom ein hatgoffa ganddo fod buddsoddi mewn ymchwil a datblygu'n is yng Nghymru nag ydyw yng ngweddill y DU a bod hynny felly'n her ac yn gyfle. Wrth reswm mae Alun a Glannau Dyfrdwy'n gwneud yn dda ym maes uwch-dechnoleg ac mae modelau i'w cael yno y gallai gweddill Cymru eu dilyn.

Yr oeddech am i'r cyngor ymgynghorol weithio gyda Ffederasiwn Busnesau Bach, ond gallai Ffederasiwn Busnesau Bach neu bobl fusnes o sector cymorth busnes o'r fath yn hawdd fod yn rhan o'r cyngor ymgynghorol yn y pen draw. Felly, gwelaf fod honno'n ffordd ddynamig ymlaen.

Soniodd Kirsty Williams am ein treftadaeth wyddonol, sy'n bwysig pan fyddwch yn ennyn brwdfrydedd ymhlith pobl yng Nghymru ynghylch y ffaith bod pobl eraill yng Nghymru wedi gwneud yn dda. Mae'n bwysig gwneud y cysylltiadau hynny. Mae'r cyn-athro o Aberystwyth yn brawf digamsyniol nad peth sych a diflas yw

must get across to young people.

Leighton Andrews mentioned younger people taking up science and gave us a good example of an education business partnership. That is happening throughout Wales and we need to recognise the good work that EBPs are doing across Wales. We must also remember that science is not an elitist field. If we think that, then science will just wither on the vine. It is relevant at all levels, to people of all ages and abilities.

Janet Davies talked about the practical application of ideas, but science is not just an idea. It is not an esoteric concept; it is about economic survival and we forget that fact at our peril.

Importantly, Lisa Francis, the last contributor, said that the review's success would depend on money. Such success could come about by attracting more money into Wales. Call it seed funding, if you wish, but we could find big advantages to a new science policy, which could also bring more money into Wales.

In my opening remarks, I said that this was the last review by this committee. We have decided to re-look at all the reviews undertaken over the past eight years and see how the Welsh Assembly Government is responding to the challenges. We will be doing that over the next six months. It will be part of our legacy document, with Members' approval, to ask that such scrutiny continues beyond May 2007. With that, I hope that Members will support this document.

gwyddoniaeth. Gall fod yn beth angerddol, ac mae'n rhaid inni gyfleu hynny i bobl ifanc.

Soniodd Leighton Andrews am bobl iau'n dewis gwyddoniaeth a rhoes inni enghraifft dda o bartneriaeth addysg a busnes. Mae hynny'n digwydd ledled Cymru ac mae angen inni gydnabod y gwaith da y mae'r partneriaethau addysg a busnes yn ei wneud ledled Cymru. Mae'n rhaid cofio hefyd nad maes elitaidd yw gwyddoniaeth. Os credwn hynny, bydd gwyddoniaeth yn edwino. Mae'n berthnasol ar bob lefel, i bawb o bob oed a phob gallu.

Siaradodd Janet Davies ynghylch cymhwyso syniadau at bethau ymarferol, ond nid syniad yn unig yw gwyddoniaeth. Nid cysyniad esoterig ydyw; mae'n ymwneud â goroesi'n economaidd a gwae ni os anghofiwn hynny.

Yn bwysig iawn, dywedodd Lisa Francis, y cyfrannwr olaf, y byddai llwyddiant yr adolygiad yn dibynnu ar arian. Gellid sicrhau llwyddiant o'r fath drwy ddenu rhagor o arian i Gymru. Cewch ei alw'n gyllid sbarduno, os mynnwch, ond gallem ddarganfod manteision mawr mewn polisi gwyddoniaeth newydd, a allai hefyd ddod â rhagor o arian i Gymru.

Yn fy sylwadau agoriadol, dywedais mai hwn oedd adolygiad olaf y pwyllgor hwn. Yr ydym wedi penderfynu ailedrych ar yr holl adolygiadau a wnaethpwyd yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf a gweld sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymateb i'r heriau. Byddwn yn gwneud hynny yn ystod y chwe mis nesaf. Yn rhan o'n dogfen derfynol, gyda chaniatâd yr Aelodau, byddwn yn gofyn am barhau â chraffu o'r fath ar ôl mis Mai 2007. Gyda hynny o eiriau, gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r ddogfen hon.

*Cynnig (NDM3193): O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM3193): For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary

Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

The Deputy Presiding Officer: That brings **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â
today's proceedings to a close. chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.29 p.m.
The meeting ended at 5.29 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)

Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody, Tamsin (Llafur - Labour)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)